

ECO'r Wyddfa

 Dilynwch ni ar facebook
www.ecorwyddfa.co.uk

Rhif: 458

Hydref 2017

Pris: 70c



Yn rhifyn diwethaf yr “Eco” braf oedd cael llongyfarch Bronwen Jenkinson o'r Waunfawr am ennill Pencampwriaeth Rhedeg Mynydd Prydain i ferched dan 23 oed am yr ail flwyddyn yn olynol. Bellach, mae Bronwen yn Bencampwraig pob oedran. A'r hyn sy'n unigryw ynglŷn â'i llwyddiant yw mai dyma'r tro cyntaf yn hanes y Bencampwriaeth Rhedeg Mynydd Prydeinig i ferch ennill yr adran dan 23 oed a'r brif adran yn yr un flwyddyn. Pluen go iawn yn het y ferch ifanc leol.

Dechreuodd Bronwen redeg tra'n eneth ysgol, gan ddilyn ôl troed ei thad, Paul, oedd yn rhedwr mynydd profiadol. Fel yn hanes llawer o redwyr ifanc, y gyfres Rasys Nos Fawrth rhwng Ebrill a diwedd Mehefin bob blwyddyn roes y profiad iddi o gystadlu ar y mynyddoedd. Yn un ar bymtheg oed gallai cystadlu yn y gyfres honno yn yr adran agored, a'i huchelgais bryd hynny oedd curo ei thad! Ac ni fu'n rhaid disgwyl yn rhy hir. Ei thad, Paul, fu'n ei hyfforddi ers hynny, ac y mae yntau'n parhau i hyfforddi ieuenctid Rhedwyr Eryri ar foreau Sul yn Llanberis.

Bellach, ac er mor ifanc o ran oedran, mae Bronwen yn cael ei chyfrif ymhlith merched gorau Prydain am redeg mynydd. Mae eisoes wedi cynrychioli Cymru a Phrydain sawl gwaith.

Mae'r fro wedi magu sawl rhedwr llwyddiannus dros y blynyddoedd, a dyma ferch leol yn dilyn yn yr olyniaeth honno. Pwy a wŷr nad Bronwen fydd y ferch gyntaf i groesi llinell derfyn Ras yr Wyddfa yn y blynyddoedd nesaf?

Pencampwraig Unigryw

Cyfarfod Blynyddol “Eco'r Wyddfa”

Festri Capel y Waun

Waunfawr

Nos Fawrth, 3ydd o Hydref

Am 7.00

Cefnogwch eich Papur bro

ECO'r Wyddfa

CYMRAG

**RHIF 458
Hydref 2017**

Argraffwyd gan
Wasg Dwyfor

Penygroes 01286 881911

SWYDDOGION A GOHEBWYR

**Straeon ac erthyglau
ar e-bost i
Dafydd Whiteside Thomas
Bron y Nant, Llanrug
01286 673515
ecorwyddfa@gmail.com**

CADEIRYDD

Y PWYLLGOR GWAITH

Gwyn Parri, Cynefin, Deiniolen.

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

GOLYGYDD YR IFANC

Marged Rhys
marged_3@hotmail.com

FFOTOGRAFFWR

Gwynnaf Hughes, Hafan,
Llanrug (672221)
glasgoed@hotmail.com

TREFNYDD HYSBYSEBION

Rhian Elin George, Sw'n yr Engan,
Brynrefail (01286) 872306
ebost hysbysebioneco@yahoo.co.uk

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST

Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD BWNDELU

Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

TREFNYDD DOSBARTHU

Hefin Jones, Pantmwyn, Llanrug.
01286 673838

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL: Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl,
Bethel. (01248) 670115

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts,
Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Rhiannon Roberts,
Cefn Rhos Isaf, Penrhos.
rhiannonmai@btinternet.com

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Eifion Roberts,
Sw'n-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, Peris,
56 Glanffynnon (675384)

NANT PERIS: Kate Pritchard (872331)
neu econantperis@hotmail.com

PENISARWAUN: Katie Williams, Ty'n
Waen, Penisa'r-waun Ffôn 01248 671 622
ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO 2017

Rhifyn	Copi i law	Bwndelu	Ble
Tachwedd	15-Hydref	27-Hydref	Llanberis
Rhagfyr	12-Tachwedd	24-Tachwedd	Caethro
Nadolig/Ionawr	03-Rhagfyr	15-Rhagfyr	Llanrug

LLYTHYRAU

Deg Hoff Englyn

Gwahoddiad caredig yw hwn: gwahoddiad i holl garedigion y pethe, ac yn arbennig i'r cannoedd lawer sy'n mawr werthfawrogi traddodiad barddol cyfoethog Cymru.

O blith mesurau cerdd dafod, yr englyn, bid siŵr, yw un o'r rhai mwyaf poblogaidd. A dyna amcan y nodyn hwn: estyn gwahoddiad diffuant ichwi anfon ataf destun eich hoff ddeg englyn. Nid cystadleuaeth ydyw, ond cyfle i bawb fod â rhan mewn gweithgarwch fydd yn adlewyrchu'r diddordeb rhyfeddol sydd gan gymaint ohonom yn y chwarel ddihysbydd hon o englynion, ar gof a chadw gennym fel cenedl o'r nawfed ganrif hyd heddiw. Bydd croeso arbennig i englynion lleol, llai cyfarwydd, o bosibl, ond rhai ag iddynt apêl bersonol i chi.

Yn ogystal ag ennyn diddordeb pellach yn hoff englynion y Cymry, y gobaith yw codi swm sylweddol o arian tuag at Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd, Awst 2018 (gw. isod). Cyhoeddir y deg englyn a ddaeth i'r brig, a detholiad o'r gweddill, ynghyd ag enwau pawb a gyfrannodd.

Rhai cyfarwyddiadau pellach:

1. Anfoner testun teipiedig o'r englynion ar bapur A4.
 2. Os yn bosibl, anfoner copi o'r englynion hefyd ar ffurf atodiad drwy ebost.
 3. Gyda'r englynion gofynnir yn garedig ichwi anfon rhodd o £25 (neu fwy, os dymunwch). Y siec yn daladwy i: Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd.
 4. Dylid nodi enw awdur pob englyn, os yw'n wybyddus. Yn arbennig gydag awduron llai cyfarwydd, gorau oll os gellir hefyd ychwanegu yn gryno unrhyw wybodaeth bellach, megis ardal yr awdur a blwyddyn geni / marw.
 5. Gellir cynnwys unrhyw un o ffurfiau'r englyn, nid yr englyn unodl union mwyaf cyfarwydd yn unig.
 6. Os yw englyn yn rhan o gyfres, da fyddai nodi hynny.
 7. Gorau oll os gellwch restru'r englynion yn nhrefn blaenoriaeth. Ond nid yw hynny'n orfodol. Gellwch hefyd, er enghraifft, eu dosbarthu fel hyn: 1-3: hoff englynion; 4-6: ail ddosbarth o hoff englynion; 7-10: trydydd dosbarth o hoff englynion.
 8. Gyda'r casgliad o englynion dylid nodi eich enw, cyfeiriad (yn cynnwys cyfeirnod post), rhif ffôn, a chyfeiriad e-bost.
 9. Y dyddiad cau yw 1 Ebrill 2018, ond gorau po gyntaf i anfon ataf: Cwm Eithin, 37 Heol Sant Mihangel, Llandaf, Caerdydd, CF5 2AL. Tel. 029 2056 6249. rgwynnaf@sky.com
- Byddai'n hyfrydwch arbennig i mi pe bai ugeiniau lawer ohonoch yn mynd ati mor fuan â phosibl i ddewis eich hoff englynion. Yr un modd, i annog eraill drwy ddangos y gwahoddiad hwn i unigolion, cymdeithasau, dosbarthiadau cerdd dafod, ac ati. Canmil diolch am eich cefnogaeth a phob dymuniad da. 3. ix. 2017 Robin Gwynnaf

Annwyl Olygydd

CYFARFOD CYHOEDDUS EISTEDDFOD 2019

Rwy'n ysgrifennu atoch i holi a oes modd i chi ein helpu i hyrwyddo'r ffaith y cynhelir cyfarfod cyhoeddus i groesawu Eisteddfod Genedlaethol 2019 i Sir Conwy, nos Iau, 12 Hydref, os gwelwch yn dda.

Bwriad y cyfarfod, a gynhelir yng Nghanolfan Fusnes a Chynadleda Glasdir, Llanrwst am 19.00, yw gwahodd trigolion lleol i fod yn rhan o'r paratodau a'r trefniadau ar gyfer un o wyliau mawr y byd a gynhelir yn y sir o 2-10 Awst 2019. Mae croeso mawr i bawb, ac rydym yn awyddus i ddenu unigolion o bob rhan o'r ardal i fod yn rhan o'r prosiect, ac felly'n cynnal y cyfarfod mewn canolfan sy'n ganolog i bawb yn y sir.

Mae cefnogaeth leol a gweithgareddau cymunedol yn eithriadol o bwysig i lwyddiant yr Eisteddfod a'r gwaith a wneir ar lawr gwlad dros gyfnod o ddwy flynedd yn rhan ganolog o'r prosiect. Gobeithio bydd y cyfarfod a'r prosiect yn denu criw mawr o wirfoddolwyr brwdfrydig o bob oed i ddod atom i baratoi at yr Eisteddfod yn ardal Sir Conwy.

Bydd y gwaith yn cychwyn yn syth, gan y bydd angen dechrau rhoi'r Rhestr Testunau at ei gilydd o fewn ychydig wythnosau a chreu pwyllgorau apêl lleol ar draws y dalgylch i ddechrau ar y gwaith o drefnu gweithgareddau a chodi arian. Mae croeso mawr i bawb a darperir offer cyfieithu ar y pryd ar y noson. Am ragor o wybodaeth am yr Eisteddfod, ewch i www.eisteddfod.cymru neu ffoniwch y swyddfa ar 0845 4090 400.

Yn gywir,
Elen Elis, Trefnydd

RHODDION

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

£20: Er cof am Kathleen Williams, Tan 'Rallt, Cwm-y-glo; Er cof am Mrs Ann Daniel Hughes, gynt o Tŷ Newydd Cae Hywel; Merfyn a Rhiannon Hughes, Clawdd Newydd, Llanrug; Di-enw, Llanberis.

£ 10: Er cof am Elwyn Jones, 2 Blaen Y Ddôl, Llanberis; Doris Roberts, Dwyros, Waunfawr.

£5.00: Eleri Llwyd Jones, Deiniolen.

Annwyl Ddarllenwyr,

EIN GWIR HANES

Cynhelir cyfarfodydd arbennig (yn ddi-dâl) i gyflwyno gweddau o hanes Cymru yng Nghanolfan Hanes Uwchgwyrfai, Clynog Fawr, Gwynedd. Dyma ychydig o wybodaeth am y digwyddiad nesaf sef: Ein Gwir Hanes 13: Diwedd Llinach Tywysogion Gwynedd (1282-3)

Dydd Sadwrn Hydref 14eg 2017 o 10.30 tan 2.30

Dewch i glywed hanes trist ac allweddol diwedd teulu Llywelyn ein llyw Olaf yn dilyn cyflafan Cilmeri. Yn y bore bydd yr Athro A.D. Carr, Bangor, yn olrhain hanes Dafydd, (brawd iau Llywelyn): "Yr ola, eiddila' o'i lin, Dafydd ap Gruffudd".

Yn y pnawn bydd Ieuan Wyn yn adrodd hanes "Tynged Etifeddion Dafydd a Llywelyn".

Mynnwch wybod ein hanes ni, gwir hanes Cymru. Yr hanes nas cawsoch yn yr ysgol.

Darperir paned.

Am ragor o fanylion cysylltwch â ni ar 01286 660 546/853

canolfanuwcgwyrfa@gmail.com

Jina Gwyrfai (Cyd-drefnydd)

Yn ystod y mis aeth heibio

- Adroddiad am wyth o feics wedi eu dwyn o Ysgol Waunfawr, gwerth tua £250 yr un.
- Sbwriel (unwaith eto!) wedi ei adael ym maes parcio Canolfan Llanberis yn dilyn cynnal y Rat Race ddechrau Medi.
- Gogledd Korea yn tanio taflegrau i'r Môr Tawel, a hynny dros dir Japan. Herio'r U.D.A. mae'n debyg oedd y bwriad tra'n dangos faint o gynnydd a wnaeth y wlad mewn datblygiadau gwyddonol/milwrol dros y blynnyddoedd diwethaf.....
- ac Arlywydd America tra'n annerch y Cenhedloedd Unedig yn addo difetha gwlad Gogledd Korea os na fyddai "Rocketman" yn callio. 'Dyw 'gair i gall' na 'gair gan gall' yn siwtio'r un o'r ddau rywsut.
- Dathlu penblwydd y Refferendwm a roes Gynulliad i Gymru, a'r farn gyffredinol yw nad oes 'fawr o newid'.
- Boris yr Ysgrifennydd Tramor yn taflu clamp o garreg ddadleuol i Bwll Dwr Budr Brexit, ac nid yw'r tonnau yn ei sgil wedi gostegu eto.
- Cyfres o gorwyntoedd yn dinistrio ynysodd y Caribi ac arfordir America a daeargrynfeydd yn ysgwyd eu cymdogion, Mecsico i'w seiliau.....
-ninnau'n cwyno am ddyddiau glawog.

Ymddiheuriad

Daeth toreth o ddeunydd a lluniau i'w cynnwys yn rhifyn Medi; digon a bod yn onest i gyhoeddi rhifyn dwbl – o na baem yn gallu ei fforddio. Bu'n rhaid cwtogi'n sylweddol, ac yn anffodus, mae llawer o'r deunydd hwnnw wedi dyddio erbyn y rhifyn hwn – digwyddiadau o ddiwedd Gorffennaf a dechrau Awst er enghraifft. Ond daliwch i anfon eich adroddiadau, ac os oes unrhyw bryderon, wel dowch i'r Cyfarfod Blynnyddol i fynegi barn neu i gynnig cymorth.

SEFYDLIAD COFFA LLANRUG

Bydd Mr Robin Williams yn cynnal cyrsiau ipads, Tabledi Samsung a ffonau symudol yn y Sefydliad Coffa ar Nosweithiau Mercher, Hydref 11fed a 18fed
Mae'r cyrsiau yma wedi'u hariannu drwy gynllun y Co-op.

HYNACARALL - Mi Synnech Chwi Beth a Ddaw i'r Fei!

Hen gerdyn post lliwgar

Cyn dyfodiad bodau dynol, ceid pysgod. Y rhain ydoedd yr agnathaniaid, a berthyn i'n moroedd oddeutu pum can miliwn o flynyddoedd yn ôl. Ni cheid unrhyw esgyrn na safnau'n perthyn iddynt. Yna oddeutu ddau can miliwn o flynyddoedd yn ôl cafwyd pysgod ac iddynt esgyrn a safnau! Ond arhoswch chwi! Ishio dweud rydw i, o dro i'w gilydd, tarewir ar olion hen gychod, canwau fel y'u disgrifir, a nifer bychan ohonynt yn dyfod i'r fei ar lannau llynnoedd neu afonydd, weithiau aberoedd a glannau'r moroedd yng Nghymru. Mi allwch ddyfalu, ran pennu amseroedd, yr union gyfnodau hanesyddol y perthynent iddynt! Siawns bod na dystiolaeth ar gael sy'n profi'n digamsyniol maint lefelau carbwnau a berthyn i wrthrychau o'r fath, fel y gellir dyddio union eu hoedran.

Eiddo ni fel Cymry ydyw'r Grib Goch, Nant y Moch, Clogwyn Penllechen, Craig Aderyn, Llwybrau y Mwyngloddwyr a Phyg, Cwm Dyli a Llyn Llydaw. Wir i chwi, yn y flwyddyn 1856 tra'n gostwng lefel dŵr y llyn er mwyn adeiladu pont, darganfuwyd canŵ wedi'i gladdu ar foncen. Bu i weithiwr ddechrau ei fwyellu a llifio rhan ohono. Tanwydd, welwch chi! Ond er fod y canŵ bellach yn dyllog a heb fod yn dal dŵr, llwyddwyd drwy ryw ryfedd wyrth a gofal i'w achub! Dywedodd y peiriannydd ar y pryd ei fod yn gwybod am ganŵ arall yn y llyn, ond byddai angen gostwng lefel y dŵr os mynnid cael gafaél arno!

Bu'r gwrthrych dan sylw yng ngofal Dr Griffith Griffith, Taltreuddyn, gerllaw Harlech ac yn y flwyddyn 1866 bu iddo ei arddangos i aelodau o'r Gymdeithas Archeolegol yma yng Nghymru, a hynny ym Machynlleth.

Ond pam fod yno ddau ganŵ? Ai er mwyn cyflawni rhywbeth o bwys, a berthyn i fodau dynol ymhob oes, sef 'sgota? Ie! Y mae'n bur debyg, ond yn ôl E.L. Barnwell, Archaeologia Cambrensis (1874) amcan tra gwahanol ydoedd cadw canŵ ger Llyn Llydaw. Ie! Er mwyn ei rwyfo i'r ynys fechan a geir yno! Hyn i gyd er mwyn casglu wyau! Nid rhai ieir, ond gwylanod! Iesgob annwyl!

Ym mis Medi'r flwyddyn 1925, trawodd Tom Jenkins ar ganŵ a gladdwyd yn lled agos i lan ogleddol llyn Llangors ym Mrycheiniog. Gwnaed defnydd o arfau metalig i gerfio'r llestr, sy'n peri i ddyn feddwl mai mewn oesoedd a ddilynodd yr Hen Oes Gerrig yr aed ati i greu'r llestr. Ond i ba ddibyn, tybed? Yn sicr at wasanaeth trigolion y crannog, sef annedd-dy a adeiladwyd ar blatfform, hefo stiltiau i'w ddal i fyny yn y dŵr. Hawdd credu bod defnydd mynych ar y canŵ. Heblaw tramwyo'r dyfroedd o'r cartref i'r lan byddid yn mynd ati yn ogystal i dryferu a dal pysgod efo rhwydi.

Llyn Llydaw? A geid yno grannog? Nid oes unrhyw beth sy'n amlygu bod hynny'n ffaith. Gresyn hynny! Byddai bod yno deulu, rhai o'r hen Frythoniaid, yn bwyta pysgod ac nid yn gloddesta ar wyau gwylanod, wedi bod o gaffaeliad ac yn werth ei ailadrodd, hyd yn oed hyd ei filfed mewn hyn o golofn! Am y tro mi adawaf chwi hefo ffaith ddigamsyniol – sef bod ar gael unwaith ganŵ ym mhen uchaf Cwm Dyli; yno yng nghysgod yr Wyddfa.

Dafydd Gruffudd Ifan

CYNGOR CYMUNED LLANRUG A CHWMYGLO

Mae Cyngor Cymuned Llanrug a Chwm y Glo yn chwilio am bersonau neu gwmnïau gyda profiad a'r cymhwyster priodol, fyddai a diddordeb cael eu ystyried i'w cynnwys ar restr cydnabyddedig o gontractwyr i wneud gwaith i'r Cyngor. Mae hyn yn cynnwys (ond nid yn gyfyngedig) i lanhau cyffredinol, gwaith cynnal a chadw, peintio, gwaith torri coed a gwaith cerrig.

Am ragor o fanylion, os gwelwch yn dda a wnewch gysylltu a'r clerc drwy e-bost ar clerc@llanrug.cymru neu drwy ffonio 07769 112875.

Teithiau Cerdded Archaeolegol Castell Dolbadarn a'i Barc Bach.

Cynhelir y daith – o tua dwyawr – fore Sul, Hydref 29ain am ddeg y bore. Dewch i ddysgu am y tirwedd a greodd Llywelyn Fawr ar gyfer ei wraig, Siwan, ym mlynnyddoedd cynnar y 13eg ganrif. Arweinydd: Spencer Smith. I archebu lle cysylltwch efo Dan Amor: danamor@heneb.co.uk neu 01248 366970

Esbonia beth yn union wyt ti'n ei wneud...

Dwi'n cynllunio, steilio a dylunio digwyddiadau a phriodasau! Mae fy ngwaith hyd yn hyn wedi bod yn y maes 'corporate' yn trefnu digwyddiadau mawr, fel cynadleddau i gwmnïau yn y maes Technoleg. Ond ym mis Mai, fe wnes i lansio fy musnes newydd yn gwneud priodasau hefyd! Gall hyn gynnwys unrhywbeth, o gasglu syniadau cynlluniau lliw, i ffeindio lleoliadau, i addurno'r briodas ei hyn ar y diwrnod.

Beth wnaeth i chdi ddechrau'r busnes a phryd?

Wel, i ddweud y gwir, dwi 'di ffansi fy hun fel 'wedding planner' ers blynyddoedd! Ond doedd o erioed yn yrfa 'nes i gysidro yn iawn, jest yn rhywbeth oni'n meddwl 'dwi'n siwr 'sa hynna yn cal!' Doedd o ddim tan ychydig o flynyddoedd yn ôl wnes i ddechrau cysidro fo'n iawn - ar ôl i mi newid o weithio yn y maes datblygu chwaraeon i'r maes marchnata a digwyddiadau.

O'n i'n byw rhwng Reading, Lloegr a Llanrug, yn trafaelio nôl a 'mlaen bob yn ail wythnos, yn gweithio fel swyddog digwyddiadau a marchnata i gwmni Technoleg yn 2013 pam ffeindiais fy mod yn feichiog! Tra o'n i ar famolaeth dechreuais gwrs diploma hefo'r 'UK Academy of Wedding and Event Planning'. Rhywbeth ychwanegol i wneud ar yr ochr oedd o i gychwyn, fel hobi, ond hefyd i ddatblygu fy sgiliau steilio a dylunio, pethau oni'n gwneud yn fy ngwaith i ryw raddau yn barod.

Mi es i'n ôl i'r gwaith ar ôl cael Losi, fy merch. Ond, er mwyn gallu aros yn Llanrug llawn amser, wnes i fynd yn hunan gyflogedig. Mi ydw'i dal i weithio i'r cwmni Technoleg, ond fel Ymgynghorydd ar gyfrit eu digwyddiadau mawr yn Ewrop. Ar ôl cael fy ail blentyn, Elsi, mi o'n i dal yn gwneud fy Niploma, a wnes i gyrraedd y meddylfryd 'now or never'! Felly, ar ôl siarad hefo teulu a ffrindiau, a gweld gymaint o'n i'n mwynhau dylunio priodasau, penderfynais i hefyd ychwanegu hyn at fy musnes, ac esi amdani i lansio fy ngwefan!

Mae dylunio priodasau yn llawer mwy personol na'r byd 'corporate' ac mae'n rhoi cyfle i mi i fod yn greadigol mewn ffyrdd gwahanol i be dwi wedi gwneud o'r blaen.



Hefyd, mae Gogledd Cymru wedi datblygu lot yn y maes priodasau yn y blynyddoedd diwethaf. Mae'r dewis o leoliadau priodi wedi tyfu, ac mae yna lawer iawn o bobl dalentog a llwyddiannus o fewn y maes yn cynnig gwahanol wasanaethau. Ond, dwi'n teimlo nad oes neb yn cynnig y pecyn cyfan yn yr ardal; sef cynllunio, steilio a dylunio mewn ffordd fodern a fresh!

Dwi wrthi rwan ers ychydig o fisoedd, ac mae gen i fy mhriodas gyntaf i gwpl o'r Felinheli ym mis Rhagfyr!

Lle wnes di dyfu fyny? Oedd ysgol wedi dylanwadu i chdi fynd ymlaen i'r maes yma?

Yn yr Hendre, Caernarfon wnes i dyfu fyny. Daeth y maes marchnata a chynllunio digwyddiadau i mi yn hwyrach mewn bywyd. Chwaraeon oedd fy mheth tra oni yn yr Ysgol, yn enwedig nofio a gymnasteg. A trwy hynny es i'n syth o wneud gradd ym Mhrifysgol Bangor mewn lechyd a Chwaraeon i weithio fel Rheolwr ar Ddyletswydd yng Nghanolfan Hamdden Arfon. Ar ôl hynny mi es i 'mlaen i weithio fel swyddog 5x60 i ysgolion ardal Bangor. Ond sicr, trefnu oedd fy nghryfder ers y dechrau!

Dwi wedi bod o amgylch cystadlaethau a digwyddiadau gwahanol ers Ysgol gynradd, ac o'n i bob tro eisau helpu i drefnu partis, nosweithiau agored ac yn y blaen. Wrth wneud fy ngradd meistr ym Mhrifysgol Northumbria, Newcastle wnes i sylweddoli mai marchnata a dylunio digwyddiadau mawr oedd yn fy 'ngalw'. Cefais

brofiad o reoli nosweithiau codi arian i elusen leol, nosweithiau gwobrwyo i dimau chwaraeon mawr yr ardal a hefyd llawer o ddigwyddiadau bach. Ffeindiais yn sydyn bod fy 'steilio' yn bwysig iawn, O'n i'n gwario oriau yn gwneud yn siwr bod pob bwrdd wedi ei osod yn berffaith a bod pob dim yn digwydd ar amser! Fel mae'r rhan fwyaf o fy ffrindiau, teulu a fy nghydweithwyr dros y blynyddoedd yn dweud, dwi'n 'unflappable' - dwi'n gallu cadw fy mhen ar adegau straenus a dwi'n drefnus ofnadwy. Felly dyma yw'r yrfa i mi!

Wyt ti wedi gweithio ar ddigwyddiadau difyr? Unrhyw beth lleol?

Mae'r rhan fwyaf o ddigwyddiadau dw'i wedi gweithio arnynt yn broffesiynol hyd yn hyn i gyd wedi bod dramor! Dwi wedi gweithio yn Barcelona, Cannes, Singapore ac mewn pythefnos mi fyddai yn Venice yn gweithio ar ddigwyddiad technoleg i dros 1,000 o bobl! Ond, tra o'n i'n gwneud fy ngradd meistr yn Newcastle cefais swydd wirfoddol fel 'match day manager' i'r Newcastle Falcons (tîm rygbi league) - mi oedd rheina yn ddyddiau difyr! Delio hefo bob dim o 'croud riots' i blymio gwael yn yr ystafelloedd newid!

Yn y dyfodol, bysw'n i wrth fy modd cael cyfle i weithio ar ddigwyddiad lleol. Wrth gwrs fyddai'n gwneud hyn hefo priodasau, ond un o fy 'dream jobs' bysa gweithio ar wyl gerddorol. 'Llanrugffest' ella?!

I weld enghreifftiau o waith Jade ewch i www.jadeleung.co.uk



Mae Mari Elen Jones, 24, yn wreiddiol o Harlech ac yn ddiweddar wedi ymgartrefu yng Nghwm-y-glo gyda'i phartner, Lewis, sy'n ddrymiwr i'r bandiau poblogaidd Candelas a Swnami, a'u mab bach, Nedw. Yn ysgrifennwraig a pherfformwraig drama ifanc, mae Mari wedi dechrau blog am ei phrofiad fel mam ifanc newydd o'r enw 'Dacw Mam yn Dwad'. Dyma ni'n ei holi:

Helo Mari! Croeso i fro'r Eco! Yn gyntaf, beth wnaeth dy ddenu i ymgartrefu yn ardal?

I fod yn hollol onest, Rightmove. Chwilio am rywle yn ardal Caernarfon oedden ni, ond wnes i weld ty (ein ty ni rwan) ar wefan Rightmove a meddwl "W, ma' fanna'n edrych fatha lle da i fagu plant". Dwi wrth fy modd hefo'r ardal, a 'da ni 'di gwirioni dod o hyd i lefydd newydd i fynd am dro fel teulu.

Dywed ychydig am dy brofiad ysgrifennu/perfformio ac ati:

Mi wnes i astudio Theatr a Drama ym Mhrifysgol De Cymru felly dyna lle ddechreuodd pob dim dweud y gwir. Ges i gyfle i 'sgwennu a pherfformio i sawl cwmni gwahanol; Theatr Genedlaethol, Arad Goch, Sherman Cymru, Tinopolis, Fran Wen, Neon Topia a Protest Fudur. Ers i mi symud i'r Gogledd, rwyf i a chriw o ffrindiau wedi sefydlu cwmni theatr amatur ein hunain ym Mhwillheli (lle 'dwi'n gweithio) sef Cwmni Tebot, Nes i 'sgwennu drama fer ar gyfer y noson agoriadol a ges i berfformio.

Beth wnaeth i ti ddechrau'r blog?

Ma' cael babi yn gallu bod yn amser unig iawn, ti'n 'ista'n ty hefo babi bach, ac er bod o'n ciwt a does 'na ddim byd gwell na mwyrha' a gweld ei ddatblygiad dyddiol, all i di yrru dy hun yn wallgo'. Fy ffordd i o ymdopi hefo'r peth oedd neud fideos byr o fy hun ar Instagram a'u postio nhw (dwi dal i wneud, mae o fatha dyddiadur), a nes i ddechrau cael adborth neis gan famau eraill a ffrindiau. Ond fatha lot o famau newydd eraill ges i fy ngwneud i deimlo fatha bod pobl yn siarad amdana i, yn fy meirniadu fel mam, a nes i ddechra' cael y teimlad afiach 'na yn cnoi yn fy mol. Fy ffordd i o ymdopi hefo pethau ydy 'sgwennu, ella bod hyn yn hollol gawslud ond dwi yn gweld o'n ddihangfa ac yn ffordd i mi allu teimlo fatha fi fy hun eto ers cael Neds. Mae o bach fatha therapi. Dyna sut cafodd Dacw Mam yn Dwad ei eni.

Sut mae'r adborth wedi bod hyd yma?

Mae'r adborth hyd yma wedi bod yn wych, lot o ferched dwi'm yn 'nabod yn cysylltu hefo fi, lot o ferched dwi heb siarad hefo ers blynyddoedd yn cysylltu, a phob un yn deud bod nhw'n teimlo 'run peth. Dwi'n teimlo fel fy mod yn rhan o gymuned o chwaergarwch ar-lein.

Oes gen ti unrhyw beth arall ar y gweill?

Ar hyn o bryd, dwi wrthi'n ysgrifennu sgript i blant ar gyfer Gwyl Hanes Cymru yn 2018. Dwi'n cyd-weithio efo'r cwmni Mewn Cymeriad wrth iddyn nhw fentora fi. Mae'n brofiad newydd i mi oherwydd dwi erioed 'di sgwennu i blant o'r blaen!

Unrhyw gyngor i famau ifanc eraill ym mro'r Eco?

Pwy ydw i i roi cyngor? Oll ddyweda i ydy: 'Da chi'n cadw rhywun yn fyw, mae o'n anodd. Does 'na ddim ffordd iawn nac anghywir i fagu eich plant. Peidiwch â chael eich hun i lawr yn poeni am be ma' bobl eraill yn feddwl ohonoch chi. 'Da chi'n gwneud yn wych :)

Gallwch ddarllen blog Mari ar wefan

www.dacwmam.wordpress.com

TUDALEN YR

IFANC

ECWMYGLO

Marwolaeth Yn sydyn ond yn dawel ar Fedi Sed yn Ysbyty Gwynedd bu farw Mrs Elinor Hughes, 11 Dôl Afon, yn 80 mlwydd oed. Mam annwyl Arwel, Arfon, Heddwen ac Arnold, mam yng ngyfraith Sandra, Delyth, Alyn, Kelly a Jen a nain falch ei wyrion, wyresau, gor-wyrion a gor-wyresau. Cynhaliwyd ei hangladd ar Fedi 12fed yn ei chartref a rhoddwyd hi i orffwys ym mynwent Llanrug. Gwasanaethwyd gan y Parch Gwynfor Williams. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Diolch Dymuna Bryn a'r teulu ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniasant yn eu profedigaeth o golli gwraig, mam a nain annwyl, sef Kathleen Williams, Tan-Rallt.

Diolch hefyd i'r Parchedig Dr Carol Roberts am ei gwasanaeth ar ddydd yr angladd ac i Dafydd a Jane (E.W. Pritchard) Llanberis am eu trefniadau cywir a pharchus. Cyflwynir y rhoddion a dderbyniwyd i Ambiwylans Awyr Cymru.

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Dafydd a Vera Price, Tan y Graig, ar achlysur eu Priodas Aur yn ystod mis Medi, a mwynhewch y dathlu.

Undeb y Mamau Cyfarfu'r aelodau yn eglwys Sant Mair bnawn Mawrth, Medi 19. Oherwydd salwch yr oedd nifer o'r aelodau yn absennol. Cafwyd gwasanaeth byr a thrafodwyd materion oedd i law. Yn gofalu am y lluniaeth oedd Auriel. Terfynwyd trwy adrodd y Gras yn Gymraeg a Saesneg.

ECO'r
Wyddfa

**Cefnogwch ein
hysbysebwy**

Hen Eco y co' a'r cur...

Englyn diolch am ddiwedd cyfnod mewn ysgol

Diolch a wnawn yn dawel o gofio
pob gofal aruchel,
deigryn syn; gan faint y sêl
a gwyd yn awr y gadel.

I Enid Jones [Talsarn/Rhuthun] – Mam Robat Arwyn yn 90 oed.

Fach Wen sy'n rhan o Enid – yn y cof
mae cyfoeth o'i h'iengtîd,
hen fro, hen werthoedd, hen frîd
addfwyn fel nos o wyddfid.

'Rhen ÊL [Hogia'r Wyddfa] fu farw'n 79 oed.

Y llais dwbwl bâs mor iasol – yn sail
i swyn cân neilltuol
Hogia'r Wyddfa; ddeil ar ôl
i babell cof y bobol.

Huw Preis Huws – Urddo yn Eisteddfod Môn

Pysgotwr – weinyddwr yw hwn – a mwy,
ynddo mae dimensiwn
ansad arswydus densiwn
'r ysbryd ein penyd a'n pwn...

Richard Lloyd Jones – Mêt – Dechrau Canu Dechrau Canmol

Nid act oedd Rich a'r tractor,- enfoi
allanfaes tîm Bangor,
ŵr llawn, y bardd a'r llenor
cain ei gêm ar Lain 'Ei' Gôr.

Hedd Wyn Canmlwyddiant y Gadair Ddu

'r Ysgwrn oedd pob asgwrn o hwn – mynydd
a mawnog a gwyndwn;
yna gwae! Cyflafan gwn
a'i mynnodd i dom Annwn.

Norman Closs

CAPEL CAEATHRO

CROESO I'R ROLLOF HONOUR YRHYFEL MAWR

Ar Ddydd Sul, 5 Tachwedd am ddau o'r gloch y prynhawn bydd seremoni croesawu dogfen bwysig yn ôl i Gapel Caeathro. Daeth y ddogfen yn ôl i feddiant Capel (MC) Caeathro ddechrau'r flwyddyn. Roedd y "ROLL OF HONOUR" yn rhestru aelodau o'r Eglwys a'r Gynulleidfa oedd "wedi gwasanaethu eu Brenin a'u gwlad yn y Rhyfel". Roedd y rhestr a'r ffrâm mewn cyflwr gwael. Felly mae'r Eglwys wedi er hadfer.

Roedd 22 enw arno gyda'u cyfeiriadau. Gyferbyn ac enwau tri ohonynt roedd geiriau allweddol. Roedd William G Jones (Cefn-gwern) wedi mynd "ar goll". Yn anffodus ni fu'n bosibl darganfod ei hanes wedyn. Roedd Hugh M Hughes (Brynbel) yn "garcharor rhyfel". Ond daeth yn ol gartref, ac am nifer o flynyddoedd wedyn roedd yn rheolwr y 'Co-Op' yn Llanrug. Fo oedd tad Meurig, Ifor a Deiniol. Yn achos William Rawson (22 Glangwna Terrace) gwelir y geiriau "Wedi Cwmpo". Nid oes cofgolofn rhyfel yng Nghaeathro ac nid yw enw 'William Rawson' i'w weld ar gofgolofnau mewn mannau cyfagos. Ond ym Mynwent Capel Caeathro gwelir ar un garreg fedd enwau ei fam, a'i wraig.

"Er serchog gof am / MARY RAWSON JONES / 23 Glangwna Terrace / A hunodd Hydref 12 1913 /

Yn 56 mlwydd oed / HEFYD EI MHAB / WILLIAM RAWSON / A gwmpodd yn y rhyfel mawr /

Mehefin 8 1917 / Yn 31 mlwydd oed / HEFYD EI BRIOD / ANN RAWSON / A hunodd Hydref 12 1919 /

Yn 35 mlwydd oed / Gorphwys maent mewn hedd"

Mae dogfennau swyddogol o'r rhyfel yn ei gofnodi fel Private William Rawson, 42881, o'r 'Yorkshire Regiment'. Bu farw ar yr wythfed o Fehefin 1917 yn 31 oed yn Fflandrys. Caiff hyn ei gofio ar y giât Goffaol ym Menin yn Ypres yng Ngwlad Belg.

Fel y digwyddodd gyda sawl un a oedd 'wedi cwmpo' roedd geiriau coffa wedi ru hychwanegu ar fedd y teulu gartref. Bu ei mab, Dic Rawson, yn cadw siop yn Glangwna Terrace am nifer o flynyddoedd. Yn anffodus methiant fu pob ymdrech i gael hyd i'r teulu heddiw.

Gweddill y dynion ifanc gollwyd oedd John T Jones (Rhyddallt Newydd), David E Jones (School House), Robert T Roberts (1 Glangwna Terrace), Frank Roberts (hefyd 1 Glangwna Terrace), Evan Owen (Rhyddallt Newydd), Richard Roberts (10 Glangwna Terrace), Hugh Jones (15 Glangwna Terrace), Richard J Jones, (15 Glangwna Terrace), John O Roberts (9 Glangwna Terrace), John W Jones (16 Glangwna Terrace), William R Jones (Cae athraw Bach), James Pugh (Hen Gapel), John Jones (14 Glangwna Terrace), John R Lloyd Owen (Mur Mathew Farm), John H Williams (Cefn Gwern), Richard T Morgan (Brynteg Terrace), Richard Jones (Ty Newydd), Robert J Humphreys (9 Glangwna Terrace), Humphrey Gray (Brongwna) a Robert Parry Jones (Wern).

Mae'n sicr fod y rhan helaeth o'r hogiau uchod a theuluoedd lleol heddiw. Bydd croeso mawr iddynt ymuno â chynulleidfa Eglwys Caeathro am 2 yp ddydd Sul, 5 Tachwedd 2017.

Ac os oes hanes pellach i'r hogiau hyn beth am eu rannu a ni? Ymhellach, beth am gofio ymdrech ein merched!

Miri Medi Ar ddydd Sadwrn, 16 eg o Fedi, cynhaliwyd y Miri Medi yng Ngardd Cefn Gof. Buom yn ffodus i gael tywydd teg a chafwyd noson hyfryd o gymdeithasu a rhoi'r byd yn ei le! Roedd y plant, ac ambell i riant, wedi mwynhau y 'Bucking Bronco' ac hefyd y cwrs rhwystr.

Hoffai Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro ddiolch i Anglesey Bouncing Castles, Cwmni Jones Pizzas am eu bwyd bendigedig, i Gwilym Bowen Rhys am ein swyno gyda'i lais unigryw ac i noddwyr masnachol am eu cefnogaeth. Roedd pawb wedi mwynhau.

Llawer o ddiolch i Hefin a Tegwen Hughes a'r teulu am eu croeso i'r Miri Medi yn eu gardd.

Llongyfarchiadau Dymuniadau gorau i Prys a Iona Thomas, Dolgynfydd Uchaf, ar achlysur eu Priodas Arian ac ar ddau ben-blwydd arbennig yn ystod yr haf. Gobeithio bod pawb wedi mwynhau y dathlu!

Tynfa Caeathro Dyma enillwyr mis Medi: 1af (40) £40: Jayne Lloyd, Tyddyn Cae. 2il (88) £25: Heledd ac Aled, 5 Rhes Glangwna. 3ydd (48) £15: W.E. Hughes, Cefn Gwern. 4ydd (60) £5: Brenda Tweedale, 14 Erw Wen.

Gwasanaethau y Capel

Dydd Sul, Hydref 1af am 2.00 o'r gloch: Oedfa Ddiolchgarwch dan ofal Y Gweinidog, Y Parch Marcus Robinson.

Dydd Sul, Hydref 15 am 2.00 o'r gloch: Y Parch Eric Roberts.

Cais Gyda'r nosweithiau yn byrhau a nifer o bobl yn ail afael mewn hobiau gaeafol, daeth cais i englynwyr bro yr Eco am gywirdeb ac enw awdur yr englyn canlynol, i'w ddefnyddio mewn sampler. Dyma'r englyn.

Rhy hawdd yw llacio'r pwythau
fu'n nerth a lliw i'r edau.
I beri i holl ddeunydd brau
ein diwylliant droi'n dyllau.

Anfoner unrhyw wybodaeth i rhiannonmai@btinternet os gwelwch yn dda.

Rali Ffermwyr

"Fel ŵyr y mwyafrif, mae Ffermwyr wastad yn edrych ymlaen ac yn paratoi eu cnydau a'u gwaith ar gyfer y tymor a ddaw, ond eleni mae gan griw Clwb Ffermwyr Ifanc Caernarfon fwy o waith nag arfer, oherwydd mis Mai nesaf fe fydd y clwb yn gwesteio Rali y Sir!

Y rali yw uchafbwynt y flwyddyn i'r aelodau a'r cefnogwyr ac yn ddigwyddiad llawn cystadlu brwd, adloniant, crefftau a chelfyddyd ac ar ben hyn oll, hwyl.

Gan mai clwb bychan (ond brwdfrydig iawn) o ran niferoedd yw Caernarfon, mae'r paratoadau yn dechrau ymhell ymlaen llaw ac mae'r aelodau yn awyddus i glywed gan unrhyw gyn aelodau, ffrind, cefnogwyr a noddwyr a fyddai gan ddiddordeb helpu mewn unrhyw ffordd ar gyfer y diwrnod mawr, fel bod Rali CFFI Caernarfon 2018 yn un gwerth chweil.

Bydd noson agored i drafod y rali yn Neuadd Bethel (cartref y clwb) am 19:30, Hydref y 4ydd ac mae croes o i bawb i drafod syniadau. Dewch yn llw!"

—Trwsio ac Adnewyddu Dodrefn—

Wedi torri darn o ddodrefn?

Hoff gelfi wedi mynd i edrych yn drist?

Cysylltwch â ni i roi bywyd newydd i'ch trysor

Dennis & Julie Jones

01286 650255

Gwasanaeth Gwres a Plymio

Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser

Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig • Bethel • LL55 1UW
Tel. (01248) 674927 Mobile- 07798 746718

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams. Ffôn: 870580

Sefydliad y Merched Ymhlith gweithgareddau ddiwedd tymor yr haf cafwyd Trip Dirgel wedi ei drefnu gan ein llywydd, Pat Jones, i Ynys Môn gan ddiweddu ym Mhlas Penmynydd a chael sgwrs gan Richard Cuthbertson am y cartref hanesyddol a diweddu'r noson ym Mwyty Dylan, Porthaethwy.

Bu i nifer o aelodau'r gangen gymryd rhan yn y Sioe Grefft a Chynnyrch a gynhaliwyd yn y Ganolfan, Llanberis. Llongyfarchiadau i'n llywydd a ddaeth yn ail gyda'r mwyafrif o farciau ac i bawb arall a fu'n llwyddiannus ac am eu cymorth mewn llawer o weithgareddau.

Aeth dwy o aelodau'r gangen i'n cynrychioli yng Nghinio y Ffederasiwn yng Ngwesty Waterloo, Betws y Coed gyda Dylan Cernyw yn diddanu gyda'r delyn ar derfyn y noson.

Yng nghyfarfod Gorffennaf cafwyd cyfle i wrando ar Sally Ellis yn adrodd hanes ei gwaith yn siop a chaffi Menter Fachwen.

YREGLWYS BRESBYTERAIDD

Oedfaon Hydref am 5 yr hwyr

1: Parch Marcus Robinson (Gweinidog)

Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd

8: Parch R.O. Jones, Gaerwen

15 :OEDFA DIOLCHGARWCH

Parch Geraint Roberts, Porthaethwy

22: Mr T. Alun Williams, Caernarfon

Cewri Llanberis

Dydd Sadwrn yn Llanberis
Wrth droed y Wyddfa fawr
Mae'n ddiwrnod Mabolgampau
A phawb mewn hwyl yn awr.
Ond er yr holl lawenydd
Rhyw gofio ydwyf fi
Am Gewri Mawr Llanberis
A'r dynion yn eu bri.

Rwy'n gweled yr hen lwybrau
Lle cerddodd llawer un
I weithio'r glas glogwyni
Â'i ebill bach a'i gyn.
Fe welais yno'r Cewri
Yn symud creigiau gynt,
Ond heddiw maent yn ymladd
yn galed am eu gwynt.

A llawer cyfaill heddiw
Sy'n huno'n awr mewn bedd,
Y llwch a'i galwodd yntau
I ddyfnder oer y bedd.
Os yw ei wedd yn welw
A'i enau heddiw'n fud,
Ei lais sydd yn ddiderfyn
Ym mhedwar rhan y byd.

Os gwrnado wnawn yn astud
Wrth basio'r Nant ryw dro,
Cawn glywed lleisiau'r Cewri
Yn dadlau yn y gro.
A'r chwarel ochor arall
Yn ddistaw heb ei 'Gêr'
A'r creigiau serch yn oeri
Heb gewri Mawr Llanber.
T.H. Jones (Twm Bethel) Bethel

y CYNLLUN CERDDED A DARGANFOD
the WALK AND DISCOVER PROJECT

menter fachwen

RHIF ELUSEN / CHARITY NUMBER: 701163

www.menterfachwen.org.uk









TEITHIAU CERDDED A DIGWYDDIADAU MIS HYDREF

DYDD IAU 5 HYDREF 1.30 yp

CRWYDRO A DARGANFOD HANESION PENTREF LLANRUG (2 milltir)

CYCHWYN: PARC GLANMOELYN, LLANRUG

EITHA HAWDD. AMBELL LLWYBR. DEWCH A SGIDIAU CERDDED.

DYDD GWENER 13 HYDREF

MAP PLWYF PENTIR: DIWRNOD HANES BRO GLASINFRYN

2.00 yp: TAITH GERDDED: HANESION GLASINFRYN (1 milltir)

CYCHWYN: Y GANOLFAN YN GLASINFRYN.

HAWDD IAWN. DEWCH I HEL ATGOFION A DWEUD EICH HANESION.

7.30 yh: NOSON HANES LLEOL GLASINFRYN SGYRSIAU, HEN LUNIAU AC ARDDANGOSFA O HANES GLASINFRYN A CHAERHUN YN Y GANOLFAN YN GLASINFRYN.

DEWCH AG UNRHYW HEN LUNIAU O'R ARDAL GYDA CHI I RHANNU EICH HANESION

MAWRTH 17 HYDREF 1.30 yp

CERDDED A DARGANFOD Y FELINHELI: AFON HEILYN AC ABERPWLL (1½ milltir)

CYCHWYN: Y FELIN SGWRSIO, STRYD BANGOR, Y FELINHELI.

Taith ysbrydolwyd gan, ac i gofio am Bruce Palmer. Derbynnir rhoddion i'r Ambiwylans Awyr os dymunir.

TAITH EITHA HAWDD OND DEWCH A SGIDIAU CERDDED.

MAWRTH 31 HYDREF 7.30 yh

MAP PLWYF PENTIR: NOSON HANES LLEOL PENRHOSGARNEDD A TREBORTH YN Y GANOLFAN CYMDEITHASOL YN PENRHOSGARNEDD

SGYRSIAU, HEN LUNIAU AC ARDDANGOSFEYDD

DEWCH I HEL ATGOFION, ADRODD EICH HANESION AC UNRHYW HEN LUNIAU O'R FRO GYDA CHI.

AM FWY O WYBODAETH, CYSYLLTWCH A GARETH ROBERTS, MENTER FACHWEN.

01286 870681 (ORIAU GWAITH)

garethroberts754@yahoo.co.uk

y CYNLLUN CERDDED A DARGANFOD
the WALK AND DISCOVER PROJECT

menter fachwen

RHIF ELUSEN / CHARITY NUMBER: 701163

www.menterfachwen.org.uk



Marian Jones.

Ffôn: (01286) 870291

Pen-blwydd Arbennig Cyn y daw'r Eco nesaf o'r wasg ac os Duw â'i myn, fe fydd Mrs Priscilla Williams, Wylfa, neu Anti Cilla i'r plantos, wedi dathlu ei phen-blwydd yn 103. Mae gofal Eirwen ac Alwyn yn fawr iawn trosti. Alwyn wedi aberthu llawer iawn ac yn dal i gofio am aberth ei fam pan oedd o yn blentyn.

Mae Mrs Williams yn codi tua naw y bore bob dydd ac yn mynd i'w gwely o gwmpas naw y nos. Mae yn mwynhau ei bywyd i'r eithaf, er ei bod wedi tawelu dipyn ond yn dal i ganu hefo gwên fawr ar ei hwyneb. Mae yn disgwyl am bob pryd bwyd a, mwy na hynny, ar ôl mynd i'w gwely yn y nos mae'n rhaid cael tost cyn mynd i gysgu. Mae yn mwynhau ei bwyd.

Mae pawb yn yr ardal yn dymuno pen-blwydd hapus iddi ar 24 o Hydref ac, wrth gwrs, y mae yn edrych ymlaen am y diwrnod mawr unwaith eto. Gobeithio yn fawr y caiff ei dymuniad ac ymlaen â hi i'r blynyddoedd a ddel. Gwyn eich byd a chariad mawr. Pob bendith ac iechyd iddi.

Bu Duw mor garedig â rhoi dau o blant iddi ac y maent mor barod i'w charu ac yn gofalu yn annwyl iawn amdani ac yn aberthu popeth er ei mwyn.

Cilla annwyl. Cofio am yr hwyl y byddem yn ei gael hefo hi pan yn aelod ffyddlon o Gapel MC Dinorwig. Yr oedd yn hynod o hwyliog a chariadus iawn hefo ni i gyd. Amser braf nad aiff byth yn angof.

Daliwch ati, Cilla, ac edrychwn ymlaen at y parti.

Diwedd Tymor yr Haf Erbyn hyn y mae tymor yr hydref hefo ni ac, fel y byddai yr hen bobl yn dweud, mae Ffair y Nant wedi pasio ac felly y mae cynhebrwng yr haf wedi bod, hynny o haf a gawsom eleni. Mae yn hydrefol iawn erbyn hyn a'r dyddiau yn lleihau bob dydd a'r nos yn mynd yn hwy. Y gwyliau wedi gorffen a phawb wedi mynd i'w ffordd ei hun. Bywyd newydd wedi dechrau i lawer un; ffrindiau newydd a mwynhau cymdeithasu â hwy, ffrindiau am oes i lawer un a gobeithio fod y plantos bach wedi setlo i lawr yn iawn yn eu hysgolion newydd.

Dymuniadau gorau a phob lwc i chi i gyd a gobeithio ar ddiwedd y cyfan, y bydd llwyddiant yn dilyn. Daliwch ati.

Pen-blwydd Mae swyddogion ac aelodau Eglwys MC Cefn y Waun yn llongyfarch Miss Cissie Rowlands, Gerlan, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 91 ar 13eg o Fedi. Roedd yn aelod ffyddlon o'r capel cyn i'w hiechyd dorri i lawr. Wrth longyfarch Cissie, mae yn rhaid llongyfarch Mrs Jennie Williams, 1 Rhydfadog, gan mai efeilliaid ydynt ond bod Mrs Williams, ar ôl priodi wedi troi i Eglwys Crist, Llandinorwig, er bod ganddi gryn ddiddordeb yn Eglwys Cefn y Waun o hyd.

Llongyfarchiadau i chwi eich dwy a gobeithio am nerth ac iechyd i'r blynyddoedd a ddel a phob lwc ichi eich dwy.

Swyddfa Bost Tybed faint sydd wedi sylwi pa mor aml mae'r Swyddfa Bost yn codi prisiau postio. Pob tro yr wyf fi yn prynu llyfr o stampiau dosbarth cyntaf maent wedi codi. Y dydd o'r blaen fe euthum i'r post i bostio parsel bychan a chefais andros o sioc pan ddywedwyd wrthyf ei fod yn costio pedair punt namyn ceiniog. Nid wyf yn gweld hir oes i'r swyddfa bost os ydynt am ddal i roi eu prisiau i fyny fel y maent wrthi ar y funud, maent yn prisio eu hunain allan o fod. Pa ryfedd fod cymaint o faniau i'w gweld ar hyd a lled y fro yn danfon nwyddau. Pob lwc iddynt a ddywedaf i.

Cofion Anfonwn ein cofion annwyl fel ardal ar Mrs Megan Morris, Minffordd gynt, sydd yn cartrefu yn Plas Garnedd, Llanberis, hithau yn ystod y flwyddyn wedi dathlu ei phen-blwydd yn 102.

Cofiw'n hefyd at Mrs Joan Rees Williams sydd yn byw yn awr ar Allt Bont, Llanrug, ond yn un o blant yr ardal. Un o dair o genod Mr a Mrs Thomas Rees Edwards, Bron Eilian. Joan yw'r hynaf o'r genod ond wedi colli ei dwy chwaer bellach, sef Enid a Betty. Mae hithau wedi dathlu ei phen-blwydd yn 93 ers yr 20fed o Fedi.

Cofion annwyl atoch eich dwy am lawer blwyddyn eto gobeithio.

Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt,

Ffôn: 870740

Y Gymdeithas Undebol 'Rydym yn falch iawn o allu cyhoeddi y bydd y Gymdeithas Undebol yn cychwyn, wedi ysbaid o flwyddyn, ei thymor am 2017/18 ar 19eg o Fedi yng Nghapel Coch, yng nghwmni Hogia Bodwrog, Sir Fôn. Mi wn y bydd y cyfarfod agoriadol wedi bod cyn i'r rhifyn yma o'r Eco ddod o'r wasg, doedd y manylion ddim wedi eu cadarnhau i alluogi i mi eu cynnwys yn Eco Mis Medi! Bydd y cyfarfod nesaf ar y 3ydd o Hydref am 7 o'r gloch, pryd y cawn sgwrs ar Y Parchedig R. Bryn Williams[Patagonia], gan Ken Jones, Llanberis.

Swyddogion Y Gymdeithas am eleni: Cadeirydd Mr John Pritchard, Ysgrifennydd Mr Gareth Jones, Trysorydd Mr Eifion Roberts, gyda llu o wirfoddolwyr eraill yn cynorthwyo wrth y drws ac yn paratoi lluniaeth.

Pris aelodaeth yw £5, am y flwyddyn, sy'n galluogi mynediad i'r holl nosweithiau a chael paned gyda bisged/teisen ar y noson.

Edrychwn ymlaen at eich presenoldeb.

Diolchiadau Dymuna Hefina a'r teulu ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd yn eu profedigaeth fawr o golli gŵr, llys-dad a brawd cariadus. Derbyniwyd y swm o £2000, er cof am Elwyn, tuag at Awyr Las. Diolch o galon i bawb.

Diolchiadau Dymuna Ann Roberts, 4 Ffordd Padarn, ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniodd ar ôl colli ei mam yn ddiweddar.

Llongyfarchion i'r holl bobl ifanc a fu'n llwyddiannus yn eu harholiadau Ysgol, Coleg a Phrifysgol yn ddiweddar.

Noson Tŷ Gobaith Cynhelir Noson O Gân, yng nghwmni Annette Bryn Parry a Chôr Meibion Dyffryn Peris yng Ngwesty Dolbadarn ar nos Wener, yr 20fed o Hydref, am 7.30. Pris mynediad yw £10, sy'n cynnwys mynediad i'r adloniant a phryd "Bwffe Ysgafn". Mae tocynnau ar gael gan aelodau'r Côr neu gan Westy Dolbadarn(01286 870277).

Bydd elw'r Noson yn mynd i Tŷ Gobaith.

Diolch Dymuna Gareth, Bryn a Rhian a'r holl deulu ddiolch o galon am bob caredigrwydd a chydymdeimlad estynnwyd tuag atynt yn eu profedigaeth lem o golli mam, nain a ffind annwyl a thyner, sef Olwen Owen, 15 Stryd Siarlot, Llanberis.

Cyflwynwyd siec o dros £500 i Feddygfa Llanberis er cof amdani ac i ddiolch am bob gofal a gafwyd dros y blynyddoedd.

Ym mlodau'r lliwiau llawen – fe erys

‘mhob fory ei heulwen,

ac ym mhob gardd hardd cawn wên

anwylaf a chariad Olwen.

Oedfaon Capel Coch am fis Hydref

1af: Mr Glyn Owen 10yb, Parti Bytholwyrdd Syh

8fed: Y Gweinidog 10yb, Y Gweinidog Syh

15fed: Mr Euron Hughes 10yb, Parch. Euros Wyn Jones Syh

22ain: Oedfa Deulu 10.30yb

29ain: Mr Andrew Settaree 10yb, Mr Dewi Jones Syh



Cefnogwch ein
hysbysebwyr

Dyfodol Papurau Bro – a'r Gymraeg

Sefydlwyd yr 'Eco' dros ddeugain mlynedd yn ôl, a'r cymal cyntaf yn ei gyfansoddiad oedd mai Cymraeg fyddai iaith y papur. Mae'r iaith bellach yn ymddangos fel pe bai dan fwy o fygythiad nag erioed, a hynny'n aml o gyfeiriadau pur annisgwyl. Cysidrwch yr hyn ddigwyddodd yn ystod misoedd yr haf.

Rhaglen 'Newsnight' ar y BBC yn trafod a'i "help or hindrance" oedd yr iaith Gymraeg. Nofelydd gwrth-Gymreig a merch a oedd yn ôl ei chyfaddefiad ei hun yn gwybod fawr ddim o'r iaith oedd y gwesteion. Yn dilyn protestiadau lu, ni chafwyd ymddiheuriad, dim ond datganiad y bydd angen ymchwil mwy treiddgar cyn dychwelyd at y testun rywdro yn y dyfodol. Mae'r sefydliad felly am barhau i drafod a yw ein hiaith yn "help or hindrance"!

Y BBC (unwaith eto) yn cyhoeddi 'map llenyddol Prydeinig'. Roedd yn dangos lleoliadau cysylltiedig â rhai o briflenorion Prydain. Ond fe'u lleolwyd i gyd yn Lloegr. Doedd Gogledd Iwerddon ddim ar y map. Hanner deheuol yr Alban oedd ar y map, ac yr oedd Cymru yn cael ei chynrychioli gan dair coeden. Mewn gwirionedd, map llenyddol o Loegr oedd hwn, ond mae'n amlwg fod Lloegr a Phrydain yn gyfystyr i'r BBC. Daeth y protestiadau unwaith yn rhagor: Conan Doyle wedi ei 'ddwyn' oddi ar yr Alban a'i osod yn Llundain, a Roald Dahl wedi ei 'ddwyn' oddi ar Gymru a'i osod rywle rhwng Rhydychen a Llundain. A phe bai'r map wedi ei gywiro, teg gofyn a fyddai'r BBC wedi cynnwys unrhyw lenor Cymraeg ei iaith arno.

Cwmni Sports Direct yn gwahardd eu gweithwyr rhag siarad unrhyw iaith ond Saesneg – a hynny ym Mangor. Y cwmni'n gwadu fod y fath waharddiad yn bod; yn cael eu profi'n anghywir, ac yn diddymu'r gwaharddiad. Ond y cyfan yn rhy hwyr i guddio eu hagwedd drahaus tuag at y Gymraeg a phob iaith arall heblaw'r Saesneg.

Pryder ymhlith aelodau'r Eglwys yng Nghymru fod prinder gallu yn y Gymraeg gan ei hesgobion, gyda dim ond un yn rhugl yn yr iaith. A fydd y diffyg hwn yn arwain at gyfarfodydd – boed weinyddol a chrefyddol – Saesneg eu hiaith?

Mam yn siarad Cymraeg gyda'i phlentyn ar y stryd yng Nghaerfyrddin ac yn cael 'cerydd' am wneud hynny!

Dadl fawr y Cynllun Datblygu Lleol yng Ngwynedd yn cael ei phenderfynu ar bleidlais fwrw. Afraid ail-godi'r dadleuon yma, ond i ddwyn pennawd Dylan Iorwerth yn 'Golwg', "Nid tai ydi'r broblem go iawn." Aphe bai cynghorwyr Gwynedd (a Môn hefyd, wythnos yn ddiweddarach) wedi bod yn ddigon dewr i wrthod mabwysiadu'r Cynllun Datblygu, gallai fod

wedi bod yn fodd o agor trafodaeth ehangach (ac i ddyfynnu Dylan Iorwerth eto) "ar beth sy'n digwydd i'n hardaloedd gwledig ni a'r hyn sydd ar ôl o'r cymunedau Cymraeg." A dyna'r cymal sy'n dychryn: "yr hyn sydd ar ôl"; gweddillion ein cymunedau Cymraeg, a'r rheini'n crebachu'n flynyddol. O fewn pedair blynedd bydd Cyfrifiad arall. O bosib y bydd Bethel a Llanrug yn parhau ymhlith cymunedau Cymreiciaf Cymru, ond a fydd canran y siaradwyr Cymraeg o'u mewn yn parhau yn yr wythdegau? Ac yn newyddion Dinorwig yn y rhifyn diwethaf daeth llygedyn o oleuni wrth groesawu teulu Cymraeg i'r ardal. Ond tristwch y sefyllfa yw fod y Gymraeg wedi dirywio'n sylweddol yno yn ystod deugain mlynedd bodolaeth yr Eco. Heb holi pob un yn unigol, does wybod beth oedd cymhelliad cynghorwyr y fro i bleidleisio fel y gwnaethant ar benderfyniad y Cynllun Datblygu Lleol.

Os oedd dadl y Cynllun Datblygu yn gogor-droi o gwmpas niferoedd y tai i'w codi a'r effaith posib ar yr iaith, daeth ystadegau brawychus eraill ddiwedd Awst ynglŷn â niferoedd yr ail-gartrefi yng Ngwynedd. Rydym yn byw mewn sir sydd a mwy na chwarter yr holl dai a werthir yma yn cael eu prynu fel ail-gartrefi – a hynny ar bris o bron i £300,000. Pa obaith i drigolion ifanc ein cymunedau? A dengys yr ystadegau hefyd fod nifer yr ail-gartrefi wedi cynnyddu'n flynyddol dros y saith mlynedd diwethaf. Erbyn hyn, ac er fod treth uwch ar ail-gartrefi yn dod i rym yn 2018, mae 5,626 o ail-gartrefi yng Ngwynedd. Ac anhebygol fod nifer fawr o'r rhain wedi eu prynu gan Gymry Cymraeg eu hiaith! Ac os bydd y patrwm yn parhau, a fydd chwarter y tai a glustnodwyd o fewn y Cynllun Datblygu Lleol yn cael eu gwerthu fel ail-gartrefi? Does ryfedd fod ardaloedd yn Llŷn yn cael eu galw yn West Cheshire.

A beth sydd a wnelo hyn oll a dyfodol papurau bro? Ddeufis yn ôl diflannodd y newyddiadur Cymraeg wythnosol olaf, 'Y Cymro'. Ar wahan i rai cylchgronau, mae newyddiaduraeth Gymraeg a Chymreig yn prinhaus. Mae colofn lythyrau'r Daily Post yn aml yn dangos atgasedd pobl o fewn ein gwlad tuag at y famiaith. Y papur bro bellach yw'r unig ddeunydd darllen Cymraeg sy'n cyrraedd llawer iawn o gartrefi. Ond a yw'r papur bro yn adlewyrchu'r hyn sy'n digwydd o fewn ei ddalgylch? A fydd haneswyr y dyfodol yn cael golwg gywir ar fywyd heddiw o ddarllen ôl-rifynnau unrhyw bapur bro? Problem y papurau bro yw mai amaturiaid sy'n eu cynnal. Prin bod golygyddion na gohebwy'r papurau bro wedi derbyn hyfforddiant mewn newyddaduriaeth, a phrin bod gwarchod cyfreithiol iddynt chwaith. Ond gan mai'r Gymraeg yw cong-l-faen y papur bro, a'r Gymraeg bellach yn destun gwleidyddol, onid yw'n hen bryd i bapurau bro fod yn 'wleidyddol' o'i phlaid, a rhoi sylw amlwg i unrhyw fygythiadau i'w pharhad?

MODURDY'R WYDDFA
Snowdon Garage
LLANBERIS
M.O.T
GWASANAETH
CYNNAL A CHADW
(01286) 870225



ADVANCED VEHICLE WORKSHOP Arbenigwyr mewn ceir VW, Audi, Seat, Skoda & Porsche
BOSCH Service
Gwasanaeth Lleol, Cyfeillgar a Phroffesiynol ers 1975.
Which? Trusted trader **01286 673559** **NOT TESTING STATION**
Zone 2, Cibyn Ind Est, Caernarfon, LL55 2BD - www.AVWBosch.co.uk



CHWILOTA

chwilota.wordpress.com

www.chwilota.wordpress.com

Englyn Bedd

Do, fe ddaeth ymateb y mis hwn – ond nid i gais y mis diwethaf! Anfonwyd y wybodaeth ar e-bost gan Bet Jones, sy'n holi am y canlynol ar fedd Owen Roberts ym mynwent Pentir, a fu farw yn hanner cant oed ar 13eg o Fehefin 1731. Roedd yr Owen Roberts hwn bump cenhedlaeth yn ôl o'i thaid!

Mae'r cynnwys yn dywyll a thrwm fel petai'r ymadawedig yn siarad, a dyma hi yn union fel y mae ar y garreg:

Fy ngrys gwyn am dun om dy a llinin
y llinwyd fy ngwely
A gwisgwyd fi yno i cysgu
yn fyddar dan y dauar ddu
Mae'r gorff ar galon oedd gu
Mae'r wen, mae'r wyneb in llygru
Mae'r breichiau wedi Brychu
Dan garchar y ddauar ddu

O'i hail-osod, gwelir mai englyn yw'r rhan gyntaf:

Fy nghrys gwyn yn dynn o'm tu – a llinyn
Y lluniwyd fy ngwely,
A gwisgwyd fi yno i gysgu
Yn fyddar dan y ddaear ddu.

Hynny yw, mae'r corff wedi ei glymu mewn lliain gwyn cyn ei roi yn y bedd.

Ac englyn arall sy'n dilyn:
Mae'r gorff a'r galon oedd gu – mae'r wen
Mae'r wyneb yn llygru;
Mae'r breichiau wedi brychu
Dan garchar y ddaear ddu.

Pwy tybed oedd awdur y ddau englyn hwn yn dyddio o 1731?

Cysylltiad Llanbedrog â Llanrug a Llanddeiniolen

Ym mynwent Eglwys Llanbedrog mae bedd John Roberts, Archddiacon Meirionnydd a Rheithor y Plwyf, a fu farw yn 1802 yn 73 oed. Hwn oedd perchennog Stad Glangwna, plwyf Llanrug. Roedd yn fab i Henry Roberts, Hafod y Wern, Clynnog, a'i fam, Mary oedd gor-wyres Thomas Williams (bu farw 1694). Wyr Thomas Williams, gŵr o'r enw John Parry, oedd yr olaf o'r hen deulu gwreiddiol i fyw yn Glangwna. A John Roberts yr Archddiacon a fu'n gyfrifol am werthu'r stad rhyw ychydig flynyddoedd cyn ei farw. Ac aeth yr hen stad wreiddiol Gymreig yn eiddo i estron o Swydd Amwythig.

Hefyd yn yr un mynwent mae bedd y Parch William Roberts a'i wraig Margaret. Bu'n Rheithor plwyf Llanddeiniolen o fis Awst 1803 hyd ei farwolaeth yn 1836. Graddiodd yn ddeunaw oed o Goleg Iesu, Rhydychen, ac urddwyd yn offeiriad yn 1785. Cyn derbyn rheithoriaeth Llanddeiniolen bu'n gwasanaethu ym Modfean a Bryncroes. Yn yr un bedd hefyd claddwyd ei ferch, Margaret, a'i fab Robert. Mewn bedd cyfagos mae mab arall, William, swyddog yn y fyddin. Y geiriad ar ei garreg fedd a dynnodd fy sylw: "son of William Roberts, Gallt y Beren, Rector of Llanddeiniolen." A oedd hyn yn golygu fod lle o'r enw Gallt y Beren yn Llanddeiniolen? Ai ardal y Beran ar lethrau Moel Rhiwen sydd dan sylw?

Yr ateb syml yw 'Na'. Mae Gallt y Beren yn dŷ sylweddol rhyw dair milltir tu allan i Bwllheli, ac yno roedd William Roberts, ei wraig, Margaret, a thri-ar-ddeg o blant yn byw! Ac er i ddau o'r plant farw'n ifanc, roedd yr unarddeg arall, yn unol â safle gymdeithasol rheithor eglwysig yn y cyfnod hwnnw, yn swyddogion yn y fyddin, yn gyfreithwyr, yn rheithoriaid neu'n feddygon. A'r merched hefyd wedi priodi gwŷr o'r pedair proffesiwn. O fewn llai na dwy flynedd wedi marw William Roberts, gwerthwyd y cartref.

Mae'n ymddangos felly mai un o'r rheithoriaid 'absennol' oedd William Roberts, a gofalaeth y plwyf yng ngofal ciwrad.


Cofio Myfyriwr yn Ysgol Ganol Llanrug



Anfonwyd y lluniau gan Eddie Griffith, a fu'n fyfyrwr yn Ysgol Ganol Llanrug (fel yr oedd bryd hynny) yn ystod y 1950'au.



Tybed faint o ddisgyblion yr ysgol fedrwch chi eu hadnabod?



FFRAMIA

Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922

Gwasanaeth FFRAMIO LLUNIAU

DEWIS EANG O LLUNIAU YN YR ORIEL AC AR Y WEFAN
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy

www.fframia.com

BYSUS RHIWLAS

BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Triapiau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol-
Ffoniwch (01248) 361044



D. P. OWENS RHIWLAS

Dosbarthiadau WEA



Gyda diolch unwaith eto i Gwilym Morris Jones am anfon dau lun arall o ddosbarthiadau WEA Deiniolen a'r Waunfawr ar eu taith flynyddol ar 3ydd o Fehefin 1961. Mae'r llun cyntaf yn eu dangos yng Nghapel y Beirdd ble daeth Dr William George i'w



cyfarfod. Yn yr ail lun maent o flaen Bryn Awelon, Cricieth gyda'r Fonesig Megan Lloyd George. Cawn fwy o hanes dosbarthiadau WEA Llanrug yn y rhifyn nesaf.

Os oes gennych unrhyw ymholiad am agweddau o hanes lleol bro'r "Eco", neu unrhyw hanesyn diddorol am unrhyw gyfnod yn hanes y fro, yna cysylltwch a Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. LL55 4BA (Ffon: 01286 673515) e-bost: dafydd.wthomas@btinternet.com neu ar safle chwilota.wordpress.com


Teyrnged i fachgen o Lanberis

Ddiwedd mis Gorffennaf cynhaliwyd cyfarfod anrhegu yng Nghapel Ebeneser, Caernarfon ar achlysur ymddeoliad y Parch Gwynfor Williams o'r ofalaeth.

Ganwyd Gwynfor Williams yn Llanberis, a'r teulu'n aelodau ym Mhreswylfa. Roedd greddf pregethwr ynddo'n ifanc iawn, ac yn ugain oed cafodd ei benodi'n flaenor yn y capel. Bu'n gweithio fel adeiladydd a swyddog ambiwlans, ond yn pregethu'n rheolaidd ym Mhreswylfa a Gorphwysfa. Wedi penderfynu mynd i'r weinidogaeth, mynychodd Goleg Bala-Bangor a Choleg Prifysgol Bangor, a bu'n gweinidogaethu fel arweinydd Môn ac Arfon yn eglwysi Pentre Berw, Llanddaniel, Llanberis, Cwm y Glo a Glasinfryn cyn ei benodi'n weinidog Ebeneser, Caernarfon a'r cylch o wyth o eglwysi.

Roedd yn un o'r rhai fu'n gyfrifol am sefydlu'r gwasanaeth achub mynydd yn Llanberis, a bu'n arweinydd un o adrannau'r tim. Cofia fel y bu'n rhaid dringo'r Wyddfa bedair gwaith un noson yn rhinwedd y swydd honno. Bu'n ynad am saith mlynedd ar hugain ac yn aelod selog a brwdfrydig o Gyngor Llanberis. Cafodd ei benodi'n uwch swyddog gyda'r Gwasanaeth Ambiwylans, a bu'n gaplan iddo.

Bu'n gweinidogaethu am dros drigain mlynedd ac felly'n haeddu seibiant, ond o'i adnabod, fydd dim segurdod. Bydd yn parhau i fugeilio'n dawel, yn cydymdeimlo a chysuro, yn ymweld, yn cynnal ac yn cenhadu. Bugail o weinidog, cydymaith diffuant a diymhongar, a chyfaill.



BETHEL

Clwb Bro Bethel Daeth nifer dda ynghyd i gyfarfod cyntaf gweithgareddau'r Clwb am eleni, a braf oedd cael croesawu sawl aelod newydd. Y gŵr gwadd oedd y Parchedig Harri Parri a bu'n sgwrsio yn ddifyr iawn am dri lleoliad lle buodd yn gweinidogaethu, sef ardal Cerrig y drudion, Porthmadog a Chaernarfon. Yn ei sgwrs daeth yn amlwg ei fod wedi adnabod ei bobl a'r ardaloedd yn dda, gan gyflwyno nifer o hanesion gwahanol mewn ffordd ddifyr iawn. Diolchwyd iddo am sgwrs hwyliog ac ysgafn gan Richard Lloyd Jones. Y tro nesaf cynhelir y cyfarfod yn adeilad newydd Age Cymru, Y Cartref, Bontnewydd. Gofynnir i bawb gyrraedd erbyn 2.00 o'r gloch a hynny ar Hydref 3ydd. Rhowch wybod i un o'r swyddogion os ydych angen cludiant.

Eisteddfod y Pentref Eleni cynhelir yr Eisteddfod yn y Neuadd Goffa ar nos Sadwrn, Hydref 21. Ceir ymateb da gan yr oedranau iau, ac eleni mae'r Pwyllgor yn apelio am fwy o gefnogaeth i'r cystadlaethau agored. Y gyntaf yw gorffen limrig sy'n dechrau â'r geiriau: Roedd pawb yn y 'steddfod o'u co'. Yr ail gystadlaethau yw'r un am Dlws Llain yr Ardd. Yma gofynnir am unrhyw ffurf o ryddiaith: ysgrif, dyddiadur, stori fer, hunangofiant...

Gellir anfon y cynnyrch at Mrs. Llinos Evans, Caernarfon neu Manon Griffiths, 9 Stad Eryri erbyn 5 o'r gloch ar Hydref 13. Yr un yw'r apêl at rai sydd â

gallu i sgwennu a pherfformio Sgets. Mae'r gystadleuaeth hon â'i haml gyfeiriadau lleol yn boblogaidd mewn sawl 'steddfod. Ymlaen â'r chwysu.

Neuadd Goffa Fe gynhelir Cyfarfod Blynnyddol y Neuadd Goffa ar nos Iau, Hydref Sed am 7.30pm. Croeso cynnes i bawb. Os oes unrhyw un angen astudio y fantolen ariannol cyn y cyfarfod gellir cysylltu â'r Cyng. Sion Jones.

Trist cofnodi na chynhelir Clwb Ieuenctid yn y pentref dros fisoedd y gaeaf. Gyda niferoedd yr aelodau wedi disgyn daeth yn anodd denu Arweinydd. Gobeithir ail gychwyn y flwyddyn nesaf, ond mae nifer o glybiau cyffelyb wedi cau yn ddiweddar. Y mae'r Clwb Ffermwyr ifanc yn dal ei dir yn dda iawn ac yn dwyn sawl clod i'r ardal.

O'r Capeli Erbyn hyn mae drysau Capel Bethel (A) wedi cau. Dyma gapel ac iddo hanes clodwiw ac a fagodd gewri cenedlaethol. Ond braf cofnodi nad yw'r achos Annibynnol yn y pentref wedi dod i ben. O hyn ymlaen bydd yr aelodau yn cynnal eu hoedfaon am 10a.m ar fore Sul yng Nghapel Saron.

Yn dilyn etholiad diweddar yng Nghapel y Cysegr etholwyd Gareth Griffiths, Stad Eryri yn flaenor. Mae Gareth eisoes yn Drysorydd y Capel, ac hefyd yn Gynghorydd Cymuned. Diolch iddo am ei barodrwydd i roi ei ysgwydd dan y beichiau. Erbyn hyn hefyd mae'r gwaith o ail-lunio adwyon Capel y

Cysegr wedi ei gwblhau, ac mae pawb yn hapus iawn â gwaith destlus Sion Garth. Mae athrawon Ysgol Sul y Cysegr yn cynnig croeso i unrhyw blentyn hoffai ymuno â'r Ysgol Sul.

Mae aelodau y drefn Wesleaid wedi cael cyfle i gyfarfod y 'gweinidog newydd' mewn Cyfarfod Croeso yng Nghapel Shiloh, Tregarth.

Diolch Hoffai Nan Owen, Berwyn, ddiolch i'r llu a gyfrannodd ag anrhegion ar ddathlu ei phen-blwydd yn 80 yn ddiweddar. Diolch arbennig i Carys, Harri ac Eunice a Gwyn a Margaret. Ond y sws mwyaf wrth gwrs i'w wryon a'i gor-wryon.

Diolch hefyd i'r garfan selog sy'n mentro ffyrdd y pentref yn wythnosol i gasglu'r sbwriel a ollyngir yn ddiegwyddor gan eraill. A yw hi'n gofyn gormod i'r unigolion euog roddi y sbwriel yn y biniau a ddosbarthir hyd y pentref neu i gasglu y baw cŵn sy'n deillio o'u cerddeddiad dyddiol. Onid y math yma o berson yw'r sawl sydd mor barod i achwyn a chwyno am 'ddiffyg' gwasanaethau y cyngor Sir. Wedi'r cyfan ein cyfrifoldeb ni fel pentrefwyr yw amgylchedd ein bro.

Clwb Pêl-droed Bethel Erbyn hyn braf yw clywed sŵn cicio pêl yn ôl ar Faes Coed Bolyn. Diolch hefyd fod y gwaith draenio i'w weld yn gwrthsefyll sawl dilyw yn ddiweddar. Yn sicr roedd y tywydd yn gosod prawf

pendant ar y gwaith. Un o'r sialensau i'r clwb oedd gwella y cyfleusterau oddi ar y cae.

Erbyn hyn mae'n ymddangos fod cyfle wedi codi. Mae'r clwb wedi dod i gytundeb i bwrcasu cabanau addas draw yn Nolgellau. Mae'r cabanau o ddigon o faint i gael dwy stafell newid, toiledau, stafell dyfarnwr a stafell gyfarfod. Bydd tipyn o gost i drosglwyddo y cabanau i Fethel ac yna eu addasu. Gobeithir cael cyfraniad gan y Cyngor Cymuned i'r perwyl hwn, ond os hoffai unrhyw bentrefwr gyfrannu at yr achos gellir cysylltu â Cledwyn yn y Post, neu gyda'r Cyng. Sion Jones.

O'r Ysgol Wedi saith mlynedd o wasanaeth clodwiw bydd Ysgrifenyddes yr ysgol, Sasha Alcock, yn ffarwelio. O ddechrau mis Hydref ymlaen bydd Sasha yn dechrau swydd newydd yn Adran Weinyddol Ysgol Brynrefail. Dros ei chyfnod ym Methel bu Sasha yn llais cyswllt gwerthfawr iawn rhwng yr ysgol a rhieni. Bu hefyd yn gofnodwr trylwyr ac eglur o'r holl gyfarfodydd Llywodraethol - nid gwaith hawdd yn yr oes yma o bapur a'r llu polisiau. Dymunwn yn dda i Sasha yn ei swydd newydd, a diolch am ei chyfraniad yma ym Methel.

Cofion Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau i'r unigolion o'n cymuned sydd heb fod cystal eu hiechyd yn ddiweddar. Gobeithio iddynt elwa o gynhaliath teulu a meddygon dros y dyddiau blin.

RHOSTIO MOCHYN
Gyda sawl afal a stwffin mewn rholiau

AR GYFER POB ACHLYSUR

DEWCS MAE O'N FLASUS

PARTION • PRIODASAU • PEN BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU
CIG O FFERMYDD LLEOL
PARTION RHWNG 40-400!
Cysylltwch a
John Brynafon LLANRUG
www.ydyncig.co.uk

675190 • 673188
Symudol- 07798 718188

Noson o Gan

Annette Bryn Parri

Gyda **Côr Meibion Dyffryn Peris**

Gwesty Dolbadarn
Nos Wener
Hydref 20fed. Am 7.30
Mynediad £10.
yn cynnwys "Finger Buffet"
Tocynnau ar gael gan aelodau'r Côr neu yn Dolbadarn

★ Yr Elw Tuag at TY GOBAITH ★

Royal Victoria Hotel LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk

Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul
• PRIODASAU •

Ffôn- 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk

The ROYAL VICTORIA HOTEL
Snowdonia



Photograffydd o nôd

Mae Sian Davies yn brysur gwneud enw iddi ei hun fel un o ffotograffwyr gorau Cymru gyda phentwr hir o lythrennau'n dilyn ei henw i dystio i'w dawn. Yr olaf o'r clystyrau llythrennau hyn a dderbyniodd ydi – BPE2* (sef British Photographic Exhibitions 2) sydd yn golygu fod ei lluniau wedi cael eu derbyn mewn dros 50 salon ym Mhrydain.

Felly fe all Sian roi'r canlynol ar ôl ei henw- LRPS, CPAGB, AWPF, BPE2*. Mae lluniau Sian i'w gweld mewn salonau photograffig dros y byd i gyd, yn wir mae newydd anfon lluniau i Slofinia ac Awstralia yn ddiweddar ac yn paratoi llu o rai eraill ar gyfer sawl gwlad arall.



Yr Hydref wedi cyrraedd

LLANRUG

Eryl Roberts, Peris, 56 Glanffynnon (675384)



Diolchiadau

Hoffai Rhiannon Hughes, Clawdd Newydd, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am eu cefnogaeth a'u dymuniadau gorau tra roedd yn Ysbyty Whiston, Lerpwl, yn derbyn llawdriniaeth. Diolch yn fawr.

Priodas Dymuniadau gorau i Jonty Gordon a Gwenan Evans ar eu priodas yn ddiweddar. Maent wedi cartrefu yn Ty'n Ffynnon, Tan y Coed.

Trip i Lerpwl – Ffrindiau Ysgol Gynradd Trefnir Trip Siopa i Lerpwl dydd Sadwrn, Tachwedd 11eg. Bydd y gost yn £9 yr un. Enwau ac arian i Margaret, Swyddfa'r Ysgol os gwelwch yn dda. 01286 674905.

Marwolaeth Cydymdeimlwn yn llwyr â Jennifer Thmas, Glanffynnon a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli mam, nain a hen nain annwyl, sef Mrs Eirlys Williams, Deiniolen.

Babi

Newydd

Llongyfarchiadau mawr i Les a Carys Parry, ar ddod yn daid a nain unwaith eto. Ganwyd mab bach, Hari Sion i Alan a Lorna, Cae Corniog, Penisarwaun. Pob dymuniad da i chi fel teulu.

Capel y Rhos

Gyda'r Gweinidog, y Parch Marcus W. Robinson yn gweinyddu, bedyddiwyd Sara Ela, merch fach Mark a Caryl Williams, 46 Maes Beren, Bangor. Yr organyddes oedd Ms Ann Robyn Thomas. Pob bendith ar y teulu bach.

Oedfaon mis Hydref

1: Y Parch Marcus W. Robinson, y Gweinidog
8: Mr Dafydd Iwan

15: Y Gweinidog. Sul

Diolchgarwch

22: Y Barch Mererid Mair Williams

29: Mr Edward Morus Jones.

Plaid Cymru Enillwyr Clwb Cant Mis Medi: 1.

Carrie Owen, Llanrug; 2. Elin George, Brynrefail.

Merchedy Wawr Nos Fawrth, Medi 12fed, estynnwyd croeso cynnes i bawb, yn cynnwys tair aelod newydd, gan y Llywydd, Bethanne. Cychwynnwyd drwy ganu Cân y Mudiad gyda Megan yn cyfeilio. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan rai o'r aelodau. Cafwyd cyfle i longyfarch nifer o ieuenctid y fro oedd yn sefyll yr amrywiol arholiadau a'r rhai fu'n llwyddiannus yn Eisteddfod Genedlaethol Môn. Llongyfarchwyd Haf ar ddod yn Nain i Macsen Rhys a diolch i Pat am baratoi'r cardiau aelodaeth. Pris aelodaeth eleni yw £16.

Cydymdeimlwyd â Bethanne a'r teulu ar golli chwaer a chefnder i Bethanne. Derbyniwyd llythyrau o ddiolch gan Bwyllgor Eisteddfod Bentref Penisarwaun; Dafydd Orritt, am y rhodd tuag at ei daith i Batagonia ym mis Hydref a llythyr gan 'Tîm Falcon Force Cymru' am eu noddi i gystadlu yn y rowndiau terfynol ym Malaysia.

Dymunir pob bendith i Iwan, mab Pat a Berwyn, ar achlysur ei briodas. Cyflwynwyd rhodd arbennig i Phyllis a Mair ar eu hurddo i'w Wisg Las yn Eisteddfod Genedlaethol Môn. Pob bendith hefyd i Mari Deiniol, merch Heulwen a Deiniol, ar achlysur ei

dyweddiad â Gwyn.

Cynhelir Ffair Aeaf ar Dachwedd 27a'r 28ain. Dyma'r testunau:

Crefft: Calendr Adfent (unrhyw gyfrwng)

Aur, Thus a Myrr (unrhyw gyfrwng)

Robin Goch (unrhyw gyfrwng)

Coginio: Pot o jam – unrhyw ffrwyth a gellir addurno'r pot.

Caniateir 2 ymgais ymhob dosbarth gan bob aelod. Bydd ffurflenni cais ar gael yn y swyddfa ym mis Medi ac ar wefan Merched y Wawr..

Gwraig wadd y noson oedd Sonia Williams, yn wreiddiol o Benygroes ond bellach wedi ymgartrefu yn Nhregarth. Wedi gweithio yn Garej J.T. ym Mhenygroes ac yna yn Adran Hysbysebion y Caernarfon & Denbigh ac fel swyddog personol i'r Cyngor Cefn Gwlad, dilynodd gyrsiau proffesiynol yn Llundain i'w hyfforddi yn ymgynghorydd 'Colour me Beautiful' – Hyder Mewn Lliw'. Drwy edrych ar y cyfuniad o siâp corff, lliw

croen, gwallt a llygaid gall roi pecyn o liwiau a steil at ei gilydd yn arbennig i chi Mae'n barod i gynnig ymgynghoriad lliw neu steil gyda waled o 42 o liwiau – arweinlyfr siopa o hyn ymlaen! Mae'n cynnig cyngor ar golur – sut i'w roi'n gyflym a rhwydd ond mewn modd fydd yn para'n dda. Mae'n barod i gynnal gweithdai lliw a steil ar gyfer parti neu grŵp hefyd, ac mae talebau ar gael. Fel modelau'r noson mae syniad go dda gan Eryl, Bethanne, Carys a Nan sut liw sy'n gweddu iddynt hwy. Diolchodd Bethanne i Sonia am noson hynod o ddifyr.

Diolchir i Mair, Iris, Eirian a Carolyn am ofalu am y baned.


Hydref 10fed edrychir ymlaen at gwmni Siôn Emyr gyda 'Cyfrinachau Bwyd'.

Cafwyd Adroddiad manwl gan Pat, y Trysorydd. Atgoffir pawb am Fore Coffi Macmillan yn y Sefydliad Coffa o 10-12 o'r gloch ar Fedi 29ain. Gwerthfawrogi eich presenoldeb.

Ymddiheuriad

Derbyniwyd y llun hwn ar gyfer ei gynnwys yn rhifyn Medi, ond yn anffodus aeth ar gyfeiliorn.

Rachel Franklin Llanrug ddaeth yn 3ydd ar yr unawd chwythbrennau dan 19 oed yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Môn.



GWAITH
COFFAOL
LLANRUG

Ffôn Gwaith
(01286) 672898

Cartref
(01286) 871833
Symudol 07778 127394

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Dylan Griffith
Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol
TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

Gwaith Cerrig Beddi
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu Yr Holl Ardal

Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)



CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
Cyraeddwyd Mewn Steil- Mewn Cerbyd Rolls Royce
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDDI ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL

Dymuniadau gorau i John Closs, Llanberis ar ei ymadawiad i Awstralia, Awst 1964

I lygaid llawer cyfaill
Daw deigr yn ddi-os
Wrth ysgwyd llaw a rhoddi
Ffarwel i'r hen John Closs,
Ffarwelio mae â Chymru
A throed yr Wyddfa fawr,
Mae'n hwylio am Awstralia,
Gwyn fyd y llanc yn awr.

Fel cneifiwr yn ein cymoedd
Ni fedrwn gael ei well,
Ac os am weld ei debyg
Yn wir rhaid mynd ymhell.
Un cyflym, cywrain, medrus,
Ac ystwyth iawn ei law,
Ac am bob un â gwellaif
Fe gneifia wyth neu naw.

Bu o a'i gyfaill, Emrys,
Ac eraill dyna'r ffaith,
Drwy gyfrwng peiriant trydan
Yn ddygyn gyda'r gwaith,
Amdano ef a'i ffrindiau
Yn fynych clywir sôn
'Run graen ar ddafad fynydd
Â defaid mawr Sir Fôn.

Ond bellach morio allan
I'r Ynys bell bydd John,
Nid dyma y tro cyntaf
I'r llanc fynd dros y don -
Ymwelodd â Newzeland,
Rwy'n amau fod rhyw ferch
Yn denu John yn gyfrwys
Dros fôr at allor serch.

Parhau i gneifio'r defaid
Ymhell dros donnau'r lli
Yn nhewgch haf a'i hirddydd,
Osgoi ein gaeaf ni.
Bydd eira yn Llanberis
A John yng nghanol haf
Dan lesni y ffurfafen
Bydd yn torheulo'n braf.

Ymhell ar dir Awstralia
Boed iti bob mwynhad,
Ond paid ag aros yno,
Tyrd adre i'r Hen Wlad.
Tyrd yma'n ôl i gneifio
I Ynys Fôn a Llŷn,
I'r ffermydd yn Eryri,
Cei groeso ymhob un.

Wel bendith arnat gyfaill
Ar gychwyn mordaith hir,
Bydd llawer gwawr a machlud
Cyn daw y llong i dir.
Ac yn y fro fynyddig
Yn Arfon, heb ddim os,
Bydd llu o ffrindiau'n meddwl
A holi am John Closs

Mr T.H. Williams

Carreg Fawr, Waunfawr

Cyngerdd “Celtiaid ar y Cyd”

Ysgol Brynrefail Llanrug, 7.30pm Nos Sul 15 Hydref 2017

Bydd llu o dalentau Celtaidd i’w clywed mewn cyngerdd ar y cyd yn Ysgol Brynrefail Llanrug, nos Sul 15 Hydref, yn dechrau a 7.30pm.

Caiiff elw’r noson ei rannu rhwng Tîm Achub Mynydd Llanberis ac Adran Gerdd Ysgol Brynrefail, Llanrug.

Yr artistiaid fydd Côr Meibion Treverva o Gernyw, Band Ysgol Brynrefail Llanrug, offerynwyr unigol Adran Gerdd yr ysgol a Chôr Meibion Caernarfon.

Pris y tocynnau fydd £5 gyda mynediad am ddim i blant. Bydd y tocynnau ar werth ar y drws ar y noson, neu ymlaen llaw o’r ysgol uwchradd, y Tîm Achub neu Gôr Meibion Caernarfon.

Medd Cadeirydd Côr Meibion Caernarfon, Bryn Griffith, “Cawsom groeso mawr gan Gôr Meibion Treverva mewn Gŵyl Gorawl Ryngwladol yng Nghernyw fis Ebrill diwethaf. Felly mae’n fraint cael trefnu cyngerdd i’r côr talentog hwn yn ystod eu hymweliad â Gogledd Cymru.

“Mae’n gyfle hefyd i helpu achosion da ac, ar ôl deall eu bod yn aros yng Ngwesty’r Fictoria Llanberis, dewiswyd Tîm Achub Mynydd Llanberis ac Adran Gerdd Ysgol Brynrefail Llanrug.”

Arweinydd y noson fydd John Grisdale, Is Gadeirydd Tîm Achub Mynydd Llanberis. Meddai, “Wrth fwynhau’r noson Geltaidd hon byddwch hefyd yn cefnogi gwaith ein gwirfoddolwyr yn achub pobl mewn trafferthion ar fynyddoedd Eryri.”

Meddai Arwyn Williams, Pennaeth Ysgol Brynrefail, “Mae’n destun balchder inni fod yr ysgol wedi cael llawer o lwyddiannau eisteddfodol eto eleni. Bydd y cyngerdd yn gyfle i’n cerddorion

ifanc berfformio gerbron eu cynulleidfâ leol. Dewch yn llu i’w clywed, eu mwynhau a’u cefnogi!”

Ffurfiwyd Côr Meibion Treverva yn 1936 ym mhentref bach Treverva yng Nghernyw. Wedi cyfnod yn ymarfer yng ngapel bach y pentref maent bellach yn cwrdd mewn neuadd gymuned ar dir clwb rygbi tref Penryn, ger Falmouth ar arfordir de ddwyrain Cernyw.

Teithiodd y côr dramor i’r Unol Deleithiau, Gwlad Belg a’r Iseldiroedd a chawsant lwyddiant yn Eisteddfod Ryngwladol Llangollen, a Gŵyl y Glowyr, De Cymru yn ogystal â’u tomen eu hun yng Nghernyw. Maent wedi perfformio hefyd yn eglwysi cadeiriol St Pauls, Caerloyw a Truro ac yn Neuadd Albert.

Buont yn canu sawl lleoliad anarferol megis awryren Jymbo 37,000 troedfedd yn yr awyr, 700 troedfedd i lawr mwynglawdd tun yng Nghernyw , llong hwyliau grand yn Falmouth a llong bysgota oddi ar arfordir Cernyw.

Eu cyfarwyddwr cerdd yw Paul Triggs a hyfforddwyd fel tenor clasurol ac a fu’n wedi arwain sawl côr yng Nghernyw ers dros 20 mlynedd .

Gwefannau:

Treverva Male Voice Choir www.treervamalevoicechoir.btck.co.uk

Ysgol Brynrefail Llanrug www.ysgolbrynrefail.org

Côr Meibion Caernarfon www.cormeibioncaernarfon.org

Tîm Achub Mynydd Llanberis www.llanberismountainrescue.co.uk



Ysgol Brynrefail



Croeso mawr i ddisgyblion blwyddyn 7!

Bellach mae 135 o ddisgyblion newydd blwyddyn 7 wedi setlo'n dda i fywyd a threfn Ysgol Brynrefail. Mae'r disgyblion wedi eu rhannu i bump dosbarth: 7S, 7E, 7I, 7O a 7N. O dipyn i beth maent wedi dod i ddeall eu ffordd o gwmpas yr ysgol a bellach yn gwybod yn iawn ble mae'r gwahanol wersi a gweithgareddau yn cael eu cynnal.

Rydym ninnau fel staff yr ysgol a gweddill y disgyblion wedi dod i'w hadnabod hefyd. Croeso i Ysgol Brynrefail blwyddyn 7!

Noson Wobrwy Disgyblion blwyddyn 11 ac 13

Ar nos Iau, Medi 14eg cynhaliwyd noson hwyliog a llwyddiannus i wobrwyo ein disgyblion a safodd arholiadau TGAU a Lefel A yr haf diwethaf. Yr oedd ein canlyniadau TGAU eleni yn ardderchog a blwyddyn 11 wedi gwneud yn arbennig o dda – llongyfarchiadau mawr chi gyd! Yn yr un modd llwyddodd holl ddisgyblion blwyddyn 13 i ennill graddau Lefel A a sicrhodd eu bod yn cael mynychu prifysgol o'u dewis nhw neu'n gallu cychwyn ar y llwybr gyrfa roedden nhw'n ei ddymuno.

Cafodd pob adran yn yr ysgol roi gwobr i'r disgyblion a wnaeth y cynnydd gorau yn eu pwnc ym mlwyddyn 11 ac 13 yn ogystal â gwobr arall i'r disgyblion yr oedd safon eu gwaith yn y pwnc yn arbennig o uchel.

Gwobrwywyd hefyd y disgyblion hynny yr oedd pob un o'u canlyniadau TGAU yn radd A* neu A sef; Catrin Donnelly, Cai Edwards, Catrin Smith, Cadi Panton ac Aled Pritchard.

Diwrnod Shakespeare i flwyddyn 7

Ar ddydd Gwener, Medi'r 15fed cafodd holl ddisgyblion blwyddyn 7 ddiwrnod o weithgareddau llawn hwyl i ddysgu am ddramau Shakespeare. Bwriad y diwrnod oedd canfod pa ddisgyblion fyddai'n addas i gymryd rhan mewn cynhyrchiad o ran o un o ddramau Shakespeare fydd yn cael ei lwyfanu yn Galeri yng Nghaernarfon yng nghanol Tachwedd.

Mae'r ysgol wedi trefnu ers cyn gwyliau'r haf i fod yn rhan o Wyl Shakespeare mewn Ysgolion sy'n rhoi cyfleoedd proffesiynol i ddisgyblion gymryd rhan mewn cynhyrchiad o ran o un o ddramau Shakespeare. Bydd yr adran Saesneg yn mynd ymlaen yn awr i ddechrau ymarfer ar gyfer y perfformiad yn Galeri. Bydd y cynhyrchiad yn gyfle gwych i ddisgyblion blwyddyn 7 arddangos eu doniau actio. Dowch draw i Galeri ar Dachwedd 16eg am 7 o'r gloch i'w



Llun (o'r chwith i'r dde) :

Rhianwen Williams (dirprwy), Tomos Morgan (prif fachgen), Nia George, Prys Hughes (dirprwy), Beca Ilwyd (prif eneth), Math Roberts

Cyn-brif ddisgyblion yr ysgol yn trosglwyddo'r awennau i'r prif ddisgyblion newydd

Yn ystod wythnos gynta'r tymor newydd daeth dau gyn-brif-ddisgyl yr ysgol draw er mwyn trosglwyddo'r awennau i'r swyddogion newydd. Cafwyd cyfarfod buddiol ynghylch cyfrifoldebau a dyletswyddau'r rolau, a thrafodwyd blaenoriaethau gweithredu Cyngor yr Ysgol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Byd ein cyn-brif eneth, Nia George, yn dechrau ei chwr Hanes a Newyddiaduraeth ym Mrifysgol Bangor ddiwedd y mis, a'r cyn-brif fachgen, Math Roberts, yn gadael am Goleg Lincoln, Rhydychen ymhen rhai wythnosau i astudio Cerddoriaeth. Dymuniadau gorau i'r ddau ohonyn nhw ac i'r pedwar ym mwyddyn 13 wrth ymgymryd â'r sialensau newydd hyn yn eu bywydau.



Tîm Falcon Force ar eu ffordd i Malaysia

Mae chwech o ferched blwyddyn 11 sef Elin, Beca, Tesni, Anna, Jess ac Elinor wedi cychwyn ar eu siwrne anturus i Malaysia ers Medi 21ain. Daeth disgyblion blwyddyn 11 i gyd at ei gilydd i ddymuno'n dda i'r tîm ar fore ola'r merched yn yr ysgol cyn cychwyn ar y daith i gystadlu yn Malaysia a chynrychioli Cymru yn y gystadleuaeth F1. Rydym yn

dymuno'n dda i'r genod a'u hathro Mr Paul Griffiths ac yn hynod falch eu bod yn rhoi Ysgol Brynrefail a Chymru ar y map wrth iddyn nhw gystadlu yn erbyn dros bedwar deg o wledydd eraill. Hwyl fawr a phob lwc i chi gan holl staff a



Eglwys Sant Helen Diolchgarwch am y Cynhaeaf

**Dydd Sadwrn Hydref
14eg:** 9-10yb Addurno'r
Eglwys

Dydd Sul Hydref 15fed:
Cymun Bendigaid Teuluol
Gyda'r Parch Ganon Brian
Castle a'r Barch Dr Carol
Roberts, fe gasglir bwyd yn
ystod y gwasanaeth tuag at y
banc bwyd lleol.

Dydd Llun Hydref 16eg:
6yh Gwasanaeth Gosber y
Diolchgarwch gyda'r Barch
Carol Roberts a'r Pregethwr
gwadd Yr Hybarch Richard
Paul Davies Archddiacon
Bangor.

Swper y Cynhaeaf

Cynhelir swper y Cynhaeaf
yn neuadd yr Eglwys i ddilyn
y gwasanaeth am 7yh, mae
tocynnau yn £5 ac ar gael gan
swyddogion yr Eglwys, Fe fydd
anerchiad byr ar ôl y bwyd gan
Mr Dafydd Roberts Llanberis
ar Chwarel Dinorwig ddoe ac
heddiw.

Estynnir croeso cynnes i bawb
i'r gwasanaethau a'r swper
diolchgarwch.

Y Fynwent

Carai swyddogion yr Eglwys
ddiolch i bawb am eu rhoddion
hael tuag at y gwaith a gadw
gwair y fynwent yn dclaus,
bydd un toriad eto cyn y
gaeaf. Derbynnir rhoddion
yn ddiolchgar drwy law y
trysorydd Mr Selwyn Griffith

7 Tal y Bont, Llanrug, LL55
4BT.

Gyrfaon Chwist.

Cynhelir gyrfa chwist yn
neuadd yr Eglwys pob nos
Fawrth am 7yh (nodir newid
yn yr amser)

Bingo Arian

Cynhelir bingo arian yn
neuadd yr Eglwys nos Fercher,
Hydref 4ydd a 18fed, am 7yh
bydd elw y bingo yn cael ei
rannu at achosion da yr ardal.

Diolch Dymuna Alan a
Lorna, Cae Corniog, ddiolch
i'w teulu a ffrindiau am yr
anrhegion a'r cardiau a gawsant
ar enedigaeth eu mab Hari
Sion ar Gorffennaf 24.

Ysgol Gymuned Penisarwaen

Croeso Rydym yn falch
iawn o groesawu Mrs Nia Haf
Jones fel Athrawes y Cyfnod
Sylfaen a Miss Tania Jones
fel Cymhorthydd yn yr un
dosbarth. Mae'r ddwy wedi
setlo i lawr yn sydyn iawn yn
ein plith.

Croesawyd 5 o blant bach
newydd i'r dosbarth meithrin
a 2 i'r dosbarth Derbyn. Mae
Myfi, Elis, Oliver, Efan, Leo,
Iolo a Tristan wedi setlo'i lawr
yn dda iawn yn ein plith.

Pob Lwc! Dyna ddymunwn
i'r plant sydd wedi dechrau ar
eu cyfnod yn Ysgol Brynrefail.

Ffarwelio ac aelod o'r staff
Ar ddiwedd y tymor diwethaf
derbyniodd Miss Lowri
Williams swydd mewn ysgol

arall, roedd wedi bod yma yn
dysgu ers 6 mlynedd. Hoffwn
ddymuno'r gorau i Miss
Williams yn ei swydd newydd
gan ddiolch iddi am ei gwaith
yn ystod ei chyfnod yma ym
Mhenisarwaen. Croesawn Mr
Wyn Griffith fel athro llanw
CA2 hyd at hanner tymor.

Gwersi Nofio Mae 30 o blant
dosbarthiadau 2, 3, 4, 5 a 6
wedi dechrau ar gyfres o wersi
nofio sydd yn cael eu cynnal
yn wythnosol ar fore dydd Iau,
mae pawb yn mwynhau.

Gwersi Offerynnol Mae 4
o blant yn derbyn gwersi corn
gyda Miss Lois Eifion Jones
ac 8 yn derbyn gwersi Piano,
Ffliwt a Gitâr gan Mrs Yvonne
Clark yn yr ysgol bob wythnos.

Ymweliadau ar Ysgol

Sgiliau pêl Galwodd Lowri
sydd yn gweithio gyda'r Urdd
yn yr ysgol fore Gwener Medi
8fed i gynnal sesiwn flasu i
Bl 3 a 4. Roedd pawb wedi
mwynhau'r profiad. Bydd
Lowri yn cynnal sesiwn i
blant Bl 1 a 2 ar ôl ysgol ar
bnawn dydd Gwener am saith
wythnos o Fedi 15fed. Bydd
cost o £1 am bob sesiwn.
Dewch i ymuno yn yr hwyl.

Croesawyd Sara a Karen
(Burman Martial Arts) yma
fore Gwener, Medi 22ain, i
gynnal sesiwn Karate i CA2.
Diolch iddynt am roi ei hamser
i alw yn yr ysgol yn achlysurol.

**Dathlu Penblwydd yr
Ysgol yn 25** Gobeithir trefnu
pnawn agored yn yr ysgol

ddydd Sadwrn, Hydref 28ain,
rhwng 1 a 4 o'r gloch. Bydd
cyfle i bawb gael sgwrs dros
de prynhawn ac edrych o
gwmpas yr ysgol wedi iddi gael
newydd wedd dros wyliau'r
haf. Gobeithiwn allu trefnu
arddangosfa o wahanol luniau
o'r ysgol dros y blynyddoedd
i bawb gael edrych arnynt,
yn ogystal â gwrandao ar blant
presennol yr ysgol yn canu
ambell i gân i ddiddori pawb.
Byddwn yn ddiolchgar pe
bai unrhyw un sydd â lluniau
neu atgofion yn ymwneud â'r
ysgol yn cysylltu ymlaen llaw
er mwyn i ni gael amrywiaeth
dda o luniau diddorol yn ein
harddangosfa. Gobeithiwn
allu denu cyn-ddisgyblion yn
ogystal â disgyblion presennol,
rhieni ac aelodau'r Gymdeithas
leol i'r dathliad arbennig hwn.
Croeso cynnes i BAWB!
Dewch yn llu!

Cronfa Pensiynwyr Penisarwaen

Pêl Bonws Loteri Enillydd
mis Awst oedd Mrs Helen
Owen, 7 Bryn Hyfryd efo rhif
58. Llongyfarchiadau!

Llongyfarchiadau i Steven a
Susan, 18 Bryn Tirion ar ddod
yn Nain a Taid am y tro cyntaf,
ac i Ann a Len Parry, Rhoswian,
ar ddod yn hen Nain a Taid.
Ganwyd merch fach i Ceri
a'i phartner Robin yn mis
Gorffennaf ac mae pawb wedi
gwirioni hefo Alaw Haf.

Diolchiadau Dymuna Bryn,
Ann, Irfon a'u teuluoedd

DODREFN A LLORIAU
PERKINS
FURNITURE & FLOORING
••• 01286 673535 •••
www.perkinsfurniture.co.uk
16 Stryd Porth Mawr , Caernarfon , Gwynedd . LL55 1AG

ARVONIA

- ✓Gwyliau cerbyd moethus Prydeinig a Chyfandirol.
- ✓Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- ✓Adran teithiau grŵp.
- ✓Tocynnau rhodd.
- ✓I weld ein holl deithiau a chynigion arbennig ewch i'n gwefan.

01286-675175 www.arvonias.co.uk

Parhad PENISARWAUN



ddatgan eu diolch am bob ymweliad, galwad ffôn a cherdyn o gydymdeimlad a dderbyniwyd ar golli eu mam, Mrs Ann Daniel Hughes, gynt o Tŷ Newydd Cae Hywel, yn ddiweddar.

Diolchwn i'r Barchedig Ddr Carol Roberts am ei gwasanaeth yn yr Eglwys ac yn yr Amlogfa. Hefyd, diolch i Mr William Williams, yr Organyddynyddauwasanaeth. Diolch i Feddygfa Llanberis a phawb yng Nghartref Nyrsio Penisarwaun am eu gofal o Mam dros y blynyddoedd diwethaf.

Diolchi Gwmni Meinir a Dylan Griffith, trefnwyr Angladdau Tros-Y-Waen, Penisarwaun, am eu cymorth a'u gwasanaeth trylwyr a pharchus. Diolchwn hefyd am y rhoddion hael tuag at Gronfa Mynwent Eglwys Santes Helen.

Ysgol Sul Bosra Balch oeddem o groesawu'r aelodau ffyddlon yn ôl i'r Ysgol Sul. Carai Anti Ann ac Anti Liz ddiolch o galon i Math am ei lythyr o ddiolch am gael y pleser o ddod i'r Ysgol Sul yn gyson. Y mae'r ddwy yn trysori'r llechen, 'Ffydd, Gobaith, Cariad' a gawsant ganddo – rhywbeth i'w drysori am byth. Gobeithio fod pawb arall yn cael yr un pleser â Math. Mae croeso cynnes, wrth gwrs, i aelodau newydd bob bore Sul am 10.00 yng Nghapel Bosra.

Llongyfarchiadau Dymunir anfon ein dymuniadau gorau

i bawb fu'n sefyll yr amrywiol arholiadau a phob dymuniad da i'r dyfodol.

Pwyllgor Neuadd Gymuned Nos Lun, Medi 18fed, tynnwyd Clwb Cant Hydref a'r enillwyr yw: Gwen Griffith, Tai Arthur a Nia Oliver, Gors, Brynrefail.

Cynhelir Marathon Eryri fore Sadwrn, Hydref 28ain. Erfynnir am wirfoddolwyr i helpu i rannu dŵr i'r rhedwyr. Rhaid bod ym Mhen Pas erbyn 10.00. Cysylltwch ag Ann Ifans ar 01286 8724087 os gwelwch yn dda erbyn y Pwyllgor nesaf, sef nos Lun, Hydref 16 am 7 o'r gloch. Rydym fel aelodau'r Pwyllgor yn cydymdeimlo'n ddwys â theulu Careb, 8 Bryn Eglwys ar golli un mor boblogaidd ag Avril.

Pen-blwydd Arian Ar Hydref 28ain bydd yr ysgol Gynradd yn dathlu ei phen-blwydd yn 25ain oed. Nos Iau, Hydref 26ain, bydd cyfle i bawb, yn gyn-ddisgyblion, cyn-benaethiaid, staff a staff ategol ac unrhyw un sydd â diddordeb ymuno â ni i weld yr arddangosfeydd o gwmpas yr ysgol ac yna i fwynhau paned a theisen ac eitemau gan blant yr ysgol.

Bnawn Sadwrn, Hydref 28ain, o 1.00 tan 4.00 o'r gloch bydd drysau'r Ysgol yn agored i bawb gael cymdeithasu a hel atgofion am y 25 mlynedd a aeth heibio. Bydd Cyfeillion yr Ysgol yno i'ch croesawu ynghyd â staff yr Ysgol ac aelodau Pwyllgor

Rheoli'r Neuadd Gymuned. Y mae'r Ysgol ar ei newydd wedd ac yn werth i'w gweld Felly dowch yn llw.

Webb Ivory Wedi blynyddoedd o gefnogi'r Catalog Webb Ivory adeg y Nadolig derbyniwyd llythyr yn diolch i'r Pwyllgor am gefnogaeth ond eu bod bellach yn dirwyn y Catalog i ben. Dymunir diolch i Phyllis am ei gwaith caled yn ymwneud â'r Catalog a diolchir i bawb a gefnogodd y weithgaredd yma i godi arian tuag at rheoli'r Neuadd Gymuned.

Eisteddfod Bentref 2018 Nos Lun, Medi 18fed cynhaliwyd Pwyllgorigychwyn trefniadau Eisteddfod 2018. Cytunwyd i Eisteddfod 2017 fod yn hynod lwyddiannus gyda chystadlu ymhob cystadleuaeth. Etholwyd yr un swyddogion a chafwyd adroddiad gan y Trysorydd. Wedi gwobrau ariannol haeddiannol 2017 bydd angen cynnal nifer o weithgareddau i godi arian erbyn Eisteddfod 2018. Byddwn yn hynod falch o roddion ariannol a chefnogaeth i'r gweithgareddau gan fod yr eisteddfod yn hynod fendithiol i ieuencid y pentref i fagu hyder a chael yr hwyl o gystadlu. Cynhelir Eisteddfod 2018 nos Fercher, Gorffennaf 11 – dyddiad i'w nodi yn y Calendr.

Dyweddio Llongyfarchiadau i Mari Deiniol a Gwyn ar eu dyweddian yn ddiweddar. Pob

bendith i'r ddau ohonoch.

Pen-blwydd Arbennig a hapus i Heulwen, 12 Bryn Eglwys, ar ei phen-blwydd arbennig ar Fedi 28ain a phen-blwydd hapus i Arwel, Cae Eboni, ar gyrraedd carreg filltir go arbennig ar Fedi 29ain. Dymunir dathliadau hwyliog i'r ddau ohonoch.

'Am annwyl fu – cu y cof'

Anfonir ein cydymdeimlad dyfnaf at deulu Careb, 8 Bryn Eglwys, o golli gwraig ffyddlon a chariadus i Geraint, mam amhrisiadwy Dylan, Sioned, Rhian a Ceirion, mam yng nghyfraith a nain hynod arbennig i'r wyrion a'r wyresau a chwaer annwyl i Beryl. Colled enfawr i'w theulu a'i ffrindiau a'i chymdogion. Â'r capel dan ei sang, cynhaliwyd gwasanaeth cyhoeddus yng Nghapel Cysegr Bethel, bnawn Gwener, Medi 8fed – hyn oll yn tystio i boblogrwydd Avril – 'brenhines ei haelwyd'.

Diolch Dymuna aelodau 'Clwb Clychau'r Grug' ddiolch o galon i Carys ac Arwel, Cae Eboni, am y croeso twymgalon ar eu haelwyd nos Lun, Medi 12fed. Dyma gychwyn arbennig i'r cymdeithasu. Byddwn yn cyfarfod yng Ngwesty Fictoria, Llanberis, nos Wener, Rhagfyr 1af am 7.00, i ddathlu'r Nadolig gyda'n gilydd. Edrychir ymlaen at weld ein gilydd eto a chael hwyl o hel atgofion melyn.



Gwesty Dolbadarn
Llanberis

Ffôn-(01286)-870277

Premier

Y Stofa Premier Llanrug

Sgwar Llanrug
01286-673108

Bwydydd, Diodydd, Papurau Newydd,
Cardiau Cyfarch, Swyddfa Bost

Llun-Sadwrn 6.30am-9pm Sul 8am - 9pm

Côr Caernarfon yn dathlu penblwydd



Roedd Galeri Caernarfon yn llawn dop ar gyfer Cyngerdd Dathlu 50 mlwyddiant Côr Meibion Caernarfon. Yn ymuno â'r côr yr oedd: John Eifion (tenor) Meinir Roberts (soprano) Piantel, a Trio.

Hefyd yn bresennol roedd nifer o gyn arweidddion a chyfeilyddion y côr, yn cynnwys John Hughes yr arweinydd cyntaf un sydd yn dal mewn iechyd da a Mair Foulkes o'r Bethel (Evans erbyn hyn), y cyfeilydd cyntaf. Dim ond 14 oed oedd hi pan dderchreuodd.

Rhannwyd llyfryn dathlu lliwgar i bawb oedd yn bresennol yn adrodd hanes y côr ers ei sefydlu yn Ffatri Ferodo yn Nhachwedd 1967.

Meddai un ddynes 91 oed am y cyngerdd, "Dyma'r gorau y bum i ynddo erioed". Dyna beth yw canmoliaeth.

Enwau o Ddiddordeb yn Ardaloedd Waunfawr a Betws Garmon

Gafl y Widdan (Aflwiddan)

Yn ôl yr hanes, roedd gwrach wedi casglu llond ei ffedog o ger-rig o wahanol faintioli yng Nghwmdwythwch. Ei bwriad oedd gwneud pont dros y Fenai o Arfon i Fôn ond, wrth ddychwelyd dros ochr ogleddol Moel Eilio, llithrodd ei throed gan achosi i linydd ei barclod dorri a disgynnodd y cerrig yn bentwr ar y mynydd. Yn y man lle llithrodd ei throed rhed dwy ffrydlif o ddŵr yn ôl ei sodlau. Er i'r wrach fethu yn ei hamcan, llwyddodd ffermwr lleol i wneud cloddiau defnyddiol allan o'r garnedd. Gafl y Widdan y gelwir y lle hyd heddiw.

Creigiau Padell y Brain

Ger Creigiau Padell y Brain ar fynydd Cefndu y gwelwyd ar ddiwrnod braf y tylwyth teg yn chwarae ac yn dawnsio yn yr heulwen. Tybed oes a wnelo'r brain a gyrchai yno rywbeth â'r tradodiad yma.

Pig y Dryw

Tŷ eithriadol o fychan yn y Waunfawr oedd Pig y Dryw. Dywedir bod raid i'r sawl a âi i mewn iddo orfod dod allan wysg ei gefn, gan nad oedd digon o le i droi yn ôl ynddo.

Bwthyn Aur

Bwthyn bychan yn y Waunfawr lle byddai'r chwarelwyr yn ymgynnull ar ddiwedd yr wythnos i gael eu cyflogau. Enw arall arno oedd Tŷ'n Talu.

Carreg y Marchog

Telpyn o garreg yn Llwyn Bedw, Waunfawr yw Carreg-y-Marchog. Defnyddiwyd y garreg gan y marchogion cynnar i sefyll arni i esgyn y ceffylau.

Llain y Gwystl

Rhimyn cul o dir ar Afon Gwyrfai ger Nant-y-Betws oedd Llain y Gwystl. Ar y darn tir bach yma y byddai pobl yn cyfarfod yn yr hen amser i wneud addewidion a chytundebau. Byddai pob addewid a chytundeb ar Lain y Gwystl yn gwarantu y byddai pob bargaen yn cael ei chadw. Enw arall ar yr ynys (a chwalwyd rai blynyddoedd yn ôl wrth sythu cwrs yr afon) oedd Tir Neb. Mae ychydig o hanes Llain y Gwystl ar gael yng ngholofn Chwilota, rhifyn 427 mis Rhagfyr 2014 o Eco'r Wyddfa.

Llain y Duntur

Rhimyn arall o dir ar Afon Gwyrfai a chwalwyd gan darw dur.

Cae Pitar

Hen drempyn oedd Pitar Eli fyddai'n galw o bryd i'w gilydd i gardota wrth ddrws tŷ fferm fy nhaid a nain ym Metws Garmon. Er mwyn ennill ei damaid byddai taid yn rhoi ambell jobyn iddo fel palu clwt tatws yn y cae. Wedi'r orchwyl câi Pitar lond ei biser tolciog o laeth enwyn ynghyd â thatws drwy'i crwyn a llond bag papur brown o fara ceirch yn ei boced i'w gynnal ar hyd y ffordd. Llechfa'r Olaf (Llecharola) Betws Garmon

Yn dilyn brwydr waedlyd ar faes y gad, yr unig un i oroesi o'r ochr a drechwyd oedd bachgen ifanc yn ei arddegau. Achubwyd bywyd y bachgen gan gydymaith drwy ei wthio i lechu dan garreg faen yn y cae. Gyda'r frwydr drosodd a'r gelyn wedi cilio ymaith, mentrodd y bachgen o'i guddfan gan weld ei gyd-ymhladdwyr yn gelain ar y llawr. Ef, yn ôl yr hanes, oedd yr olaf i ddianc oddi yno yn fyw. Llechfa'r Olaf, neu Llecharola ar lafar, y galwyd y lle byth wedyn.

Gallt Gorffwys

Yn yr amser cyn dyfodiad trafnidiaeth modern a phrysur fel y mae heddiw, roedd yn arferiad i bobl pentrefi fel Waunfawr a Betws Garmon gerdded y ffordd adref o Gaernarfon. Golygai hyn ddringo gelltydd hir a serth hynod flinedig. Un o'r gelltydd yma oedd 'Allt Gorffwys' sy'n ymestyn oddeutu dri chwarter milltir

o bentref Caeathro hyd at Ben-y-Cefn, hanner ffordd i'r Waunfawr. Erbyn cyrraedd pen yr allt byddai llawer wedi llwyr flino ac allan o wynt ac er mwyn cael seibiant a'u gwynt atynt, byddent yn eistedd neu orwedd am ychydig amser wrth y clawdd i gael 'gorffwys' cyn ailgychwyn ar y ffordd am adref.

Alltcoedmawr

Gallt serth sy'n ymestyn o'r Waunfawr heibio Mynydd y Grug at y Lôn Wen a phentref Rhosgadfan.

Gallt Pwll Budr

Gallt fechan ger safle gwaith carthffosiaeth Waunfawr yw'r allt fach yma. Dywedir mai ar Allt Pwll Budr y gwelid, ar noson niwlog dywyll, ysbryd y Dr Sion Jones a fu farw tua 1820. Roedd yn nodedig am lawer o bethau, fel meddyg llysieuol ac arbenigwr mewn asio esgyrn y rhai a anafwyd yn y chwareli. Roedd hefyd yn heliwr a physgotwr o fri. Roedd yn yr ardal ryw gred yn ei ddawn i godi cythreuliaid.

Bwth-y-Bardd

Cartref Dafydd Ddu Eryri am gyfnod ac, yn ddiweddarach, Owen Williams (Owain Gwyrfai), yr hwn a newidiodd yr enw i Fron Heulog. Enw cynnar Bwth-y-Bardd ger Lôn Pwll Budr oedd Pen Domen.

Cil Haul

Saif Cil Haul nid nepell o ffordd Alltcoedmawr ar gyrion y Waunfawr. Cartref yn ystod ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg i ŵr o'r enw Griffith Ellis, oedd yn nodedig yn ei ddydd am ddofi lloerigion. Er nad oedd yn feddyg trwyddedig, bu lliaws o gleifion o bob oedran dan ei ofal. Roedd ganddo hefyd y ddawn i drin a gwella anifeiliaid. Credai llawer o drigolion y Waun fod greddf y dewin ynddo.

Buarth yr Haidd

Buarth yr Haidd, sef acer o dir ar fferm Plas Isa Betws Garmon. Yn ogystal â'r haidd a dyfwyd yno roedd hefyd gefail fechan ym mhen y cae ar gyfer gwasanaethu yr hen Chwarel Goch ar lethr y mynydd

Y Cwyrty, Nant-y-Betws

Cartref hen gymeriad o'r enw 'Wil Jôs hen lanc' oedd y Cwyrty (adfail erbyn hyn). Dywedir i bladres o hen drampen alw yn y Cwyrty i geisio lloches ond, o weld yr 'hen lanc' yn cyrraedd am y gwn, gwadnodd am ei hoedl am giât y lôn. Cymydog ddywedodd iddo weld y drampen yn ei heglu i lawr y ffordd 'a bochau'i thin fel pot pupur!' wedi'r haels o'r gatren ei tharo.

Rhesdai Gwyrfai (Tai Cornish)

Rhes o ddwsin o dai allan yn y wlad rhwng y Waunfawr a Betws Garmon yw Rhesdai Gwyrfai (Gwyrfai Teras). Dywedir yn ystod dirwasgiad cynnar y ganrif ddiwethaf i ddynion o Gernyw ddod i'r ardal i weithio yn y chwareli bychain o gwmpas. Ymgartrefodd rhai o'r dynion a'u teuluoedd yn Rhesdai Gwyrfai ac fel 'Tai Cornish' y gelwid hwy am beth amser wedi hynny. Dros y cae â'r teras saif Plas Gwyrfai, sef cartref rheolwr Chwarel Hafod y Wern yr adeg honno.

Enwau eraill yn yr ardal:

Tyddyn Syr Huw; Tyddyn Heulun (Treflan Isaf); Tros-y-Gol (Trosgol); Buarth yr Wyn (ar fferm Tros-y-Gol); Cerrig Llwydion; Cae Ifan Gymro; Cae Mab Adda Goch (Gadda); Cae Mab Ynry (Cabynir); Cae Berth Ddu (Gobarthddu); Cae Popty (o bob tŷ); Cae Goronwy; Cae Crawia; Ben Das Eithin; Grasbil; Ty'n Drwfwl; Ffrwd Win (Rose Mount heddiw); Weirglodd Bedd y Mab; Weirglodd Goch; Weirglodd Dywyll; Weirglodd Fain

Gwilym Morris Jones

CYNGOR CYMUNED LLANRUG A CHWMYGLO

Mae Cyngor Cymuned Llanrug a Chwm y Glo yn chwilio am bersonau neu gwmnïau gyda profiad a'r cymhwyster priodol, fyddai a diddordeb cael eu ystyried i'w cynnwys ar restr cydnabyddedig o gontractwyr i wneud gwaith i'r Cyngor.

Mae hyn yn cynnwys (ond nid yn gyfyngedig) i lanhau cyffredinol, gwaith cynnal a chadw, peintio, gwaith torri coed a gwaith cerrig.

Am ragor o fanylion, os gwelwch yn dda a wnewch gysylltu a'r clerc drwy e-bost ar clerc@llanrug.cymru neu drwy ffonio 07769 112875.

Marchnad Ogwen

Neuadd Ogwen, Bethesda

Ar yr ail Sadwrn yn fisol 9.30 - 1.00

Marchnad Nadolig - Tachwedd 22ain 5 - 8yh



Bwydydd • Crefftau • Lleol
www.marchnadogwen.co.uk



DALIER SYLW – BORE FORY

Bore Coffi Macmillan Cynhelir bore coffi i godi arian at Elusen Canser Macmillan yn y Ganolfan fore Sadwrn, Medi 30, rhwng 10.30 a 12.30. Bydd gweithgareddau i'r plant lleiaf, tombola a raffl. Mynediad am ddim ond croesewir cyfraniad at yr achos. Croeso cynnes iawn i bawb.

Merched y Wawr Roedd Cangen Waunfawr yn agor eu rhaglen eleni nos Iau, Medi 28, yn y Ganolfan am 7.30, gyda chyfle i ymaelodi a mwynhau noson gymdeithasol anffurfiol efo lluniaeth wedi ei baratoi gan y Pwyllgor.

Nos Iau, Hydref 26, hefyd yn y Ganolfan am 7.30 byddwn yn croesawu Ms Eirian Pritchard o Rosbodrual a fydd yn rhoi arddangosiad o'i gwaith celf.

Croeso cynnes i aelodau hen a newydd.

Tynnu Coes Nos Iau ar y rhaglen 'Wyt ti'n Gêm?' ar S4C cyflwynodd Nigel Owen Meilir Gwynedd, Nant, fel un o gerddorion prysur ac amryddawn Cymru, a chafwyd hanes ei yrfa o ddechrau'r Beganifs i'r presennol. Yn ystod ei brysurdeb gyda'r Gerddorfa Iwcalili daeth 'swyddog' o'r cyngor at Meilir i drafod y defnydd a wnaeth o'r deg mil o bunnoedd a dderbyniodd ganddynt. Daeth dipyn o benbleth a braw i wyneb Meilir ond sylweddolodd mai tynnu coes oedd y 'swyddog'. Meddylodd 'Sut gaf i dalu'n ôl i Nigel Owen am y weithred yma?'

Mae dipyn o afael mewn deg mil o bunnau yndoes, Meilir! Fysat ti byth yn anghofio cael y ffasiwn swm.

Dathlu Pen-blwydd Arbennig Yn ystod mis Medi bu Ben Jones, Glyn Garth; Ioan Jones, Dwyfor a Tomos Parry, Cefn y Waun yn dathlu cyrraedd eu pen-blwydd yn ddeunaw oed. Llongyfarchiadau i'r tri ohonoch a phob dymuniad da ichi i'r dyfodol.

Diolch Dymuna Mrs D. Roberts, Dwyros, ddiolch i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am y cardiau, anrhegion a'r blodau a dderbyniodd ar ddathlu ei phen-blwydd.

Gradd a Gwobr Llongyfarchiadau i Erin Ynyr, Dolwar Fach, ar ennill Gradd Anrhydedd dosbarth cyntaf yn y Gymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd. Derbyniodd hefyd wobwr arbennig i fyfyrwyr yn ei blwyddyn.

Mae Erin bellach wedi dechrau ar gwrs ym Mhrifysgol Bangor i gymhwyso i fod yn athrawes Uwchradd. Pob hwyl i ti, Erin.

Llongyfarchiadau mawr i Lois Jones, Tan-y-Coed, Stad Bod Hyfryd, ar ennill Gradd BA yn y pynciau Colur a Ffasiwn ym Mhrifysgol Manceinion. Bu'n astudio'r pwnc am dair blynedd ac mae'n edrych ymlaen i weithio yn y maes ffasiwn a steilio yn y dyfodol. Pob dymuniad da iti yn y fenter, Lois.

Baban Bach Llongyfarchiadau i Llŷr ac Elen, Bodrida, ar enedigaeth Twm Shôn, eu baban bach

cyntaf. Pob dymuniad da ichi a mwynhewch y magu.

Adref o'r Ysbyty Gorfu i Manon, 10 Bryn Golau, fynd i'r ysbyty am gyfnod byr yn ystod gwyliau'r haf ond mae adref ac yn gwella erbyn hyn.

Croeso adref o'r ysbyty hefyd i Laura Williams, Tros y Gors. Hyderwn eich bod yn gwella ac yn cryfhau wedi'r driniaeth.

Yn yr Ysbyty Anfonwn ein cofion at Roy Jones, Cynefin, sydd yn derbyn triniaeth yn yr ysbyty. Gobeithiwn y byddi yn gwella ac yn cael dod adref yn fuan.

Cydymdeimlwn yn ddwys â Gwyn a Sioned Parry, Cefn y Waun, yn eu profedigaeth o golli mam Sioned, nain annwyl i Tomos a Meilir.

Marwolaethau Yn dawel yng Nghartref Bryn Seiont Newydd bu farw Mr Gwilym Williams, Cyn gynghorydd y pentref. Cydymdeimlwn â Mrs Mair Williams, ei briod ac â Delyth a Glyn a Bethan Shon, ei ddwy ferch a'uartneriaid ac â'i ddwy wyres, Siwan ac Anest yn eu profedigaeth a'u hiraeth o golli un oedd mor annwyl iddynt. Bu gwasanaeth yr angladd yng nghapel Eglwys y Waun ac Amlosgfa Bangor gyda'r

Barchedig Gwenda Richards yn gweinyddu a Mrs Catherine Jones wrth yr organ. Talwyd teyrnged iddo gan Norman Williams, cyfaill, ac Alwyn Gruffydd, cyn-gynghorydd ar Gyngor Gwynedd.

Wedi cyfnod hir o ofal caredig yng Nghartref Preswyl y Foelas, Llanrug, bu farw Mrs Janet Smith, Rhoslan (gynt). Cydymdeimlwn â'i mab a'r teulu a'i ffrindiau yn eu profedigaeth.

Daeth y brofedigaeth drist o golli ei thad i ran Helen Brown, 2 Bryn Golau. Cydymdeimlwn yn ddwys â hi a Tony, ei phriod ac â'r plant Rosie, Shaun, Nia ac Enlli yn eu tristwch o golli taid annwyl iddynt.

Daeth y newyddion trist am farwolaeth Mr Griff Jones, Carmel, yr olaf o deulu Cae Steel (gynt). Roedd yn frawd i'r ddiweddar Kathleen, Marian Wyn a Leslie Jones (cyn-brifathro yn ysgol y Waun). Cydymdeimlwn â'i wraig, Bessie, ei ferch Meirwen a'i fab Melfyn a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Cydymdeimlwn hefyd â Nyrs Iona, Syrjyri Liverpool House, yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer.

Gwasanaethau Eglwys y Waun am fis Hydref

- 1: Mrs Susan Williams
- 8: Parch Nan Wyn Powell-Davies (Cymun)
- 15: Mrs Nerys Griffith
- 22: Mr Dafydd Charles Thomas
- 29: Mr Aled Job, Y Felinheli.

Llwybrau Llechi

Mae ysgolion ac unigolion o fewn y fro wedi cymryd rhan neu wedi cefnogi'r prosiect cymunedol gwirfoddol hwn.

Mae'r prosiect bellach, bron â'i gwblhau, ac i ddathlu hyn bydd cyfarfodydd yn Neuadd Ogwen, Bethesda ar y 10fed o Dachwedd. Cynhelir seminar yn y prynhawn, (rhwng dau a phump o'r gloch) a fydd yn cynnwys sgyrsiau gan aelodau o Gymdeithas Eryri, Y Cerddwyr, Cymdeithion Sian Shakespear, Anita Diamond, ac Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd.

Yn ogystal, bydd perfformiad o ddrama wreiddiol 'Y Streic Fawr' gan ddisgyblion Ysgol Llanllechid, a darlith gan Dafydd Roberts, Curadur Amgueddfa Lechi Cymru. Gyda'r nos, am 7.30 cynhelir cyngerdd am ddim. Yn cymryd rhan bydd Cor y Penrhyn, Cor Penmachno a Seindorf Deiniolen. Arweinydd y noson fydd Neville Hughes.



North Wales
SIGNS
Gogledd Cymru

Uned Unit | **A9** | Cibyn Ind Estate | northwalesigns.com
grid76.co.uk | 07766956673

TEYRNGED I'R DIWEDDAR GWILYM WILLIAMS

Tua diwedd yr 80au oedd hi - a finna efo problem. Roedd hi'n Dolig a ninna wedi prynu anrheg amhosib i'w guddio rhag y plant. Clamp o fwrdd 'Table Tennis.' Dwi'm yn cofio sut y dois i ar draws Gwilym - ond roedd o'n un o'r Cynghorwyr hynny nad oedd yn cuddio rhag ei etholwyr - pa run bynnag daeth Gwilym i wybod am fy nghyfyng gyngor. Pan gyrhaeddodd y Bwrdd Lliidiart Wen roedd Gwilym acw gyda'i drelyr ac fe gadwyd y Bwrdd yn ei gartref tan noswyl Nadolig. Yna, ar ôl i'r plant glwydo, ymddangosodd Gwilym drachefn gan osod y Bwrdd yn ei briod le yn barod erbyn cynnwrf y bore.

Roedd hon yn gymwynas oedd yn dwyn i gof y cymwynaswyr hynny y gwyddwn i amdanyn nhw yn Rhosgadfan fy mhlentyndod - pobol oedd yn rhoi eu hamser a'u hegni er budd eraill heb ddisgwyl dim byd yn ôl. Ond wrth i'r blynyddoedd fynd heibio datblygodd cymdeithas yn fwy amheronol ac annibynnol ac aeth cymwynasgarwch yn brinnach o'r herwydd.

Perthyn i'r hen drefn oedd Gwilym, a dim ond wrth siarad efo trawstoriad eang o'r pentrefwyr, yn ystod y dyddia dwythma, y deuthum i sylweddoli maint ei gymwynasgarwch a'i ymdrechion i wella bywyd ei gyd bentrefwyr, fel Cynghorydd ar un llaw ac fel Gwilym y cymydog hynod ei garedigrwydd ar y llaw arall.

Un o adeiladau pwysicaf ein cymuned yn y Waun ydi'r Ganolfan. Nid gor-ddweud ydi honni na fyddai'r Ganolfan yn bodoli heddiw oni bai am ymdrechion Gwilym. Fo oedd yr ysbrydoliaeth tu ôl i'r fenter, ac yn fwy na hynny, fo a thim o wirfoddolwyr, rhai ohonyn nhw yn eu harddega, ymgymerrodd â'r rhan fwy a'r adeiladu. Datblygodd cyfeillgarwch rhwng Gwilym a rhai o'r ieuencid, sydd wedi goroesi'r blynyddoedd - fe'u dysgodd nhw nid yn unig i adeiladu ond hefyd i barchu'r Ganolfan ac adeiladau eraill yn y pentref.

Os oedd yna ddwy ffordd o gyflawni tasg, medda un o'r gwirfoddolwyr hynny wrtha i, ffordd Gwilym oedd yn mynd â hi a doedd o ddim yn brin o ddeud os nad oedd y gwaith o safon. Roedd o'n all rowndar medda fo, yn medru troi ei law at bob dim, wrth adeiladu neu drin car, tractor ne JCB, ac efo'r dreifyn ei bersonoliaeth i fynd â'r maen i'r wal. Dychmygwch pa mor dlawd fyddai Waunfawr heb y Ganolfan, ac wrth fanteisio ar ei hadnoddau, boed mewn Eisteddfod, Cyngerdd Nadolig yr Ysgol, yr Ysgol Feithrin neu wrth chwarae snwcer neu fowlio rhaid i ni beidio anghofio am ymdrech a llafur cariad Gwilym Williams wrth ei hadeiladu. Mae'r Ganolfan, a'r caeau chwarae o'i chwmpas, yn gofologfn iddo fo.

Ond mae ôl ei law mewn myrdd o lefydd eraill hefyd. Doedd o ddim yn Gapelwr ond at Gwilym y byddid yn troi os oedd angen cynnal a chadw'r adeilad yma. Ar un achlysur dringodd ar do y Capel er mawr sioc a phryder i nifer o'i gymdogion.

Yn bendant roedd, yn ei fywyd dyddiol, yn coleddu'r gwerthoedd Cristnogol, trwy ei baroddrwydd i helpu pobol lle bynnag roedd angen.

Pan welai gymdogion yn gweithio ar eu tai byddai yno, nid yn unig i helpu ond i gyflawni'r dasg, megis toi estyniad, neu achub Nadolig cymdages arall wrth drwsio nam trydanol ar fore'r Wyl.

Yn y Cyngor Cymuned, os oedd angen gofyn i'r Cyngor Sir wneud gwaith penodol yn y pentref, ymateb Gwilym fyddai 'Gadewch o i mi'. Gofalai bod y llwybrau cyhoeddus yn agored a bu'n agor ffosydd ar un achlysur pan oedd Lôn y Garreg Fawr wedi ei chau gan lifogydd er mwyn caniatau i angladd plentyn bychan ddreifio trwodd.

Bu'n geffyl blaen gyda Charnifal y Pentref a daeth ei allu peiranyddol i'r fei pan gafwyd y syniad o greu cystadleuaeth fel Its a Knockout ers talwm. Da chi siŵr o fod yn cofio un frwydr boblogaidd lle roedd dau wrthwynebydd yn eistedd ar bolyn llithrig yn waldio ei gilydd gyda gobennydd neu sach nes i'r naill neu'r llall ddisgyn i bwl o ddŵr.

Adeiladodd Gwilym y strwythur gan ddefnyddio sgaffaldiau a tharpolins a chafwyd lot o sbort wrth weld mawrion y pentra yn gwlychu. Erbyn meddwl ella'i fod o wedi taro ar ffordd llawer symlach o ddewis Cynghorwyr Sir 'fyd!!

Wrth gwrs bu'n Gynghorydd am nifer o flynyddoedd a braf oedd clywed yn ddiweddar gan un a orchfygwyd gan Gwilym mewn un etholiad, nad oedd erioed wedi dal dig tuag ato - yn wir bu'n ei gynorthwyo wrth iddo adeiladu tŷ - gwr bonheddig oedd ei ddisgrifiad ohono.

Roedd o a Mair yn amlwg yn dîm da - hitha hefyd wrth ei gwaith yn gwasanaethu'r gymdeithas. Fe'i gelwid gan rai yn Gwilym Sment ond roedd yn ddifyr iawn i mi glywed y dydd o'r blaen fod pobol yn dal i gyfeirio at Mair fel Nyrs a Gwilym yntau fel Gwilym Nyrs. Clywais stori am un achlysur lle bu raid i Mair gael help Gwilym i gyrraedd gwraig oedd ar fin esgor yn nhopiau Groeslon Waunfawr a hynny ynghanol cnwd o eira, fel nad oedd modd cyrraedd gyda char. Mewn golygfa sy'n swnio fel ffilm Superman daeth Gwilym i'r adwy gan gludo Mair mewn JCB i fyny'r allt. Wedyn rhaid oedd dringo dros waliau a thrwy luwchfeydd cyn cyrraedd y teulu - dyna chi be oedd gwaith tim.

Mae JCB yn ganolog mewn stori arall glywis i gan Nyrs Iona y dydd o'r blaen ac mae'r llun yma wedi aros efo fi ers hynny. Ar ymweliad â'r cartref rywbyrd daeth Iona wyneb yn wyneb â'r JCB a Gwilym wrth y llyw. Yn eistedd ym mhwcet y JCB yn gweiddi cyfarwyddyd i Gwilym oedd neb llai na Mair!! Dwi'm cweit wedi deall be oedd y ddau yn geisio ei gyflawni ond fel dudodd Dic Aberdaron 'tydi pawb ddim yn gwirioni run fath'.

Mae'r hen ddywediad "A fyn glod bydd farw" yn berthnasol iawn i Gwilym. Dyn di ffwdan oedd o nad oedd yn chwennych sylw na chanmoliaeth ond roedd o hefyd yn annisgwyl o sensitif ac emosiynol wrth ddelio gyda salwch a marwolaeth cyfeillion.

Yn sgil paratoi yr ychydig eiriau yma fe'm synnwyd gan angerdd y ganmoliaeth i gymeriad a gwaith Gwilym. Dyma rai o sylwadau pobol.

'Ei awydd i helpu pawb', 'fe wnâi rwbath i rywun', 'wnaeth o ddim ymddeol', 'cawr o ddyn', a 'fydd yna byth neb run fath a fo'.

Mi ddigwyddais daro ar gyn Brifathro Ysgol Syr Hugh Owen rai dyddiau'n ôl a'i sylw cyntaf oedd cyfeirio tuag at farwolaeth Gwilym. "Un da oedd Gwilym," meddai "bob amser yn gefnogol i'r Ysgol."

Mi fuodd yn gefnogol iawn i Feddygfa Waunfawr fel Cynghorydd wrth iddyn nhw geisio cael yr Awdurdod Iechyd i ariannu Syrjyri newydd. A rhyfedd meddwl mai'r plentyn wirionodd gymaint o weld y bwrdd table tennis y Nadolig hwnnw flynyddoedd yn ôl, ddaeth maes o law yn un o'r tîm a ofalai am iechyd Gwilym dros gyfnod o flynyddoedd. Rhyfedd fel mae'r rhod yn troi.

Ar ran trigolion y Waunfawr, yn hen ac ifanc, mae'n fraint cael cydnabod gwasanaeth unigryw Gwilym i'w gymdogaeth, dros flynyddoedd lawer. Wrth gydymdeimlo gyda Mair, y genod a'u teuluoedd, yn eu colled, mae'n gyfle inni ddiolch iddyn nhw hefyd, am ganiatau iddo'r amser i fod yn gymaint o gymwynaswr i'w gymdogion, i'w gyd bentrefwyr ac i'r Fro.



GWILYM WILLIAMS

Mae yna naw mlynedd a mwy bellach ers i mi gael fy hun yn aelod o Gyngor Gwynedd a chyfarfod â Gwilym Williams am y tro cyntaf. Pwy na fydda’n anghofio’r war lydan honno a’r dwylo – dwylo oedd yn brawf i oes o waith caled ac i gadernid cymeriad unigryw.

Deuthum yn ffrindiau a bu ei gynghorion dros yr wythnosau a’r misoedd cyntaf hynny’n anhepgorol wrth i mi geisio cael fy nhraed oddi tanaf fel cynghorydd sir newydd. Oherwydd fy mod i wedi fy ethol i gynrychioli ward eang oedd yn cynnwys ardal Beddgelert – ardal oedd yn gymharol ddieithr i mi a dweud y gwir. Ond roedd Gwilym yno gyda’i adnabyddiaeth leol i’m tywys ar hyd a lled y fro honno. Yn dawel byddai’n dweud “Cer i siarad hefo hwn a llall.” “Cer i weld fan ar fan.” “Oeddet ti’n gwybod fod peth ar peth yn digwydd?” “Glywist di am hyn ac arall?” Dyna’r math o arweiniad gwerthfawr yr oeddwn yn ei dderbyn ganddo - ac roeddwn yn ei dderbyn yn ddiolchgar. Roedd ei atebion i’m cwestiynau chwilfrydig innau bob amser yn fanwl ac yn fuddiol. A dweud y gwir roedd o’n ateb ambell i gwestiwn cyn i mi gael y cyfle i’w ofyn hyd yn oed!

Ond ar ôl dweud hynny cymeriad swil oedd Gwilym. Person preifat mewn llawer ffordd. Mewn trafodaethau’n y Cyngor doedd o ddim yn un am wastraffu geiriau o fath yn y byd. Cyflwynodd ei ddadleuon yn syth fel saeth. Byr ac i bwrpas - dyna Gwilym y cynghorydd i chi - ac roedd o’n perthyn i do o gynghorwyr sydd gwaetha’r modd yn brysur ddiplannu o’r tir – cynghorwyr cadarn eu barn ac annibynnol ym mhob ystyr y gair.

Oherwydd yr oes yma mae’n ddisgwyliedig ar i gynghorwyr fod yr rhyw fath o ladmeryddion ac yn lysgenhadon ar ran y Cyngor. Ond nid felly Gwilym. Nid cynrychioli Cyngor Gwynedd yn Y Waunfawr fydda fo – ond cynrychioli’r Waunfawr yng Nghyngor Gwynedd, a fo oedd yn iawn wrth gwrs.

Roedd Gwilym a finnau hefyd yn gyd-aelodau o Awdurdod Parc Eryri. Roedd o’n Gadeirydd Pwyllgor Polisi ac Adnoddau’r Awdurdod – ac ymgwymerodd â’r ddyletswydd honno yn ddeheuig yn ôl ei arfer. Fel cyd-ddigwyddiad hapus cefais y ffrainc o lenwi ei sedd fel Cadeirydd y Pwyllgor hwnnw pan ddaeth cyfnod Gwilym i ben ar Awdurdod y Parc.

Tra roeddau ni’n dau ar Y Parc fe benderfynwyd y bydda hi’n ddoeth i nifer ohonom ni’r aelodau ddringo i gopa Pen y Ole Wen uwchlaw Dyffryn Ogwen. Nid camp hawdd i unrhyw un – ac roeddwn i’n pryderu braidd am Gwilym oedd erbyn hynny’n bell yn ei saithdegau. Ond doedd dim rhai mi boeni yr un iot. Roedd o fel gafr yn llamu yn ei flaen ac yn rhoi dau dro am un i rywun fel fi’n ugain mlynedd dda yn iau nac o.

Roeddwn i’n adrodd yr hanes yna wrth gefnder Gwilym, sef Dafydd Parry, Hafod y Llyn, Nantmor. “Duwcs does dim rhyfedd,” medda Dafydd pan glywodd o’r stori, “a fynta wedi hela cymaint o lwynogod!” Pawb at y peth y bo mae’n debyg ond mi roedd dweud Dafydd yn rhywbeth y bydda Gwilym yn sicr yn ei gymeradwyo.

Gyda’ch caniatâd chi fe hoffwn i ddirwyn i ben ar nodyn personol. Bu fy nhad yn gynghorydd hefyd am flynyddoedd ac fe gollodd o’r frwydr yn gynt eleni. Yn ei angladd cefais gyfle i ddarllen cerdd y credwn oedd yn briodol i ni fel teulu ac i’r gymuned y bu’n ei chynrychioli cyhyd. A choelia i ddim yn fy myw nad ydi hi’n llawn mor briodol heddiw.

Dwyn i Gof yw enw’r gerdd gan fardd o’r enw Claire Jones o ddinas ddifyr New Orleans yn yr Unol Daleithiau a gyda ymddiheuriadau iddi hi am yr ymgais yma i drosi un o’i cherddi i’n haith ni.

DWYN I GOF

Wrth i ni ddwyn i gof
Ystyriwn

Wnaethom ni ddiolch digon i chi
Am bopeth a wnaethoch drosom?
Am fod yno wrth ein hochr
Yn gefn ac yn gadarn,
Gan ddathlu ein llwyddiannau,
Deall ein anawsterau
A derbyn ein methiannau.
Neu, am ddysgu i ni drwy esiampl
Werth gwaith caled, barn gytbwys,
Dewrder a gonestrwydd.

Tybed wnaethom ni ddiolch digon i chi
Am eich aberth er mwyn i ni gael y gorau
Ac am y pethau bychain hynny
Fel chwerthin, difyrrwch a dyddiau da?

Os y bu i ni anghofio dangos ein gwerthfawrogiad yn llawn
Am bopeth a wnaethoch drosom -
Yna diolchwn i chi heddiw
Yn y gobaith eich bod yn gwybod yn iawn,
Ar hyd yr amser,
Cymaint o feddwl fu gennym ohonoch.

Cynllun peilot graddedigion CCG

Roedd cynnig profiad gwaith i Caio Hywel dros yr haf yn ymestyniad o gynllun blaenorol Adeiladu Profiad cymdeithas dai Cartrefi Cymunedol Gwynedd (CCG), ac yn gam tuag at sefydlu Cynllun Graddedigion parhaus.

Mae Caio, sy’n 20 oed ac o Fethel, yn astudio gradd syrfêwr adeiladu ym Mhrifysgol Lerpwl. Treuliodd dri mis gyda Thîm Asedau CCG yn arolygu 213 o adeiladau ar draws y sir.

Dywedodd Caio: “Mae o wedi bod yn brofiad gwych i mi. Dw i wedi mwynhau yma o’r diwrnod cyntaf i’r diwrnod olaf.

“Rwyf wedi cael blas ar fod yn syrfêwr, a dw i’n teimlo fy mod yn deall y swydd yn dipyn gwell ar ôl y profiad yma. Rwyf hefyd wedi ehangu fy ngwybodaeth technegol yn fawr yn ogystal â cryfhau ac ehangu sgiliau eraill.

“Dw i wedi dysgu llawer iawn o bethau wrth weithio ar ben fy hun hefyd, ac mae fy hyder a fy sgiliau cyfathrebu wedi gwella yn fawr iawn drwy siarad gyda thenantiaid pob dydd. Mi fydd y profiad yma yn help mawr i mi ar gyfer fy mlwyddyn olaf yn y Brifysgol, ac yn help yn fy ngyrfa yn y dyfodol. Dw i’n ddiolchgar iawn i CCG am gynnig hyn i mi.”

Mae Llŷr ap Gruffydd yn gweithio i dîm Adnoddau Dynol CCG, dwedodd: “Rhan o fy rôl i yw edrych ar gynlluniau fel hyn i ddatblygu ein gweithlu ar gyfer y dyfodol.

“Ar gyfer y flwyddyn nesaf byddwn yn edrych i gyflwyno ‘Cynllun Graddedigion’ fydd yn weithredol ar draws y cwmni, sefydlu rhaglen brofiad gwaith ar gyfer myfyrwyr ysgol a 6ed dosbarth, ac edrych i recriwtio prentisiaid a hyfforddai i dimau eraill ar draws y cwmni.

“Diolch yn fawr i Caio am ei waith dros yr haf – roedd y rheolwyr i gyd yn hapus iawn efo ei berfformiad a safon ei waith, a dymunwn yn dda iddo nôl yn y Brifysgol.”

ECO'r Wyddfa

O'r Cynghorau

Cyngor Cymuned Llanrug a Chwm y Glo

Cyfarfod o Gyngor Cymuned Llanrug a Chwm y Glo a gynhaliwyd ar y 15fed o Awst 2017

Y Fynwent

Nodwyd nad oedd y gwaith ar y wal yng nghefn y fynwent wedi cychwyn er fod y contractwr wedi rhoi pris am wneud y gwaith ac fod y pris hwnnw wedi ei dderbyn a byddai'r Clerc yn ei ddilyn i fyny.

Maesydd chwarae Cwm y Glo a Dolafon.

Penderfynwyd derbyn adroddiad ar gytundeb rhwng aelodau o Gyngor Gwynedd a'r Cyngor Cymuned

- Byddai Cyngor Gwynedd yn fodlon trosglwyddo 'Rhydd-ddaliad' (Freehold) y tir ar gyfer y ddau faes chwarae i'r Cyngor Cymuned.

- Fod angen cadarnhau yn union ble mae ffiniau y cae chwarae Cwm y Glo.

- Byddai Cyngor Gwynedd yn ad-dalu'r gostau cyfreithiol y Cyngor Cymuned.

- Byddai'r Cyngor Cymuned yn dymuno gweld yr asesiad risg ar y caeau a'r offer a byddai Cyngor Gwynedd yn gwneud unrhyw waith sydd ei angen.

Adroddwyd ymhellach fod angen gweld pwy sydd berchen y darn o dir sydd yn cael ei ddefnyddio fel maes parcio ac os bydd y tir ym mherchnogaeth y Cyngor Cymuned yna edrych ar y posibilrwydd o greu mwy o lefydd parcio i'r pentref.

Awgrymwyd gan y Clerc y buasai'n ymarfer da i ymgysylltu a chymuned Cwm y Glo i holi beth fuasent yn hoffi ei weld yn y parc cyn

ymrwymo'r Cyngor i gymryd y caeau chwarae drosodd. Cytunwyd i fwrw ymlaen gyda holiadur a fyddai'n galluogi'r Cyngor i greu strategaeth gymunedol ar gyfer y dyfodol, ynghyd a rhaglen waith a blaenoriaethu'r gyllideb.

Cais Cynllunio

Fe ystyriwyd cais i ddiwygio cymal o fewn cytundeb ar gyfer 1 Swm yr Efail, Llanrug, er mwyn lleihau cyfnod 'morgeisi mewn meddiant' o 8 wythnos i 4 wythnos a dileu'r geiriau 'i rhentu'.

Ar ôl ystyried y cais yn fanwl, penderfynwyd nad oedd digon o wybodaeth gan yr aelodau ar y cais ac nad oeddynt mewn sefyllfa i wneud unrhyw sylw ac i'r Clerc gyfleu hyn fel sylw am y cais cynllunio.

Polisi iaith y Cyngor

Adroddwyd ei bod yn angenrheidiol i'r Cyngor cael nifer o bolisiau mewn lle ac yn eu mysg polisi iaith. Eglurwyd mai polisi fydd yn cadarnhau iaith y Cyngor mewn cyfarfodydd. Mewn realiti, fydd dim newid yn ffordd mae'r Cyngor yn gweithredu dim ond fod y polisi yn cadarnhau hyn.

Nodwyd hefyd fod cwyn wedi ei dderbyn fod gwybodaeth ar yr hysbysfwrdd yn uniaith Gymraeg.

Penderfynwyd i awdurdodi'r Clerc i greu polisi iaith i'r Cyngor ac i roi gwybodaeth yn ddwyieithog ar yr hysbysfwrdd ble 'roedd hyn yn briodol.

Hysbysebu am gontractwr i wneud gwaith cyffredinol a glanhau i'r Cyngor.

Adroddodd y Clerc ei fod wedi derbyn cwyn am gyflwr un o'r llochesi bws. Y drafferth oedd nad oedd gan y Cyngor enwau ymgymerydd i'w galw allan ar gyfer gwneud gwahanol math o waith. Penderfynwyd hysbysebu yn Eco'r Wyddfa am gontractwyr fyddai a diddordeb gwneud gwaith i'r Cyngor fel gallai'r Cyngor greu cofrestr o gontractwyr cydnabyddedig.

ECO'r Wyddfa

O'r Cynghorau

Cyngor Cymuned Waunfawr

CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR

COFNODION NOS FERCHER 26.07.2017 AM 7.15 YR HWYR, YN FESTRI CAPEL Y WAUN, WAUNFAWR.

Presennol – Cadi Jones (Cadeirydd), Edgar Owen, Doug Jones, Menna Jones, Liz Daniels, Edgar Owen, Sali Burns, Erddin Llwyd, Huw Davies, Antur Waunfawr, Gruff Wyn, Ymgynghorydd ar ran Antur Waunfawr, Shoned Rees Griffith (cofnodi)

Ymddiheuriadau – Delyth Jones, Eurig Wyn, Cain Thomas

Datganiad Buddiant - Dim

Derbyn Cofnodion 21.06.2017 – Cadarnhawyd fod cofnodion y cyfarfod yn rhai cywir.

Antur Waunfawr – Cafwyd ymweliad gan gynrychiolwyr o'r Antur i drafod Cynllun Hydro maent yn edrych ar ei ddatblygu yn lleol, byddai yn cynhyrchu trydan ar gyfer ychydig o eiddo lleol.

Aelodau Cyngor Cymuned – Croesawyd yr aelodau newydd gan y Cadeirydd. Nodwyd bod angen penodi Is-Gadeirydd.

Materion yn codi o'r Cofnodion -

Materion Caeathro –

1. Ffordd Osgoi Bontnewydd – Wedi rhannu y 'Rebuttal Statement'. Dim pellach i'w adrodd ar hyn o bryd.

2. Mainc Caeathro – Cyng SB yn mynd i drefnu i gael peintio y fainc.

3. Hen ffordd Caeathro i Bontnewydd – Cyng EO mewn trafodaethau a Cyngor Gwynedd.

4. Biniau Baw Ci – angen holi i gael mwy o finiau.

Materion Waunfawr –

1. Biniau Baw Ci – Wedi derbyn ymateb CG, ond aros i'r biniau gael eu gosod.

2. Tacluso Pentref – i'w drefnu gyda Clwb Ieuenctid y pentref yn ystod mis Medi.

3. Maes Parcio ger Ael y Bryn a llwybr cefn Dol Erddi, -llwybr cefn Dôl Erddi wedi cael ei glirio, aros i'r gwaith gael ei wneud i'r maes parcio.

4. Les tir tu ôl i'r Ganolfan – Mewn trafodaethau a CG i lesu'r tir gyda'r posibilrwydd o greu trac beics.

5. Arwyddion cyflymder (fflachio) – edrych mewn i'r mater.

6. Gwefan y Cyngor Cymuned – ar y gweill.

Safle Glyn Rhonwy –Dim mwy i'w adrodd ar hyn o bryd.

Archwiliad Allanol - Aros ymateb.

Adroddiadau

1. Lloches Bws - Angen trefnu i dacluso'r maes parcio a torri unrhyw gor-dyfiant yn y maes parcio.

2. Y Fynwent - Dal i aros ymateb gan berchennog y tir cyfagos ynglŷn â prynu tir a'r gyfer y dyfodol. Gwaith o adnewyddu y feinciau yn mynd i gael ei wneud yn fuan. Angen gosod arwyddion ar y cwt.

Llwybrau Cyhoeddus – Dim i'w adrodd.

Materion Cynllunio

Dyddiad

Cofrestru

Rhif Cais

11/07/2017

estyniad ochr presennol a chodi estyniad deulawr yn ei le ynghyd â gwella'r fynedfa bresennol

Waunfawr

LLDim gwrthwynebiad

18/07/2017

allanol ar gyfer creu llety gwlaŵ bync ynghyd ag ystafell sychu a chyfleusterau golchi dillad

Waunfawr

LLDim gwrthwynebiad

25/07/2017

2 a 10 o ganiatad Cynllunio rhif C11/0861/26/LL parthed y to sedum a gosodiad y mynediad ynghyd â man newidiadau i'r edrychiad a diddymu amod 3-6 parthed cydymffurfio gyda'r datganiad dylunio a mynediad Tir ger Bryn Melyn

Waunfawr

LLAngen gofyn i CG am orchudd y to.

Dyddiad cyfarfod nesaf – 18 Hydref 2017.

ECO'r Wyddfa

O'r Cynghorau

Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

Cyfethol Cynghorwyr

Cynnigwyd a derbyniwyd Gwawr Wyn Roberts fel cynghorydd ar sedd wâg ym Clwt y Bont.

Datgan buddiant. Dim

Cofnodion Cyfarfod 6ed Fehefin 2017

Derbyniwyd y Cofnodion yn gywir.

Materion o'r cofnodion

Golau Tan Y Gaer – Yn dilyn derbyn amcanbris ar lamp yn unig i roi ar y polyn trydan sydd ger y garej yn Tan y Gaer, a fydd yn goleuo y gyffordd yno, penderfynwyd archebu y lamp fel ei bod yn cael ei gosod cyn tymor yr Hydref.

Goryrru ac arwyddion 20mya Rhiwlas -Ymhellach i'r broblem yma, derbyniwyd llythyr gan bennaeth yr ysgol gynradd yn Rhiwlas, yn datgan eu balchder fod arwyddion 20mya am gael eu gosod o flaen yr ysgol, ond yn bryderus nad oedd hyn am ddigwydd o flaen y parc chwarae, ac yn credu yn gryf bod rhaid gwneud rhywbeth i ddiogelu y plant ar eu ffordd i'r parc. Hefyd, cyfeiriodd fod angen arwydd bychan "Ysgol Rhiwlas" yn lon bach awyr, gan nad yw pobl sy'n pasio yn gwybod fod ysgol yn y pentref.

Ymhellach i hyn, mae'n amhosib gweld yr arwyddion o 30 mya., oherwydd gordyfiant ar y lon ger y parc chwarae. Y clerc i yrru cais i Cyngor Gwynedd.

Cynllunio Gorswen – Wedi holi amryw o bobl yn yr ardal, penderfynwyd er bod yna bobl ifanc angen tai ym Mrynrefail, mae'n edrych yn debyg nad yw'r tir yma yn addas gan fod yna Dial y Dail yn tyfu yno, ac yn debygol o lifogydd, ac o bosib buasai Dial y Dail yn cario i lygru yr afon, ond mae hyn yn fater sydd angen ei ddiogelu gan y gwasanaeth amgylcheddol.

Tir ger Tai Fictoria – Daeth newyddion fod y cyngor wedi cytuno i ymestyn yr amser i adeiladu yno i 3 blynedd arall, ac er fod yna wrthwynebiad o'r cyngor, dadl y Cyngor Sir yw nad oes posibil gwrthod gan fod y cais wedi cael ei ganiatau o'r blaen.

Gohebiaeth a materion eraill

Seindorf Ieuencid Deiniolen – Derbyniwyd llythyr yn diolch am rodd ariannol tuag at logi bws i'r gystadleuaeth yn Drenwydd. Newyddion braf iawn eto fod llwyddiant mawr wedi dod i'r band a Llongyfarchiadau Mawr iddynt, nid yn unig am ddod yn fuddugol yn eu cystadleuaeth am y bedwaredd flwyddyn yn olynnol, ond hefyd am ddod yn 6ed drwy'r cystadleuthau i gyd allan o 11eg band. Tipyn o gamp!

Arolwg Anghenion Tai – Mae'r adroddiad sy'n dilyn o'r arolwg yn barod bellach, a bydd Arfon Hughes (uwch Hwylusydd Tai Gwledig) a Dylan Owen yn dod i roi cyflwyniad i'r cyngor ar y Sed o Fedi.

Mynwent Macpelah – Derbyniwyd llythyr o Gyngor Gwynedd yn erfyn ar i bobl yr aradal osgoi parcio yn giât y fynwent. Mae angen mynediad gan weithwyr darparu beddau, cynnal tiroedd, casglu ysbwriel, trefnwyr angladdau, seiri maen, ymwelwyr, ac wrth gwrs

angladdau. Mae yn hanfodol fod y mynediad yn cael ei gadw yn glir bob amser. Erfynir yn garedig i'r ardalwyr peidio a parcio yno a cymeryd sylw o'r arwydd sydd yn hollol blaen ar y giât.

FFfordd rhwng Gors a Cyttir Brynrefail – Derbyniwyd llythyr gan drigolion yr ardal yn cwyno am gyflwr y lon, a chais i ni geisio cael y Cyngor i wneud gwelliannau ar y ffordd. Mae gwair yn tyfu trwy'r tarmac a tyllau mawr sydd yn achosi niwed i geir. Y clerc i yrru cais i Gyngor Gwynedd.

Falcon Force – Derbyniwyd cais i noddi y tim fydd yn cynrychioli Cymru o Ysgol Brynrefail. Er mai ym mis Hydref mae'r cyngor yn arfer rhannu rhoddion, mi fuasai hyn yn rhy hwyr. gan fod y criw yn teithio i Malaysia ym mis Medi. Rydym yn sicr fod hyn yn mynd i ychwanegu at eu profiadau felly penderfynwyd cyfrannu £200 iddynt, gyda'n Llongyfarchiadau hyd yma a Pob dymuniad da iddynt yn y gystadleuaeth.

Cynllunio

Ceisiadau a dderbyniwyd yn ystod y mis:

Rynys, Llanddeiniolen – Estyniad, newidiadau a chodi modurdy a porth car newydd.

1 Carfan, Pentir – Creu Manage at ddefnydd personol

Coedwig Penygraig Seion – Ail Wynebu a lledaenu ffyrdd a llefydd troi.

Pen y Graig, Seion–Estyniad a newidiadau gan gynnwys codi'r to, gosod ffenestri dormer a feranda newydd.

Parc Padarn – Gosod Cerfyn o gleddyf 6 medr o uchder ar Sylfaen concrid.

Monfa Cottage Brynrefail – Cais am dystysgrif datblygiad cyfreithiol ar gyfer datblygiad bwriadedig sydd yn cydymffurfio a chaniatad cynllunio.

Cynllun Adnau – Esboniodd y Cynghorwyr Sirol fod cyfarfod o'r cynllun datblygu wedi bod, ac yn anffodus nid oes dim newid i Fethel, ac mae'n bosib bydd y Tir dros ffordd i Rhoslan a Cremlyn yn cael ei glustnodi fel tir datblygu. Bydd y cynllun yn cael ei gyflwyno i'r cabinet ddiwedd y mis.

O Gwmpas y Bwrdd

Lon Racca – Dywedodd Elfed Williams fod y Cyngor yn ail wynebu darn bach o'r ffordd ger Maes y Dref a'r Gwaith i gychwyn ar Gorffennaf 31

Rhiwlas – Gofynnodd Hefin Williams oes posibil rhoi cais i mewn am gymorth ariannol i gael hysbysfwrdd yn Rhiwlas.

Gwair ar lon Castell wedi tyfu ar ddwy ochor, mae defnydd gyda cerddwyr a beics y ddwy ochor ac mae yn beryg pan fydd ceir yn dod heibio, ac yn amhosib i yrrwyr weld yr arwyddion i'r maes chwarae.

Tân Grenfell – Yn dilyn y digwyddiad sobor yma yn ddiweddar, awgrymwyd y dylem gysylltu gyda'r pobol perthnasol i'w atgoffa ei fod yn ddyletswydd arnom i wneud yn sicr fod y Tai Cymdeithasol, boed yn dai, fflatiau, cartrefi hen bobl ac ysgolion yn ddiogel ac yn cyrraedd y safon cywir, fel bod digwyddiad o'r fath ddim yn digwydd eto. Croesawyd y cynnig arbenig yma a gofynwyd i'r clerc gysylltu trwy lythyr at Cartrefi Gwynedd, Welsh Housing Standards a Chyngor Gwynedd.

Phyllis Ellis – Gwair tyfiant o Tan y Gaer i Ynys Iago angen ei dorri. Lon gul ac yn beryg.

Torgoch (Salvelinus Alpinus perisii – Welsh Charr)

Gweld darlun o waith Moses Griffith – arlunydd y "Teithiwr Chwylfrydus" Thomas Pennant a symbylodd yr englyn. Mae'r llun ar ymyl tudalen yn llyfr enwog Pennant, "Teithiau yng Nghymru" [at wasanaeth Pennant ei hun]. Yn rhyfedd iawn mae gyferbyn â chronicl y teithiwr/ naturiaethwr pan yn mynd heibio Llyn Cwellyn ac yn gweld gwerinos yr ardal yn rhwydo y llyn am helpa, ac nid ar lannau Padarn na Pheris. Gellir gweld y darlun ar:

<http://curious-travellers.ac.uk/cy/category/blog-ymchwil-cy/>. Yno hefyd mae erthygl gennyf am y 'relic' hwn o oes yr ia – yn ogystal a lluniau diweddar ohono yn ei lifrau 'claddu' – gan H.P. Hughes, Bethel.

Daliodd, ar ymyl tudalen – hen wyrth prydferthwch ac elfen hud y wawr ei 'dor' oren, y lliw a'r llaw'n codi'r llen.

tor = bol, bola.

Norman Closs

DEINIOLEN Mrs Nia Gruffudd. Ffôn: (872133)



Llongyfarchiadau i Eleri Llwyd Jones o 1 Tŷ'r Faenol, Clwt y Bont, Deiniolen am ei llwyddiant o gael ei derbyn i Brifysgol Bangor i astudio gradd nyrsio yn mis Medi. Dymuniadau da a phob llwyddiant i'r dyfodol iddi hi oddi wrth y teulu a ffrindiau. Pob lwc i ti, Eleri.

Eglwys Crist Eleni eto fe gafwyd Dydd Rhodd bendithiol iawn, gyda chyn Archddiacon Meirionnydd, y Parchedig Emyr Wyn Rowlands, yn pregethu. Y Canon Robert Townsend yn cymeryd y Gwasanaeth a'r Dr William Munro, yn organydd. Diolch i bawb am eu haelioni y flwyddyn yma eto.

Diolch unwaith eto am gael stondin yn y carnifal. Yr oedd yn llwyddiannus iawn, a mawr yw ein diolch i'r rhai oedd yn gofalu am y stondin, ac i'r rhai a roddodd nwyddau i'w gwerthu.

Mynwent yr Eglwys Saif Eglwys Crist, Llandinorwig " fel Dinas ar fryn, nas gellir ei chuddio". Braint yw cael edrych ar ôl ein hetifeddiaeth yn enwedig y dyddiau yma pryd y gwelir llawer iawn o eglwysi a chapeli yn cael eu gwerthu. Yr ydym yn hynod ffodus a diolchgar i Mr Berwyn Jones am ofalu bod y gwair yn cael ei dorri yn rheolaidd. Unwaith eto, diolch i garedigion am fod mor hael gyda'u rhoddion. Derbyniwyd rhoddion gan y canlynol:

- Mrs Eurwen Roberts, 47 Rhydfadog: £20.00
- Mrs Betty Pritchard, 3 Llys y Gwynt, Penisarwaun: £10.00
- Mrs Nannie Evans, 26 Bryn Tirion, Penisarwaun: £10.00
- Mr Owie Gibson, 17 Hafod Oleu: £10.00
- Mr Brian Price, 14 Hafod Oleu: £10.00
- Mrs Gracie Tate, 1 Bro Deiniol: £20.00
- Mrs A J Owen, 48 Rhydfadog: £10.00
- Mrs Betty Jones, Tan y Buarth Uchaf: £10.00
- Mrs Elizabeth Jones, Foel Gron: £10.00
- Mrs Rowena Williams, Gerddi Menai, Caernarfon: £50.00
- Mrs Iona Phillips, Maes Eilian, Dinorwig: £10.00
- Mr Derek Morris, 7 Ffordd Deiniol: £10.00
- Mr Gerallt Morris, 7 Ffordd Deiniol: £10.00
- Mrs Elaine Bowser, Llundain: £30.00
- Mrs Gwenda Sayer, Caernarfon: £20.00
- Mrs Edna Morgan, Caerdydd: £100.00

Cydymdeimlo Estynnir ein cydymdeimlad at deulu'r ddiweddar Mrs Eirlys Williams, 3 Pentre Helen, a fu farw yn ddiweddar.

EISTEDDFOD GADEIRIOL DEINIOLEN A'RCYLCH

Cynhelir yr eisteddfod eleni dydd Sadwrn, 21ain o Hydref 2017, yn Neuadd Ysgol Gwaun Gynfi, Deiniolen. Cyfarfod y prynhawn i ddechrau am 12 o'r gloch a chyfarfod yr hwyr am 6.30. Yn beirnadu eleni fydd: Cerdd - Robat Arwyn, Rhuthun

Llefaru - Medi Wilkinson, Caernarfon

Llenyddiaeth - Llion Jones, Bangor

Gwau, Gwnio a Choginio - Anita Long, Brynrefail

Arlunio, Gwaith Llaw a Ffotograffiaeth - Gwilym Williams, Deiniolen.

Cyfeilydd - Annette Bryn Parri, Deiniolen

Testunau ar gael mewn siopau lleol, neu gan aelodau o'r pwyllgor.

DEWCH YN LLU I GEFNOGI.

Seindorf Ieuenctid Deiniolen

Nos Sadwrn y 9fed o Fedi roedd Seindorf Ieuenctid Deiniolen o dan arweiniad Osian Tomos yn cymryd rhan mewn Cyngerdd Gala yn Venue Cymru Llandudno. Roedd 47 o aelodau ar y llwyfan ac rhoddwyd rhaglen amrywiol o ddarnau traddodiadol a chyfoes. Roedd y neuadd yn llawn a'r gynulleidfa ar eu traed ar ddiwedd y cyngerdd wedi iddynt fwynhau noson o adloniant gan y band, Meinir Roberts, Côr Godre'r Aran, Côr Cytgan Clwyd a'r tenor Rhys Meirion. Arweinydd y noson oedd Dilwyn Price. Gorffennwyd y cyngerdd gyda phawb yn ymuno ar y llwyfan a'r Band Ieuenctid yn cyfeilio i ffinae arbennig o "World in Union". Dymuna Osian ddiolch yn fawr iawn i'r holl aelodau am eu gwaith caled a'u hymroddiad ac hefyd i'r holl gefnogwyr ddaeth, yn ffrindiau a theuluoedd, i gefnogi'r Ieuenctid. Hoffai ddiolch yn ogystal i Meirion am yr holl waith trefnu ac hefyd i gwmni Brodwaith am gynhyrchu'r teis newydd ar gyfer y noson fawr. Nesaf bydd y Band Ieuenctid yn troi eu golygon at Gyngerdd Blynnyddol Seindorf Deiniolen yn Theatr Seilo, Caernarfon ar y 24ain o Fedi ac yna yn gweithio tuag at Bencampwriaeth Gogledd Cymru yn Rhuthun, lle bydd yn Band yn cystadlu yn y Brif Adran Ieuenctid fis Tachwedd.

Os hoffech rhagor o wybodaeth am y Band Ieuenctid yna cysylltwch gyda Osian ar 07557371206

Dymuniadau Gorau Dymunir yn dda i bobl ifanc y pentref sydd yn mentro i golegau pell ag agos yn ystod y mis, mi fydd colled ar eu hól ond gobeithir yn fawr yn byddant yn dychwelyd yn fuan.

POSH PAWS
TACLUSO CWN
Busnes Newydd Lleol
PRYNHAWNIAU neu NOSWEITHIAU 4-10
DYDD SUL 8YB-4YP
Gwasanaeth Casglu a Danfon
Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
(01248) 671382 • 07935324193
ebost- juliaposhpaws@btinternet.com

SAMARIAID
Mae
Llinell Gymraeg
0300 123 3011
ar gael bob nos
rhwng
7.00pm ac 11.00pm

HUW OWEN
PLASTRWR
ADEILADWR LLEOL
22 BLWYDDYN
O BROFIAD
Ffôn- 01286 677668
Symudol- 07940023159
Gladwyn Station Rd.
LLANRUG, Caernarfon
LL55 4AG
Ebost- lisa.huw@btinternet.com

WAVELL'S
Bryn Ac Angela Williams
London House
LLANRUG
PEN CIGYDDION Y FRO
YR WYN LLEOL MWYAF BLASUS
SELSIG CARTRE
CIGOEDD PAROD I'W BWYTA
ARCHEBION AR GYFER Y RHEWGIST
MYNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!!
(01286) 673574

Parhad DEINIOLEN

Jenny Eirlys Williams (Mam Jen)

Jane fyddai ei phriod Hywel yn ei galw. Eirlys oedd hi i'w theulu a'i ffrindiau. Er yn fam i Jennifer, Hefin, Arthur, Meirion ac Euryr – 'Mam Jen' oedd hi i mi bob amser.

Mae'n cyfeillgarwch yn mynd yn ôl i ddechrau pumdegau'r ganrif ddiwethaf. Fel ffrind i Jen y byddwn i'n mynd ar aelwyd 5 Hafod Olau'r pryd hynny. Aelwyd gynnes, groesawgar gydag oglau bwyd da yn llenwi'r gegin bob amser. Roedd mam Jen yn wraig tŷ gampus yn gofalu am bawb a phopeth. 'Doedd symud o gwmpas ddim yn hawdd i'w gwŷr, gan fod afiechyd y polio wedi ei daro ac yntau'n ddyn ifanc iawn. Felly roedd cymaint mwy o faich ar ysgwyddau Eirlys na gwragedd eraill Deiniolen.

Ond nid gwraig tŷ yn unig mohoni. Roedd hi'n aelod hynod werthfawr yng nghymdeithas y pentref ar hyd ei hoes. Bu'n aelod selog yng Nghapel Tabernacl (Wesleiaidd) ac mae gen i gof da ohoni hi a'r plant yn pasio tŷ ni, 12 Deiniol Road, bryd hynny. Wedi cau'r capel hwnnw, aeth yn aelod i Gapel Disgwylfa (Methodistiaid) oedd yng ngwaelod yr un ffordd.

Roedd hi'n hynod ddiwylliedig ac yn cael pleser a boddhad mawr yn ysgrifennu straeon a hanesion ei milltir sgwâr. Enillodd sawl gwobr am ei gwaith llenyddol mewn eisteddfodau lleol ac ymddangosodd 'Hanes Pentref Deiniolen' yn Eco'r Wyddfa pan oedd hi'n 90 oed.

Bu i'r Gymdeithas Lenyddol, Merched y Wawr a Phlaid Cymru elwa'n fawr o'i hymroddiad a phan ddaeth y dydd y bu rhaid cau Capel Disgwylfa, ymaelododd mam Jen yng Nghapel Ebeneser (Annibynwyr) y tro hwn. Fe'i codwyd yn ddiagon yno a mawr oedd ei chyfraniad a'i chefnogaeth i'r achos yno.

Cefais lawer o hwyl yng nghwmni'r teulu hoff yma ac mae sawl digwyddiad yn aros yn y cof. Fel bore Nadolig pan oeddem tua'r 8 oed. Rhuthro draw i dŷ Jen i weld beth oedd Santa Clôs wedi ei adael yno, Mam Jen ar ben y steps cefn yn dal y tun cig a fflamau mawr wedi lapio am y twrci. Taflu hwnnw i'r ardd gefn cyn mynd i ddiffodd y fflamau yn y popty. Sôn am banic. Jen yn crio mewn ofn neu am ei bod wedi colli ei chinio a minnau'n crio am fod Jen yn crio. Nôl y twrci mhen 'chydig ond dim golwg ohono – na golwg felly am ginio. Ond daeth cnoc ar y drws a dyna lle roedd Mr Jack Davies, drws nesa, efo'r twrci wedi ei lanhau'n lân. Chwarae teg iddo am achub y dydd.

Chwerthin yn hwyliog fyddai mam Jen pan fyddem yn sôn am yr hen amser. A ninnau tua'r pymtheg oed ac ar ein ffordd i Ysgol Brynrefail, 'doedd Jen ddim yr hogan hapus arferol. Wedi holi, fe dd'wedodd fod ei mam yn mynd i gael babi bach arall. Minnau'n ei gweld hi'n braf arni, hefo tri brawd yn barod a dim ond mam a fi yn tŷ ni! Y pnawn hwnnw, dwi'n cofio dweud wrth ei mam "Doeddwn i ddim yn coelio Jen yn dweud fod 'na fabi bach ar ei ffordd." A daeth ateb hapus ei mam "Mair bach, 'doeddwn i ddim yn coelio'r doctor." Do, ganwyd Euryr ddechrau'r mis Rhagfyr canlynol.

Dyna oedd dyddiau difyr - a hi, er prysured ei byd, hefo amser i bawb. Symudodd Hywel a hithau a Meirion i 3 Pentre Helen, lle cawsant flynyddoedd hapus iawn. Erbyn hynny, roedd hi'n gweithio yn Ysgol Gwaun Gynfi – yn y gegin ac yna ar yr iard efo'r plantos. Roedd hi wrth ei bodd yno a phawb yn meddwl y byd ohoni hithau.

Fe gollodd hi Hywel bron i wyth mlynedd yn ôl, ond brwydrodd ymlaen yn ddewr. Erbyn hyn bu ei phlant yn gefn aruthrol iddi – Meirion ar yr aelwyd a Jen yn mynd nôl a 'mlaen yn ddyddiol. Fel y dirywiodd ei hiechyd tua canol ei nawdegau, daeth at Jennifer a Gareth i Glanffynnon, Llanrug, lle cafodd ofal tyner a gofalus ar eu haelwyd Chafodd neb ddim gwell mam erioed, a phrin iawn yw'r genod fu mor ofalus a thriw i'w mam ag a fu Jen.

Ydy, mae'r chwerthiniad iach yn dawel bellach ar ddau lygad glas, glas caredig ynghau. Ond diolch am yr holl atgofion hapus yn ei chwmni gydol f'oes. Yn festri Capel Eban, ar y dydd olaf o Awst, fe ddaeth cynulleidfia deilwng ynghyd i ffarwelio â'r wraig arbennig 97 oed - Jenny Eirlys Williams. Minnau, â chalon drom, yn cael y fraint drist o gyfeilio ar yr organ. Yn addas iawn, canwyd 'Dros Gymru'n Gwlad 'ar don Finlandia. 'Does gen ddim amheuaeth nad oedd mam annwyl Jen yn un o'r rhai "gwir a glân gael ynddi nyth".

Diolch amdani, gwyn ei byd - a hedd, perffaith heddi bellach.

xx Mair

Un funud fach ...

MYND YN DDIEITHR

A minnau ar ddechrau sgwennu pwt o erthygl – ond, a bod yn onest, heb fawr o syniad i ba gyfeiriad yr oeddwn am fynd iddo – fe'm dryswyd gan ganiad y ffôn. Ar ben arall y lein roedd gwŷr bonheddig nad oeddwn wedi cael sgwrs ag ef ers blwyddyn neu ddwy. Mor braf oedd clywed ei lais, a chael sgwrs fer am hyn ac arall. Wedi'r sgwrs a chyn ail afael yn yr erthygl hon roeddwn wedi ffonio dau berson arall a fu'n ddieithr i mi ers tro. A braf oedd clywed y lleisiau cyfarwydd a chael gwybod am hyn a helynt y cyfeillion hynny ers i mi eu gweld ddiwethaf.

Mor sydyn y gall pobl fynd yn ddieithr i ni am bob math o resymau dilys. Er enghraifft, peidio â bod ynglŷn â'r gwaith a ddaeth â ni at ein gilydd oedd y rheswm dros beidio â chadw cysylltiad â'r cyfaill a ffoniodd acw heddiw. Ond beth bynnag y rheswm, buan iawn y gall dieithrwch wreiddio a'i gwneud hi'n anodd i ni feddwl am gysylltu â'r person arall. Gall euogrwydd am beidio â chadw cyswllt atal pob bwriad ac ymdrech i wneud hynny. Ac mae'r wythnosau a'r misoedd (a'r blyneddau hyd yn oed) yn gwibio heibio).

Mor rhwydd hefyd yw mynd yn ddieithr i Dduw. Mor rhwydd yw ei anwybyddu. Mor rhwydd peidio â throï ato, peidio â cheisio dim ganddo, peidio â diolch iddo. Ac mor bwysig yw cofio nad perygl sy'n wynebu anghredinwyr yw hwn. Perygl sy'n wynebu credinwyr ydyw, ac mae mor rhwydd i'r Cristion bellhau oddi wrth Dduw wrth gefnu ar y gymdeithas sydd ganddo ag Ef trwy weddi a myfyrdod yn Ei Air.

A chyda'r dieithrwch hwn hefyd daw euogrwydd mawr am beidio â glynu wrth yr Arglwydd. Gall yr euogrwydd hwnnw ein rhwystro rhag ceisio Duw; gall ein cadw yn ddieithr iddo. A fedrwn droi nôl ato? Ydi'r dieithrwch yn golygu na fedrwn fentro ei geisio? Pa dderbyniad a gaem pe byddem yn gwneud hynny?

Y fath gysur, felly, yw cofio fod ein Duw yn dyheu am i ni alw arno. Dim ond derbyniad parod a gaiff ei blant wrth iddynt droi ato. Mae gras a thrugaredd Duw'n golygu nad oes rhaid i'r un ohonom ofni ei geisio, pa mor ddieithr bynnag y buom yn ein perthynas ag Ef. Pa faint bynnag y cefnu a'r dieithrwch o'n tu ni, mae cariad a thosturi Duw yn golygu y medrwn alw arno'n hyderus gan wybod y bydd yn gwrando arnom ac yn ein croesawu nôl i gymdeithas ddiogel ag Ef ei hun. Duw sy'n dyheu am gymdeithas â'i blant yw Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist.

JOHN PRITCHARD

Cynnal a Chadw Gerddi ac Adeiladau



TORRI GWAIR/ GWRYCHOEDD/ COED
PLANNU • CHWYNNU • PEINTIO • GWAITH COED
PLASTRO • GOSOD CEGINAU *AMCANGYFRIF AM DDIM*

Sion Roberts ▶ **07759415753**

3 CARADOG PLACE • DEINIOLEN • LL55 3H5



GERAINT OWEN
CARPEDI

CARPEDI • VINYLs • TEILs


CANOEDD O BATRYMAU I DDEWIS

A RHAI MEWN STOCK

Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd

A Uned 5 Gwyrfaï Mill Bontnewydd

(01286)650552 Mob. 07712779475



Ar ben arall i'r lein



Dwi 'di bod yn pendroni ers misoedd lawer am be ga i sôn wedi i'r holl drafferthion 'ma ddod i ben heblaw, wrth gwrs, clodfori tipyn ar waith y Gymdeithas a Fish Legal i gael y maen i'r wal. Fel y gwyddoch erbyn hyn mae'r hen wal 'na o rwystrau a gwadu wedi ei chwalu, ac mae'n wir bleser dweud fod pethau yn gwella.

Fel adroddais dros y misoedd diwethaf ma cymysglyd ydi pethau wedi er bod rhyw oleuni ffug wedi ymddangos o dro i dro. Llauer o ddweud fod nifer fawr o eogiaid a gwyniadau yn neidio yn y Fenai - neu'r afon fel y gelwir hi yn y dre. Ac i gadarnhau mai afon yw hi - dyma sydd yn rhagymadrodd llyfryn ardderchog y diweddar Gwyn Parri Huws: 'Y Fenai

'Is nef nid oes un afon

Lased a hardded â hon.'

'Yn lle mae'n nhw'n dangos?' fydd y cwestiwn pob tro - os yw'r ateb yn dod fel 'yn y canol' yna y tebygrwydd yw na di ond mynd heibio ar eu ffordd i afonydd eraill y gogledd maent. Ac felly mae wedi bod, gan fod afonydd fel yr Ogwen a'r Conwy wedi cael tymor reit dda gyda'r Seiont ar eu hôl hi. Wel, ers tua canol Awst mae adroddiadau'n cyfeirio at bysgod yn dangos o'r Hen Bwll Nofio i Traeth Bach ac i lawr o Borth Waterloo a Bae Coffey. Mae hyn fel arfer yn dynodi mai pysg y Seiont ydynt. Tipyn yn gynnar i wneud sioe ohoni yn fy nhyb i gan mai afon hwyr am eog yw'r Saint, hynny yw gyda'r eog yn rhedeg o ddechrau Medi. Felly 'roedd hi cyn y trafferthion o leiaf, ond gyda phethau ar dro eleni, a chymorth gan y tywydd gwlyb mae pethau i weld yn dechrau dod atynt eu hun.

Un o'r rhai cyntaf i ddal oedd Clifford Thomas, Felinheli, ac o fewn rhyw ychydig ddyddiau cafodd un arall - y ddau oddeutu chwe phwys ac o'r Finiog. Fel mae pethau'n mynd ymlaen mae'n amlwg fod tipyn o eogiaid o gwmpas oherwydd, hyd at heddiw sef 21 Medi, mae nifer wedi dod i'r rhwyd, a dyma'r rai o'r 'sgotwrs llwyddiannus:- Kevin Morgan, Waunfawr; John Fraser Williams, Crawia; Gareth B. Jones, Bontnewydd; Gari Morris, Caernarfon a Dr Robin Parry, Llanberis. Y gorau hyd yn hyn yw eog hyfryd a dros 12 pwys i enwair Malcolm Owen, Caernarfon. Efallai mai dyma ble y bydd Tlws Tomi Lovell yn mynd eleni - cawn weld!

Mae pethau wedi bod yn addawol dros ben gyda'r gwyniadau - dwi'n trio ngorau i ddefnyddio enwau sydd ar lafar y fro yma am y pysg - mae rhai yn dweud y dylwn gyfeirio at y brithyll môr fel sewin, wel na, rhyw enw o'r de ydi hwnnw, gwyniadau ydi'r enw lleol a dyna fo. Eleni mae 'sgota'r gwyniadau wedi bod yn eithriadol o dda - y gorau o bosib ers yn agos i ddeng mlynedd. Un o'r rhai gorau ddaeth i Stuart Woodward, Ceunant, sgodyn hyfryd am 5 pwys, a bore 'ma clywais fod Iolo Jones, Deiniolen, wedi cael un am 3 phwys neithiwr (20/9), y ddau yma o'r Finiog. Da yw clywed bod padelli'r fro ar waith unwaith eto.

Fel y gwyddoch rwy'n eithriadol o hoff o fwyta peth o'm helfa. Er fy mod yn dychwelyd y rhan fwyaf yn ôl i lyn neu afon, mi fyddaf yn cael ffidan bach 'nawr ac yn y man, neu os bydd rhywun wedi

gofyn am 'sgodyn. Dyma sy'n gwneud pysgota mor bleserus, sef cael yr opsiwn i wneud fel y mynnoch, ond mae'r opsiwn i gadw rhai at y badell yn eithriadol o bwysig. Y perygl yw fod yr awdurdodau heddiw eisiau rheoli pawb a phopeth, ac mae dau beth i'w weld dan olwg ein llywodraeth yng Nghaerdydd, sef agor dyfroedd a chefn gwlad Cymru i phawb a phopeth, yr hawl i fynd a gwneud fel y mynnwch. A'r ail yw gorfodi pawb i ollwng pob eog a gwyniedyn yn ôl i'r afon neu lyn, a hyn oherwydd bod dyfodol y pysg yma mewn perygl os yw'r sgotwrs yn mynnu cadw rhywbeth at brydyn.

Does dim cyfeiriad at y llygredd a'r rhwydo cyfreithlon ac anghyfreithlon a llawer o bethau eraill sy'n cael effaith negyddol ar ein pysgodfeydd, wrth gwrs mae pethau fel hyn yn mynd i gostio'n aruthrol i'w taclo. Rhatach o lawer yw pwyntio bys a dweud mai ar y sgotw'r's mae'r bai, mae nhw yn hawdd i ddeddfrydu yn eu herbyn - dim cost i hyn a byddant yn clodfori, 'Wele be 'rydym ni wedi wneud i achub yr eog - atal pysgotwyr ddal.'

Canlyniad hyn i gyd fydd genweiri yn cael eu cadw, nifer yn pysgota'n disgyn, felly, wrth reswm, clybiau yn methu talu rhent a dyna ni ddiwedd arni. Drwy lofnod un gwleidydd yng Nghaerdydd gall holl rwydwaith pysgota lleol Cymru gael ei chwalu, a fydd neb o'r criw yma yn ymatebol. Dyma gyfle euraidd i'n cynrychiolwyr lleol fynegi eu barn, sef fod cadw diddordebau cefn gwlad yn bwysig. Pan mae amgylchiadau fel hyn yn codi eu pennau, mae polisi'r Gymdeithas dros y blynyddoedd o brynu hawliau pan maent ar gael yn profi ei werth dro ar ôl tro. Erbyn heddiw y clwb yw perchennog y rhan fwyaf o bysgota'r fro sy'n angenrheidiol at y busnes.

Nodyn i gloi ar hyn i gyd - mae nawr yn ugain mlynedd ers i'r Senedd ddod i rym yng Nghaerdydd. Mawr oedd ein disgwyliadau y buasai pethau yn gwella'n aruthrol, wel yn y maes pysgodfaol tydi pethau ddim wedi gweithio o gwbl. Yn lle gwella mae pethau wedi dirywio allan o bob dychymyg a'r teimlad 'rydym yn ei gael, yn enwedig y niferoedd mawr sy'n ymddiddori mewn materion cefn gwlad, fod rhyw garfan o'r llywodraeth ddim yn gweld y pictiwr o gwbl, ac yn benderfynol o ddefnyddio pob arf neu rym sy'n eu meddiant i ddifetha popeth da sydd o gwmpas. Wrth gwrs, mi fydd llawer un yn anghytuno â hyn, ond dyna yw pwrpas y Gymdeithas, sef i roi gwybodaeth ar beth sy'n mynd ymlaen.

Wel dyna ddigon arni am y mis yma, ac roeddwn wedi addo peidio mynd ar gefn fy ngheffyl, ond fel yna mae pethau mae gennyf ofn.

Huw Price Hughes



HEDYN AML-DDAWN

Rhaid cyfaddef mae gwyliwr ac edmygwr o'r byd athletau bum i dros y blynyddoedd. Er yn fy mlynyddoedd ysgol, yn wahanol i lawer roeddwn wrth fy modd gyda'r gwersi rasio traws gwlad, er gwaethaf tywydd naturiol Dyffryn Ogwen. Rhai rwyf wedi edmygu'n fawr yw'r athletwyr aml gamp – y decathalon a'r pentathlon. Roedd rhai fel Daley Thompson a Jessica Ennis yn wir gystadleuwyr â lefel ffitrwydd anhygoel. Gwir gystadleuwyr pa bynnag ddiffiniad rown ar y gair.

Braf cofnodi felly gampau Codey O'donnell, 11 oed sy'n ddisgybl yn Ysgol Bethel. Mae Codey wrth ei fodd yn sesiynnau Clwb Rhedeg Bethel a hefyd yn aelod o garfan Clwb Athletau Trac a Maes Menai. Ac yn lifrau y clwb yma, wedi ei leoli yn Nhreborth, y cymerodd ran ym Mhencampwriaethau Athletau Oedrannol Cymru draw yng Nghasnewydd yn ddiweddar.

Roedd Codey yn cystadlu mewn pedwar camp wahanol yn ystod y dydd. Ar y trac roedd yn rhedeg yn yr 800m (5ed.) a'r ras gyfnewid (3ydd.). Yn y cystadlaethau maes bu'n taflu'r pwysau (Shot) ble ddaeth yn ail, ac hefyd y wauwffon ble cipiodd y bedwaredd safle. Tipyn o gowlaid i un mor ifanc o fewn un diwrnod. Ond, er y daith lafurus i'r De, daeth Clwb Menai yn ôl i lannau'r Fenai yn Bencampwyr Cymru. Mae nifer o Fro'r Eco – gan gynnwys ei frawd Callum- yn aelodau o'r Clwb ac edrychwn ymlaen i gronico eu llwyddianau hwy yn y dyfodol. Bydd rhai ohonnoch yn cofio tad Codey, sef Rory O'donnell yn dipyn o redwr yn ei amser. Da gweld traddodiad teuluol yn cael ei ymestyn.



Y CWPAN YN DENU SYLW


A'r gwpan honno yw'r Gwpan Genedlaethol yn achos Llanrug. Bellach mae tim Eithin Duon wedi cyrraedd rownd gyflawn gyntaf y Cwpan. Dyma'r man ble mae'r clybiau odditan y Gynghrair Genedlaethol yn mentro. Caernarfon, Portmadog, Caergybi, Rhyl.... O gyrraedd y safle yma mae'r clwb hefyd yn derbyn gwobrau ariannol. O gofio y symiau sylweddol mae clybiau'r Gynghrair Genedlaethol yn ei dderbyn am gyrraedd gemau Ewrop, mae'n anhygoel fod timau fel Bae Colwyn a Merthyr yn dal i fynnu mai yng nghyngreiriau Seisnig mae eu dyfodol. Eleni, derbyniodd clwb Dinas Bangor 200 000 Ewro, a'r Seintiau Newydd dros 500 000 Ewro. Ni wêl Llanrug y fath symiau ond bydd y cyfraniad o'r Cwpan yn gaffaeliad. Mae cynnal unrhyw glwb pêl-droed yn frwydr barhaol bellach, ac yn ddibynnol ar strwythr gref a dibynadwy yn y clwb. Yn hyn o beth mae Llanrug yn hynod ffodus. Mae'r dartblygiadau ar Eithin Duon dros y tymhorau yn dyst i hynny. Yn y rownd gyntaf bydd Llanrug yn teithio draw i ardal Wrecsam i herio tîm Llay Welfare sy'n chwarae ym mhrif adran Cynghrair Wrecsam a'r Cylch – sydd ar yr un ris a Llanrug ym mhyramid pêl-droed gynghreiriol. Dyma un o dimau traddodiadol ardal Wrecsam wedi ei sefydlu I ddechrau fel tîm Pwll Glo Llay Main. Maent yn rhannu'r maes gyda'r tîm criced ac hefyd yno mae adran Bowls lewyrchus. Ar y safle saif yr Institute, adeilad hardd ble y bu'r glowyr mewn dyddiau cynharach yn dod i ymlacio a hamddena wedi'r gwaith beichus. Bydd hon yn gêm galed i'r hogiau ond maent wedi magu tipyn o enw fel tîm cwpan yn y tymhorau diwethaf. Ymlaen gobeithio a denu Y Cofis neu Bangor draw i Eithin Duon fel mewn tymhorau cynharach. Yna buasai'r clwb yn elwa mewn sawl ffordd. Hyd yn hyn yn y gynghrair mae Llanrug wedi ennill pedair gêm a dwy gêm gyfartal, dechrau boddhaol iawn i'r tymor gyda'r goliau yn cael eu rhannu allan. Arwydd da, a gobeithio am y cysondeb sydd wedi amharu ar allu Llanrug i herio am y Bencampwriaeth yn y tymhorau diwethaf.



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williamshy@parliament.uk




E. W. Pritchard

Trefnwyr Angladdau

CENTRAL GARAGE
LLANBERIS
FFON- (01286) 870202

"RYDYM ANGEN MWY O
FYTHYNNOD HUNANARLWYO"



Siân Gwenllïan
Aelod Cynulliad
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth,
70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372948
Swyddfa Etholaeth,
8 Stryd y Castell, Caernarfon,
LL55 1SE
(01286) 672076
Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru

UNAMYDYFOFODOL

Gan fy mod yn mynd ar wyliau rwyf wedi llunio'r golofn yn fuan y mis hwn. Braf cofnodi bod Llanberis wedi troi'r gornel wedi dechreuad diflas i'w tymor pêl-droed. Ond wele hwy rwan yn y bedwerydd safle yn y gynghrair wedi rhediad ddi-golli o bedair gêm gan ennill tair ac un yn gyfartal.

Braf cofnodi mai chwaraewr ieuanc iawn sydd wedi chwarae rhan flaenllaw yn y llwyddiant. Asgellwr chwith yw Ifan Mansoor, 16 oed, ac eisioes mae wedi rhwydo 4 gôl mewn 6 gêm.

Yr hyn sy'n galonogol yw bod Ifan wedi dod drwy dimau ieuencid y clwb o'r tim -7 drwodd i'r tim cyntaf. Ar hyd y tymhorau bu yn sgoriwr cyson. Cafodd cryn lwyddiant gyda thimau ieuencid Llanberis a Chwpan Cenedlaethol gyda thim -14 Ysgol Brynrefail. Bu am gyfnod hefyd yn aelod o Academi tîm Dinas Bangor. Erbyn hyn Llanberis yn unig sy'n cael ei sylw. Wrth ei holi roedd yn amlwg fod colli mewn tair rownd derfynol o Gwpan Gogledd Cymru yn dal i frifo

Roedd Ifan ar un adeg yn asgellwr chwith i dim rygbi ieuencid Caernarfon. Sgoriodd sawl cais ac edrychai fod cyfle da iddo fentro ymlaen yn y maes rygbi. Yn wir, disgrifwyd o yn y wasg un tro fel yr asgellwr gyda throed y dawnsiwr. Ond pel-droed gaiff yr unig sylw bellach.

Erbyn hyn mae Ifan yn fyfyrwr yng Ngholeg Menai yn dilyn cwrs yn y byd Trydanol. Mae Ifan yn siwr o ddenu sylw un arall o 'gewri' Llanberis sef Marc Lloyd Williams. Fel darlithydd yn yr adran Addysg Gorfforol Marc yw hyfforddwr tîm pêl-droed y Coleg. Bu'r garfan hon yn hynod lwyddianus yn y tymhorau diwethaf gan ennill sawl tîws cenedlaethol a chael sawl aelod o garfan Colegau Cymru – tîm arall mae Marc yn hyfforddi. Dyma sialens ac efallai lwybr ymlaen i Ifan yn y dyfodol.

Yn sicr mae gweld llwyddiant yr hynaws Ben Woodburn, 17 oed, ar y llwyfan rhyngwladol yn sbardun i sawl Ifan rwy'n siwr. Mae strwythur mewn lle bellach i adnabod a datblygu pêl-droedwyr ifanc dawnsus i'r system genedlaethol. 'Gyda'n gilydd yn gryfach' yn sicr yw'r dystiolaeth.

Yn ystod ein sgwrs, braf oedd clywed Ifan yn sôn mai ei uchelgaais yw chwarae yng Nghyngrair Genedlaethol Cymru. Sawl gwaith rwyf wedi condemnio sawl 'sgowt' lleol fyddai'n gaddo cael y chwaraewr ifanc i un o dimau mawr Lloegr a'u cadw nhw i fwrdd o gyfle i feithrin eu dawn yn agosach gartref. Fel y dywedais lawer tro mae'n cynghreiriau lleol yn llawn o 'ex trialist'.

Rwyn siwr bod 'taid Ken' wedi paentio sawl darlun o asgellwyr y gorffennol fel Gwyn Edwards, Cwil Bach a'r Jiws ifanc a darodd sawl gôl ar gae Padarn Rd. Gobeithio y byddwn un diwrnod yn sôn am Ifan yn yr un gwynt. Pob lwc iddo.

TYMORLLWYDDIANUS

Mae hyn yn wir yn achos Sion Evans o Benisarwaun a fu'n aelod rheolaidd o dîm cyntaf clwb criced Bangor eleni. Yn y mwyafrif o'r gemau bu Sion yn agor y batio a chyfranodd ambell i sgôr bwysig a alluogodd y tîm i ennill Pencampwriaeth Uwch Adran Cynghrair y Gogledd. Cyfranodd Sion hefyd i'r llwyddiant gyda'i faesu safonol. Mae Sion wedi datblygu drwy dimau ieuencid y clwb a bu'r buddsoddiad dros y blynyddoedd i feithrin talent ieuanc lleol yn amlwg eleni. Fe chwaraeodd nifer o'r chwaraewyr ieuanc – rhai ohonynt dan 15 oed – ran allweddol a alluogodd y clwb i ennill pedair pencampwriaeth eleni – camp rhyfeddol. Ar wahan i'r brif adran, ennillodd yr ail dîm eu pencampwriaeth, hefyd enillwyd Cynghrair y Sul y Gogledd, y gynghrair canol –wythnos Môn/Arfon, ac roedd tîm -15 y clwb i wynebu tîm Llay Welfare am bencampwriaeth oedranol y Gogledd. Ymysg yr ieuencid ennillodd dau gapiau cenedlaethol a chynhyrchiolodd nifer ranbarth Eryri. Heb amheuaeth mae strwythr hyfforddi ieuencid y clwb i'w gymharu ag unrhyw glwb yn y gogledd bellach. Dyma



RHEDEG MYNYDD

Mis nodedig fu hwn yn hanes y clwb rhedeg lleol. Roedd Rhedwyr Eryri yn dathlu penblwydd yn ddeugain oed. A dim ond yng Ngwesty Fictoria, Llanberis yr oedd yn bosib gwneud hynny. Yno, ddeugain mlynedd yn ôl y cyfarfu nifer fechan o bobl yn dilyn gwahoddiad gan Ken Jones, Trefnydd Ras yr Wyddfa. Galwyd y cyfarfod ar gais Cymdeithas Athletau Cymru (fel yr oedd bryd hynny) yn y gobaith o sefydlu Clwb Rhedeg Mynydd yn dilyn cynnal dwy Ras yr Wyddfa lwyddiannus, ac i hybu'r gamp yn lleol. A dyna'n union ddigwyddodd. O fewn cwta ddeufis roedd bron i hanner cant o aelodau yn perthyn i'r clwb newydd, ac o hynny ymlaen aeth o nerth i nerth.

Ddeugain mlynedd (ac wythnos!) wedi'r cyfarfod cyntaf hwnnw, cafwyd parti penblwydd, gyda nifer o'r aelodau gwreiddiol yn bresennol. Cafwyd anerchiad byr ar hanes sefydlu'r Clwb ac am ei lwyddiannau dros y blynyddoedd: sawl pencampwr a phencampwraig Prydeinig, heb son am nifer helaeth wedi hawlio Pencampwriaeth Cymru. Ond yn bwysicach na hynny yw'r ffaith iddo ddenu cymaint o drigolion lleol, yn ieuencid ac oedolion, i fwynhau'r mynyddoedd tra'n creu 'teulu' clos o ffrindiau.

Wythnos cyn y parti penblwydd roedd y clwb yn gyfrifol am drefnu Ras Pedol Peris; taith o Lanberis i gopa'r Elidir ac ar hyd y grib i'r Glyder cyn disgyn i Ben Gorffwysfa a pharhau a'r dringo i gopa'r Lliwedd a'r Wyddfa cyn disgyn am y tro olaf dros Foel Cynghorion i Lanberis. Roedd y tywydd yn anffafriol a dweud y lleiaf! Ond cafwyd dau enillydd lleol: Gareth Hughes yn ennill y brif ras, a Shaun Davies (Deiniolen) yn ennill yr hanner (i Ben Gorffwysfa).

A'r "Eco" yn cael ei anfon i'r wasg, roedd Gŵyl Ffair Nant yn cael ei chynnal, ac fel rhan o'r gweithgareddau roedd Ras Elidir Fawr. Mwy o hanes y ras honno yn y rhifyn nesaf. Hefyd ar y 15fed o Hydref, o safle Glyn Rhonwy bydd Pencampwriaeth Prydain i Rasys Cyfnewid ar Fynydd yn cael eu cynnal dan nawdd Rhedwyr Eryri. Fe'u cynhaliwyd yma ddiwethaf yn 2013. Disgwylir tua cant o dimau (6 rhedwr ym mhob tim) i gystadlu mewn pedair ras. Os bydd y tywydd yn ffafriol, bydd yn werth gwyllo'r rasys – ar Lôn Clegir, ger Bwlch y Groes neu yn ardal Maenllwyd.

A bydd tymor y rasys traws-gwlad wedi dechrau erbyn hynny hefyd....



estyn gwahoddiad i unrhyw blentyn o Fro'r Eco – bachgen neu eneth rhwng wyth a phymtheg oed – i ddod draw i Dŷ Newydd i fentro gwella eu safon – neu'n fwy pwysig mwynhau chwarae criced. Bu ysgolion cynradd lleol – gan gynnwys Bethel – yn gwneud defnydd o chwaraewr tramor y clwb Francois Moestart o Dde Affrica yn eu gwersi hyfforddi chwaraeon.

Chwaraeon

Pencampwriaeth Beics Cymru



Ganol mis Medi cynhaliwyd Pencampwriaeth Dringo Gelltydd ym Mwlch Llanberis. Y bwriad gwreiddiol oedd ei chynnal yn Nant Gwrtheyrn, ond bu'n rhaid ei throsglwyddo i Fwlch Llanberis. Clwb Beicio lleol – Clwb Beicio Egni, ar y cyd a Chymdeithas Beicio Cymru oedd yn gyfrifol am y trefniadau. Roedd nifer o ddosbarthiadau, yn amrywio o ieuencid i hynafgwyr – a gwragedd. Yn syml, y gamp oedd reidio beic o Nant Peris i Ben Gorffwysfa yn yr amser cyflymaf: tair milltir union o ddringo caled.

Tua faint o amser a gymer i chi ddreifio car i fyny'r Bwlch? Wel, goeliwch chi fod yr enillydd wedi beicio y pellter mewn 10 munud a 12 eiliad? Er nad oedd y canlyniadau terfynol wedi eu cyhoeddi pan oedd yr “Eco” yn mynd i'r wasg, ni chredir fod neb o'r fro wedi ennill un o'r categorïau. Ond Clwb Beicio Egni oedd y tim buddugol, gyda'i tri beiciwr cyflymaf yn cwblhau'r cwrs mewn 35 munud – llai na 12 munud yr un i fyny'r Bwlch.



Clwb Pel-fasged Cadair Olwyn Celtiaid Caernarfon



Ffurfiwyd y Clwb chwe mlynedd yn ôl a bellach maent yn cyfarfod yng Nghanolfan Hamdden Caernarfon ddwywaith yr wythnos. Ar nosweithiau Llun mae'r aelodau hŷn (dros 13 oed) yn cyfarfod am ddwyawr rhwng pump a saith; ac ar nosweithiau Mawrth i blant iau (dan 13 oed) rhwng chwech a saith. O fewn yr ail sesiwn hwn mae cyfle i rai ag anableddau dysgu gymryd rhan. Yr unig wahaniaeth rhwng pel-fasged arferol a phel-fasged cadair olwyn yw'r gadair! Ac mae'r gadair honno'n ysgafn iawn – a heb frecs – a gall fod yn gyflym iawn ar y cwrt chwarae. Nid yw'n gêm ar gyfer rhai ag anabledd corfforol yn unig. Gall unrhyw un gymryd rhan – er enghraifft, rhai sy'n gwella o niwed i'w coesau,

neu rai sy'n holliach. Mae pob chwaraewr yn 'werth' pwyntiau: po leiaf yr anabledd, uchaf y pwyntiau, a dim ond tim yn cynnwys nifer penodol o bwyntiau sy'n cael chwarae. (Felly, mae'r sustem dewis tim ac eilyddio yn gallu bod yn fathemategol gymhleth!) Mae'r cyfanswm yn gallu amrywio yn ôl y gystadleuaeth.

Mae'r Clwb hefyd yn cynnig hyfforddiant i rai gymhwyso mewn cymorth cyntaf ac i ddod yn hyfforddwyr. Mae nifer wedi ennill gwobrau a thystysgrifau dan nawdd Chwaraeon Anabledd Cymru. Mae aelodau eraill wedi cael y cyfle i gynrychioli Cymru mewn gemau rhyngwladol.

Mae'r tim yn cystadlu yng Nghynghrair RGK Gogledd Cymru, sy'n cynnwys timau o Fôn, Conwy a Rhyl, a gall rhai o'r gemau fod yn eithaf tanllyd. Mae dwy gadair gyflym mewn gwrthdrawiad yn golygu dau chwaraewr (a'u cadair) yn powlio bwl-din-dros-ben ar y cwrt chwarae!

Mae nifer dda o fro'r “Eco” yn aelodau o'r Clwb. Yn y ddwy gêm gynghrair ddiwethaf cafodd Guto Thomas, Llanrug ei ddewis yn MVP (Most Valuable Player), y term a ddefnyddir mewn pel-fasged am 'man of the match'. Fo hefyd gafodd ei ddewis yn MVP y Flwyddyn am y tymor diwethaf gan yr hyfforddwyr.

Mae croeso i aelodau newydd ymuno, ond mae llefydd yn brin ar gyfer y sesiwn nos Fawrth. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch efo Deb Bashford ar 07988853010.

Tim Sgio Ysgol Brynrefail

Ganol mis Medi ym Mhlas y Brenin cynhaliwyd cystadleuaeth sgïo ysgolion uwchradd Gogledd Cymru.

Roedd Heledd Swyn, Alys Chisholm, Molly Chisholm ac Eirwen Howarth yno'n cynrychioli Ysgol Brynrefail.

Dyma'r canlyniadau:

Dan 16: Alys Chisholm 1af, Heledd Swyn 2il

Dan 14: Molly Chisholm 1af

Dan 12: Eirwen Howarth 1af

Tîm genethod (sef y bedair) yn 2il o 300fed eiliad i tim Ysgol Eirias

O'r holl gategorïau'r merched daeth Alys Chisholm yn 3ydd.

Byddant yn cystadlu nesaf ym mis Hydref yn Llangrannog yng nghystadleuaeth Pencampwriaeth Ysgolion Cymru.

